Rhaglen Gyflawn

# CABINET

# CYNGOR GWYNEDD

| | |
|---|---|
| **DYDDIAD** | Dydd Mawrth, 8fed Mawrth, 2022 |
| **AMSER** | 1.00 y.h. |
| **LLEOLIAD** | Cyfarfod Rhithiol - Bydd y cyfarfod yn cael ei we-ddarlledu - https://gwynedd.public-i.tv/core/portal/home |
| **PWYNT CYSWLLT** | Annes Siôn<br><br>01286 679490 / cabinet@gwynedd.llyw.cymru |

## AELODAU CABINET CYNGOR GWYNEDD

| **Aelodau** | |
|---|---|
| Dyfrig L. Siencyn | Arweinydd |
| Dafydd Meurig | Dirprwy Arweinydd, Aelod Cabinet Oedolion, Iechyd a Llesiant |
| Craig ab Iago | Aelod Cabinet Tai |
| Gareth Wyn Griffith | Aelod Cabinet Amgylchedd |
| Nia Wyn Jeffreys | Aelod Cabinet dros Gefnogaeth Gorfforaethol |
| Dilwyn Morgan | Aelod Cabinet Plant a Phobl Ifanc |
| Gareth Thomas | Aelod Cabinet Datblygu'r Economi a Chymuned |
| Ioan Thomas | Aelod Cabinet Cyllid |
| Catrin Wager | Aelod Cabinet Priffyrdd a Bwrdeistrefol |
| Cemlyn Rees Williams | Aelod Cabinet Addysg |

# RHAGLEN


| | Eitem | Cyflwynir gan | Swyddog | Tud. |
|---|---|---|---|---|
| 1 | YMDDIHEURIADAU | | | |
| 2 | DATGAN BUDDIANT PERSONOL | | | |
| 3 | MATERION BRYS | | | |
| 4 | MATERION YN CODI O DROSOLWG A CHRAFFU | | | |
| 5 | COFNODION CYAFARFOD A GYNHALIWYD AR 15 CHWEFROR 2022 | | | 3 - 11 |
| 6 | CYNLLUN ARGYFWNG HINSAWDD A NATUR 2022/23-2029/30 | Cyng. Dyfrig Siencyn | Dafydd Wyn Williams a Bethan Richardson | 12 - 67 |
| 7 | FFIOEDD CARTREFI PRESWYL A NYRSIO AR GYFER 2022/23 | Cyng. Dafydd Meurig | Aled Davies | 68 - 79 |
| 8 | CYNLLUN STRATEGOL Y GYMRAEG MEWN ADDYSG | Cyng. Cemlyn Williams | Rhian Parry Jones | 80 - 118 |
| 9 | ADRODDIAD PERFFORMIAD YR AELOD CABINET DROS YR ADRAN TAI AC EIDDO | Cyng. Craig ab Iago | Carys Fôn Williams | 119 - 129 |

## Y CABINET DYDD MAWRTH, 15 CHWEFROR 2022

**Yn bresennol-**
Y Cynghorwyr: Dyfrig L Siencyn, Dafydd Meurig, Craig ab Iago, Gareth Griffith, Nia Jeffreys, Dilwyn Morgan, Ioan Thomas, Gareth Thomas, Catrin Wager a Cemlyn Williams.

**Hefyd yn bresennol-**
Dafydd Gibbard (Prif Weithredwr), Morwena Edwards (Cyfarwyddwr Corfforaethol), Iwan Evans (Pennaeth Cyfreithiol), Dewi Morgan (Pennaeth Cyllid) ac Annes Siôn (Arweinydd Tîm Democratiaeth).

Eitem 6: Ffion Madog Evans (Uwch Reolwr Cyllid)
Eitem 7: Rhion Glyn (Pennaeth Cynorthwyol – Oedolion, Iechyd a Llesiant) a Hawis Jones (Rheolwr Tîm Prosiectau Oedolion, Iechyd a Llesiant).
Eitem 8: Carys Fon Williams (Pennaeth Adran Tai ac Eiddo) a Lowri Roberts (Rheolwr Stadau)
Eitem 9: Bethan Griffith (Rheolwr Gwasanaethau Ategol Addysg) ac Owen Owens (Uwch Reolwr Ysgolion)
Eitem 10-12: Geraint Owen (Pennaeth Adran Cefnogaeth Gorfforaethol)
Eitem 11: Dewi Wyn Jones (Rheolwr Gwasanaeth Cefnogi Busnes y Cyngor)
Eitem 13: Sioned Williams (Pennaeth Adran Economi a Chymuned)

### 1. YMDDIHEURIADAU

Croesawyd Aelodau'r Cabinet a Swyddogion i'r cyfarfod.
Ni dderbyniwyd unrhyw ymddiheuriadau.

### 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Derbyniwyd ddatganiad o fuddiant personol ar gyfer Eitem 8: Prydlesu Canolfan Cefnfaes i Bartneriaeth Ogwen gan Cyng. Dafydd Meurig gan ei fod yn Gadeirydd Bartneriaeth Ogwen a Cyng. Catrin Wager gan ei bod yn cael ei chyflogi gan Bartneriaeth Ogwen, roedd y ddau fuddiant yn rhagfarnu a bu i'r ddau adael y cyfarfod ar gyfer y drafodaeth.

Derbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan y Cynghorwyr a Swyddogion canlynol ar gyfer Eitem 9: Dyfrig Siencyn, Craig ab Iago, Nia Jeffreys, Dilwyn Morgan, Gareth Thomas, Ioan Thomas, Catrin Wager, Cemlyn Williams a Dafydd Gibbard gan fod ganddynt blant neu wyrion / wyresau yn derbyn cinio ysgol o fewn y sir. Nid oedd yn fuddiant a oedd yn rhagfarnu a nid oedd angen iddynt adael ar gyfer y drafodaeth.

### 3. MATERION BRYS

Nid oedd unrhyw faterion brys.

## 4. MATERION YN CODI O DROSOLWG A CHRAFFU

Nid oedd unrhyw fater yn codi o drosolwg a chraffu.

## 5. COFNODION Y CYFARFOD GYNHALIWYD AR 18 IONAWR 2022

Bu i'r Cadeirydd dderbyn cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 18 Ionawr 2022 fel rhai cywir.

## 6. CYLLIDEB 2022-23

Cyflwynwyd yr eitem gan y Cyng. Ioan Thomas

**PENDERFYNWYD**

Argymell i'r Cyngor (yn ei gyfarfod ar 3 Mawrth 2022) y dylid:

1. Sefydlu cyllideb o £295,232,820 ar gyfer 2022/23 i'w ariannu drwy Grant Llywodraeth o £213,210,400 a £82,022,420 o incwm o'r Dreth Cyngor gyda chynnydd o 2.95%.
2. Sefydlu rhaglen gyfalaf o £59,074,980 yn 2022/23 i'w ariannu o'r ffynonellau a nodir yn Atodiad 4 i'r adroddiad.

**TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad a nodwyd y penderfyniad. Eglurwyd y bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi'r setliad grant terfynol ar gyfer awdurdodau lleol ar yr 2 Mawrth. Mynegwyd fod y Cyngor wedi derbyn cynnydd grant drafft ar gyfer 2022/23 sydd yn gynnydd i'r hyn sydd wedi ei dderbyn dros y blynyddoedd diwethaf. Nodwyd fod yn gynnydd o 8.8% sydd yn cyfateb i werth £18.1m.

Mynegwyd er y setliad rhesymol eleni fod nifer o ffactorau fydd yn creu pwysau gwariant ychwanegol ar wasanaethau yn 2022/23. Eglurwyd yn ogystal a chyfarch graddfa chwyddiant mae cyfle i ymdrin a phwysau gwario ehangach gan gynnwys mynd i'r afael a chostau parhaus sy'n deillio o Covid-19 a dileu neu ohirio cynllunio arbedion nad yw'n ymarferol i'w gwireddu yn 2022/23. Mynegwyd fod gofynion gwario ychwanegol sydd wedi eu ystyried yn gyfanswm o £20.2m a tynnwyd sylw at bedwar pennawd o gynnydd arbennig.

Y cyntaf oedd chwyddiant cyflogau o £8.5m, a nodwyd fod y gyllideb yn neilltuo amcan cynnydd yng nghytundeb tal o 4% ar gyfer yr holl weithlu ac amlygwyd y bydd cynnydd o 1.25% mewn cyfraniadau Yswiriant Gwladol yn dod yn weithredol yn Ebrill 2022. Yr ail oedd Chwyddiant Arall, ac eglurwyd fod y swm yn cynnwys effaith y 'cyflog byw' ar gostau a ffioedd sy'n daladwy i gyflenwyr preifat ynghyd a chynnydd chwyddiant ar gyllidebau tanwydd a prisiau yn dilyn ail-dendro.

Pwysau ar Wasanaethau oedd yn drydydd ac argymhellwyd cymeradwyo bidiau gwerth £6.7m am adnoddau parhaol ychwanegol sydd wedi eu cyflwyno gan adrannau'r Cyngor i gwrdd a phwysau anorfod ar wasanaethau. Yn ychwanegol ar y bidiau parhaol, argymhellwyd cymeradwyo bidiau 'un-tro' gwerth £6.2m i'w ariannu o'r Gronfa Trawsffurfiol. Y pedwerydd oedd pwysau Covid-19 o £1.4m. Mynegwyd ers Ebrill 2020 fod y Llywodraeth wedi digolledu awdurdodau lleol am gostau ychwanegol y pandemig o'r Gronfa Caledi. Fodd bynnag, nodwyd fod y Llywodraeth wedi datgan y bydd y cymorth hwn yn dod i ben ddiwedd Mawrth 2022 a bydd disgwyl i'r awdurdodau ariannu unrhyw gostau ychwanegol neu golled incwm o ganlyniad i'r pandemig yn dilyn hyn. Rhagwelir na fydd £1.4m yn ddigonol ac eglurwyd fod cronfeydd eraill o fewn y Cyngor ar gael i gynorthwyo megis y Gronfa adfer Cofid a sefydlwyd wrth gau cyfrifol yn 2020/23.

Nodwyd o ran cynlluniau arbedion fod y Cyngor wedi gwireddu dros £32.8m o gynlluniau arbedion ers 2015/16. O ganlyniad i'r hyblygrwydd mae'r setliad eleni yn ei gynnig ni fydd arbedion gwerth 1.8m a gynlluniwyd yn wreiddiol i'w gwireddu yn 2022/23 bellach ddim yn cyfrannu ar gau bwlch cyllidebol. Nodwyd mai £595,000 yw gwrth yr arbedion sy'n weddill yn y rhaglen i'w dynnu allan o gyllideb 2022/23 yn hytrach 'na £2.4m.

Amlygwyd fod anghenion gwario'r Cyngor cyn tynnu arbedion ar gyfer 2022/23 yn £295.8m a nodwyd fod grant oddi wrth y Llywodraeth am fod yn £213.2m. Mynegwyd ar ôl ystyried arbedion o £0.6m, fod bwlch gweddillio o £82m ac argymhellwyd cyfarch y bwlch hwn drwy'r Dreth Cyngor a olygai cynnydd o 2.95%.

Wrth edrych i'r dyfodol amlygwyd fod Llywodraeth Cymru wrth gyhoeddi'r setliad drafft wedi cadarnhau bydd Awdurdodau Lleol yn derbyn +3.5% yn 2023/24 ac yna +2.4% yn 2024/25. Nodwyd y bydd y cynnydd yn sylweddol is 'na'r hyn fydd yn cael ei dderbyn yn 2022/23. Mynegwyd wyth ystyried cyfraddau chwyddiant, bydd angen ail ymweled a chynlluniau arbedion pan yn cynllunio ar gyfer y blynyddoedd hyn.

Ychwanegodd y Pennaeth Cyllid fod y setliad yn un da ond fod angen cadw golwg ar y setliad ar gyfer y ddwy flynedd nesaf er mwyn gallu delio a y pwysau ychwanegol ar wasanaethau.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth

- Cefnogwyd y gyllideb a nodwyd balchder mwyn gallu ymrwymo arian dwy bidiau i'r mas gofal ynghyd a newid hinsawdd o £3m. Tynnwyd sylw at wariant o £330 ar drwydded cyfrifiadurol a nodwyd fod ffigwr yn uchel ar gyfer meddalwedd. Eglurwyd fod tîm yn y cefndir yn edrych ar feddalwedd technoleg gwybodaeth ar draws y Cyngor ond y bydd costau yn parhau ar hyn o bryd is sicrhau parhad gwasanaethau.
- Mynegwyd cefnogaeth i dynnu costau tocyn teithio Ôl-16 fydd yn cynnig mwy o gyfleodd i bobl ifanc ac yn gynllun sydd wir am wneud gwahaniaeth.
- Nodwyd fod y sefyllfa yn dda o'i gymharu a rhai blynyddoedd yn ôl ble roedd trafodaeth gyson am doriadau. Tynnwyd sylw at biliwn sydd bellach wedi ei golli o arian Ewropeaidd ar draws Cymru a nodwyd nad oes dim sôn o arian ychwanegol yn dod o Lywodraeth San Steffan.

- Pwysleisiwyd y buasai wedi bod yn hawdd i beidio codi y Dreth Cyngor yn enwedig mewn blwyddyn etholiad ond eglurwyd mai dyma'r penderfyniad cyfrifol i'w wneud.

## 7. ADRODDIAD DRAFFT ASESIAD O ANGHENION POBLOGAETH GOGLEDD CYMRU 2022

Cyflwynwyd yr eitem gan y Cyng. Dafydd Meurig

**PENDERFYNWYD**

Argymell i'r Cyngor Llawn i gymeradwyo Asesiad o Anghenion Poblogaeth Gogledd Cymru 2022.

**TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi fod yr adroddiad yn rhoi trosolwg o'r asesiad am eleni. Eglurwyd fod yr adroddiad wedi ei drafod yn y Pwyllgor Craffu gan ychwanegu y bydd yn mynd i'r Cyngor Llawn ym mis Mawrth. Nodwyd fod yr adroddiad wedi ei lunio mewn ymateb i ofynion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol (Cymru 2014). Mynegwyd gan ei fod yn ofyniad statudol fod yr amserlen yn hynod dynn a diolchwyd i'r staff am eu gwaith yn sicrhau fod y gwaith yn cael ei gwblhau. Eglurwyd fod yr asesiad yn cael ei greu yn rhanbarthol gyda'r 6 Awdurdod Lleol a'r Bwrdd Iechyd ynghlwm gyda'r broses.

Nodwyd o ran strwythur yr adroddiad ei fod yn gyffredinol gan ei fod yn rhanbarthol. Er hyn, mynegwyd fod rhai elfennau penodol yn allweddol i Wynedd. Mynegwyd yn dilyn paratoi'r adroddiad bydd llawer o waith yn deillio ohono, eglurwyd y bydd gwaith yn cael ei wneud ar lefel leol er mwyn creu asesiad benodol i Wynedd fydd yn cael ei gyflwyno gobeithio ym mis Rhagfyr 2022.

Ychwanegodd y Rheolwr Tîm Prosiect fod yr adroddiad yn gyffredinol ac y bydd y tîm yn gwneud gwaith mwy manwl ar anghenion Gwynedd er mwyn cael gwir ddealltwriaeth o anghenion bobl yn eu cymunedau. Nodwyd y bydd gwaith pellach o edrych ar y farchnad yn deillio o'r gwaith hwn er mwyn gweld os yw'r farchnad ar gallu i gwrdd a anghenion sydd i'w gweld yn yr adroddiad.

Mynegodd Pennaeth Cynorthwyol yr Adran Oedolion fod y darn hwn o gwaith am fod yn un parhaus a bydd angen cadw'r wybodaeth yn gyfredol er mwyn cael dealltwriaeth o ble mae bylchau. Nodwyd fod yr amserlen wedi bod yn hynod heriol yn ystod y pandemig.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth
- Diolchwyd am yr adroddiad a tynnwyd sylw at y gydnabyddiaeth yn yr adroddiad ar nifer uchel o blant gyda salwch hir dymor gan bwysleisio fod gordewdra yn broblem fawr.
- Holwyd gyda Llesiant Meddwl Gwynedd yr uchaf ar draws y gogledd holwyd os oedd hyn yn beth da yntau drwg. Nodwyd ei fod yn newyddion positif ond fod hyn yn amlygu'r angen i'w eirio yn fwy clir.

- Diolchwyd i'r staff a wneud y gwaith mewn cyfnod mor heriol gan gynnwys staff rhanbarthol sydd wedi dod a'r holl wybodaeth at ei gilydd. Eglurwyd y bydd yr adroddiad yn cael ei ddefnyddio i weithio ar feysydd ble nad oes modd ei datrys yn lleol.

## 8. PRYDLESU CANOLFAN CEFNFAES I BARTNERIAETH OGWEN

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cyng. Craig ab Iago

**PENDERFYNWYD**

Cytunwyd i ddefnyddio pwerau Caniatâd Gwaredu Cyffredinol (Cymru) 2003 i brydlesu safle Canolfan Cefnfaes yn uniongyrchol i Bartneriaeth Ogwen am lai na rhent y farchnad, er mwyn sicrhau buddiannau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol.

**TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi fod yr adroddiad yn gofyn i'r Cabinet i brydlesu Canolfan Cefnfaes i Bartneriaeth Ogwen. Nodwyd fod y Bartneriaeth yn gwneud gwaith arloesol a gyda cynlluniau pendant ar gyfer defnydd i'r adeilad. Eglurwyd fod y Bartneriaeth wedi cael grant ar gyfer ail wneud yr adeilad ac angen cymorth ar gyfer 10 mlynedd cyntaf.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth

- Nodwyd cefnogaeth i'r cynllun gan nodi pwysigrwydd ei gefnogi. Eglurwyd fod grant o £200,000 ar gyfer y ganolfan wedi ei dderbyn a nodwyd eu bod yn edrych ymlaen i weld y datblygiadau ac i weld yr adeilad ar ei newydd wedd.

## 9. PRIS CINIO YSGOLION CYNRADD, ARBENNIG A DILYNOL MEDI 2022

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Cemlyn Williams

**PENDERFYNIAD**

Cytunwyd i beidio â chynyddu pris cinio ysgolion cynradd, arbennig a dilynol ym mis Medi 2022.

**TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi fod te eitem hon yn un syml. Eglurwyd ei bod yn ofynnol i'r Cabinet ystyried codi pris cinio ysgol yn flynyddol yn unol â chwyddiant. Nodwyd fod Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau y bydd cinio am ddim i bob disgybl yn Cyfnod Sylfaen fel rhan o gynllun cinio am ddim i bob disgybl ac fod angen ystyried hyn pan yn gwneud y penderfyniad. Nodwyd awydd i beidio codi pris cinio ysgol gan bwysleisio y bydd hyn ar gyfer Cyfnod Allweddol

2 yn unig.

Eglurwyd fod angen edrych ar ginio ysgol yn gyffredinol ac nodwyd awydd yr adran i edrych yn benodol ar ansawdd o fewn ysgolion uwchradd. Nodwyd y yr angen i greu gweithgor yn cynnwys Llywodraethwyr, rhieni a disgyblion i edrych yn benodol ar y mater.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth

- Croesawyd y penderfyniad i beidio codi pris cinio ysgol gan nodi fod nifer o deuluoedd o dan bwysau ac fod gan y Cyngor rôl allweddol i gefnogi teuluoedd.
- Mynegwyd i rai disgyblion mai cinio ysgol yw'r unig bryd poeth maent yn ei gael rhai dyddiau ac felly mae'r cam hwn yn un cyfrifol i'r Cyngor ei wneud.
- Diolchwyd i'r adran am y gwaith ac y awydd i ddatblygu gweithgor. Mynegwyd yr angen i sicrhau fod teuluoedd sy'n gymwys am ginio am ddim eu bod yn ei derbyn a hynny heb gywilydd yn benodol mewn ysgolion uwchradd. Nodwyd fod Swyddog Hybu Cinio Am Ddim am gael ei benodi fydd yn ei gwneud yn haws i deuluoedd wneud ceisiadau

## 10. GWELEDIGAETH Y CYNGOR AR GYFER GWEITHIO I'R DYFODOL

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Nia Jeffreys

**PENDERFYNIAD**

Mabwysiadwyd y weledigaeth ar gyfer Gweithio i'r Dyfodol, a pheidio dychwelyd i'r ffordd o weithio cyn y pandemig.

**TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi fod cryn dipyn o sylw yn genedlaethol ar fyd gwaith i'r dyfodol. Nodwyd fod Llywodraeth Cymru wedi nodi nod o 30% o weithlu Cymru yn gweithio o adref. Eglurwyd fod y Cyngor wedi bod yn cynllunio ar gyfer trefniadau gweithio i'r dyfodol gyda Grŵp Swyddfeydd wedi bod yn cyfarfod. Eglurwyd fod y weledigaeth yn rhan o ffrwyth gwaith y grŵp hwn ac yn seiliedig ar drafodaethau gyda grwpiau o staff a cynrychiolwyr yr Undebau yn lleol.

Nodwyd y weledigaeth o weithlu yn gallu gweithio'n hyblyg a rhoi eu gorau i gyflawni a darparu gwasanaethau o safon ar gyfer pobl Gwynedd. Yn ogystal a fod y Cyngor yn le da i weithio sydd yn hybu cydbwysedd bywyd a gwaith er lles staff ac er mwyn cadw a denu staff o safon. Eglurwyd y bydd yn adeiladu ar brofiadau o ddarparu gwasanaethau yn ystod y pandemig. Mynegwyd fod datganiadau Llywodraeth Cymru yn amlygu tebygolrwydd o lacio pellach ac y bydd amser yn do di weithredu ar y weledigaeth. Ychwanegwyd fod y Prif Weithredwr wedi rhannu amlinelliad y cynllun gweithredu gyda'r staff ac fod trafodaeth wedi ei gynnal a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio wythnos diwethaf.

Ychwanegodd Pennaeth Adran Cefnogaeth Gorfforaethol mai gwirfoddol yr gweithio o adref i staff i'r dyfodol a na fydd gorfodaeth i wneud hyn. Eglurodd fod nad yw pob swydd yn cael ei chyflawni o adref ac y bydd angen gwneud asesiad gweithfan ar leoliadau cartref unigolion cyn gwneud trefniadau hir dymor. Tynnwyd sylw at ffigwr anghywir yn yr adroddiad ac mai £997,499 oedd arbedion costau teithio staff ar gyfer 2021/23.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth

- Tynnwyd sylw at ffigwr o 25% eisiau gweithio adref yn y tymor hir, a nodwyd fod hyn oherwydd fod unigolion yn fwy cyfforddus i fod adref.
- Nodwyd fod gweithio o adref yn tynnu'r cyfle i staff fod yn rhwydweithio ac yn colli'r elfen o ddysgu oddi wrth ei gilydd. Mynegwyd fod angen amlygu fod 59% wedi nodi'r awydd i weithio'n hybrid gyda 15% eisiau bod yn y swyddfa llawn amser. Pwysleisiwyd fod y cyfnod hwn yn gyfnod prawf ac y bydd modd i staff newid eu meddyliau cyn gnwued unrhyw benderfyniad hir dymor.
- Pwysleisiwyd fod angen meddwl am sut y bydd Cynghorwyr yn cael eu anwytho ac yn cael cyfleoedd teg yn dilyn yr etholiad ym Mis Mai. Eglurwyd nad yw'r adroddiad yn trafod Cynghorwyr ond fod gwaith yn cael ei wneud yn y cefndir i wneud trefniadau ar gyfer Cynghorwyr.
- Eglurwyd fod y sgwrs gyda staff o ran lleoliadau gwaith yn un parhaus a bydd modd newid wrth i staff efallai fagu hyder, ond pwysleisiwyd yr angen i gael balans teg ac i feddwl barhau i flaenoriaethu lles meddyliol staff.

## 11. CYNLLUN Y CYNGOR 2018-23 - ADOLYGIAD 2022/23

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Dyfrig Siencyn

**PENDERFYNIAD**

Cymeradwywyd Cynllun Cyngor Gwynedd 2018-23 – Adolygiad 2022/23 i'w gyflwyno i'r Cyngor ar y 3ydd Mawrth 2022.

**TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi mai dyma'r adolygiad olaf ar gyfer Cynllun y Cyngor 2018-23. Nodwyd y bydd Cynllun newydd yn cael ei ddatblygu gan y Cyngor newydd. Mynegwyd ei nad oedd newidiadau sylweddol i'r Cynllun am eleni ond ei fod yn rhoi darlun clir o gyfrifoldebau'r Cyngor ynghyd a maint cyfrifoldeb Cynghorwyr Gwynedd ar gyfer cefnogi bywydau trigolion y sir.

Ychwanegodd Rheolwr Gwasanaeth Cefnogi Busnes y Cyngor fod yr adolygiad yn datgan beth yw blaenoriaethau'r cyngor am y flwyddyn nesaf. Amlygwyd fod angen ychwanegu rhagair yr Arweinydd cyn ei ychwanegu at raglen y Cyngor Llawn ar gyfer mis Mawrth.

## 12. ADRODDIAD PERFFORMIAD YR AELOD CABIENT DROS YR ADRAN CEFNOGAETH GORFFORAETHOL A'R ADRAN GYFREITHIOL

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Nia Jeffreys

**PENDERFYNIAD**

Derbyniwyd a nodwyd y wybodaeth yn yr adroddiad.

**TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi fod y Gwasanaeth Cyfreithiol wedi profi cyfnod heriol gyda nifer o swyddi gwag ond fod y gwasanaeth wedi parhau. Eglurwyd fod yr adran wedi bod yn edrych ar ffyrdd i benodi staff a bellach fod y broses recriwtio ar waith.

Nodwyd fod yr Adran Cefnogaeth Gorfforaethol yn arwain ar 9 project blaenoriaeth o fewn Cynllun Cyngor Gwynedd. Mynegwyd o ran prosiect Cadw'r Budd yn Lleol fod y gwasanaeth yn agosáu at ddiwedd y cynllun peilot ac fod cefnogaeth wedi bod i'r gwaith gan y Grŵp Trydydd Sector. Eglurwyd fod cynllun Enwau Lleoedd wedi bod ar waith ers 6 mis ac fod llawer o waith ymchwil wedi ei wneud. Nodwyd y bydd adroddiad pellach yn cael ei gyflwyno yn fuan. Eglurwyd fod y deg maes yn perfformio yn gyson dda ac fod awydd parhaus i wella'r ddarpariaeth.

Diolchwyd i'r Tîm Iechyd, Diogelwch a Llesiant am y gefnogaeth maent wedi ei roi i gefnogi gwasanaethau rheng flaen dros y ddwy flynedd diwethaf. Mynegwyd fod y Gwasanaeth Cyswllt Cwsmer a Chofrestru wedi bod dan bwysau oherwydd swyddi gwag ynghyd a absenoldebau ond fod camau wedi eu cymryd i gynnal y gwasanaeth. Eglurwyd fod angen parhau i gadw golwg ar yr amser cyfartalog i ateb ffon ac amlygwyd fod hyn yn broblem sydd i'w weld ar draws y Cyngor.

Tynnwyd sylw at Wasanaeth Ymchwil a Gwybodaeth sydd wedi bod yn allweddol ar gyfer casglu a dadansoddi gwybodaeth yn ystod y pandemig ac wedi rhoi sail gadarn i benderfyniadau'r Cyngor. Nodwyd yn dilyn penderfyniad y Cabinet i benodi Pen Swyddog Iaith fod y gwasanaeth yn gobeithio penodi ddechrau Mawrth er mwyn dechrau ar y gwaith sefydlu Hunaniaith fel endid annibynnol.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth

- Pwysleisiwyd fod gweithio i'r Cyngor yn swydd dda ac anrhydeddus gyda nifer o gyfleoedd i ddatblygu ymhellach.
- Mynegwyd gwerthfawrogiad i'r adrannau gan eu bod yn ganolog i waith yr adrannau eraill.
- Tynnwyd sylw at gynllun cofrestru pobl ifanc 16+ i bleidleisio gan holi os oes modd symud y gwaith hwn yn ei blaen. Eglurwyd fod unigolyn wedi ei phenodi i'r swydd ac fod y cynlluniau gwreiddiol wedi cael ei taro gan y pandemig ond fod y cynllun yn symud ymlaen.

## 13. ADRODDIAD PERFFORMIAD YR AELOD CABINET DROS YR ADRAN ECONOMI A CHYMUNED

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Gareth Thomas

**PENDERFYNIAD**

Derbyniwyd a nodwyd y wybodaeth yn yr adroddiad.

**TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi y bydd yn amlygu cynlluniau yr adran sydd i'w gweld yng Nghynllun Cyngor Gwynedd. Mynegwyd o ran y Cynllun Gweledigaeth Twf Gogledd Cymru fod cynnydd sylweddol wedi ei wneud gyda'r cynlluniau Canolfan Economi Wledig yng Glynllifon a Canolfan Prosesu Signal Digidol ym Mhrifysgol Bangor. Nodwyd o ran cynllun Swyddi Gwerth Uchel nodwyd fod cefnogaeth wedi ei ymestyn ar gyfer cynllun STEM hyd ganol 2023 ac fod gwaith wedi ei gomisiynu er mwyn creu ymchwil ar y cyd gyda'r adran Addysg i gynorthwyo ysgolion ddeall anghenion sgiliau busnesau lleol. Nodwyd fod swyddogion yn ogystal wedi ei recriwtio i gwmni Egino sydd wedi ei sefydlu i hwyluso denu buddsoddiad pellach i safle Atomfa Trawsfynydd.

Pwysleisiwyd y siom oedd i benderfyniad Llywodraeth Cymru i rwystro datblygiad ffordd mynediad newydd i safle Maes Awyr Llanbedr. Nodwyd fod y penderfyniad eisoes wedi arwain at golli £7.5m o arian Ewrop ynghyd a buddsoddiad preifat sylweddol. Mynegwyd balchder o ran rhaglen Arloesi Gwynedd Wledig fod Llywodraeth wedi dynodi £4m ar gyfer ARFOR yn y gyllideb ddrafft yn dilyn llwyddiant y cynllun.

Mynegwyd fod perfformiad yr adran ar y cyfan yn dda a nodwyd balchder bod Llyfrgell Neuadd Dwyfor bellach wedi ail agor. Mynegwyd fod gwaith pellach i'w wneud yn y theatr.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth

- Diolchwyd i'r adran am eu gwaith yn arwain ar gynllun arloesol sydd yn gnwued gwahaniaeth i drigolion Gwynedd. Yn ogystal diolchwyd i'r staff am eu gwaith yn cefnogi busnesau Gwynedd yn benodol dros cyfnod y pandemig.

Dechreuodd y cyfarfod am 1pm a daeth i ben am 3pm

**CADEIRYDD**

## Adroddiad i gyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y cyfarfod** : | **8 Mawrth 2022** |
| **Aelod Cabinet :** | **Y Cyng. Dyfrig Siencyn** |
| **Swyddog Cyswllt** : | **Dafydd W Williams, Pennaeth Adran Amgylchedd.**<br>**Bethan Richardson, Rheolwr Rhaglen Newid Hinsawdd** |
| **Teitl yr Eitem** | **Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur 2022/23-2029/2030.** |

### 1. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

1.1. Cymeradwyaeth y Cabinet i fabwysiadu a gweithredu'r Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur 2022-2030.

### 2. Y RHESWM DROS YR ANGEN AM BENDERFYNIAD

2.1. Yng nghyfarfod y Cyngor ar 7 Mawrth 2019 fe gyflwynwyd Rhybudd o Gynnig gan y Cynghorydd Catrin Wager yn amlinellu'r peryglon sy'n deillio o effeithiau newid hinsawdd. I ddyfynu o'r Rhybudd – 'Mae dyletswydd ar bob llywodraeth (lleol, rhanbarthol a chenedlaethol) i gyfyngu ar effeithiau negyddol Newid Hinsawdd...Mae goblygiadau ar y Cyngor, dan 'Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol' i ystyried effaith unrhyw benderfyniad a wna ar y cenedlaethau sydd i ddod.'

2.2. Fe ymatebodd y Cyngor i'r Rhybudd gyda'r penderfyniad canlynol:

Penderfyna'r Cyngor i:

- Wneud popeth yn ein gallu i sicrhau bod y sir yn parhau i fod yn gartref bywiog, hyfyw a chynaliadwy i'n plant ac i blant ein plant am genedlaethau i ddod. Byddwn yn gwneud hyn drwy:
  - Ddatgan Argyfwng Hinsawdd.
  - Ymrwymo i gymryd camau pendant i leihau allyriadau carbon ac ymdrechu am ddyfodol di-garbon.
  - Chwilio am ffyrdd arloesol o gyflawni targedau di-garbon.
  - Adrodd yn ôl ymhen 6 mis ar y camau cadarnhaol y mae'r Cyngor wedi'u cymryd i leihau allyriadau carbon.
  - Galw ar Lywodraeth Cymru a San Steffan i ddarparu'r pwerau a'r adnoddau angenrheidiol i gyflawni'r targed o Wynedd ddi-garbon erbyn 2030.

**Cyswllt**:
01286 679868
01286 679490
cabinet@gwynedd.llyw.cymru





CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

2.3 Yng nghyfarfod y Cyngor ar 19 Rhagfyr 2019 fe benderfynwyd i dderbyn adroddiad cynnydd ar y gwaith oedd yn nodi bod tasglu wedi ei sefydlu gan y Cabinet – Bwrdd Newid Hinsawdd – ac y byddai'n llunio 'Cynllun Gweithredu Newid Hinsawdd'.

2.4 Er mai datgan argyfwng newid hinsawdd a wnaeth y Cyngor ym mis Mawrth 2019, mae'r Bwrdd Newid Hinsawdd bellach o'r farn y dylid hefyd ddatgan bod argyfwng ar fyd natur yn ogystal. Mae'r ddau mor gyd-ddibynnol fel ei bod bron yn amhosibl eu gwahanu. Dyma'r rheswm dros ychwanegu camau gweithredu ar gyfer meysydd ecoleg a bioamrywiaeth i'r cynllun.

2.5 Er mwyn gwireddu'r penderfyniad uchod mae'r Bwrdd Newid Hinsawdd wedi llunio'r Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur fydd yn amlinellu'r camau gweithredu y byddwn fel Cyngor yn eu cymryd er mwyn cyrraedd y nod o fod yn Gyngor carbon sero-net erbyn 2030. Mae'r cynllun i'w weld yn **Atodiad 1**.

## 1. CYFLWYNIAD

1.1. Mae'n ffaith sydd wedi ei chydnabod bod rhyddhau allyriadau carbon (nwyon tŷ gwydr) yn bennaf o weithgarwch dynol yn arwain at gynhesu byd eang. Mae'r Panel Rhynglywodraethol ar y Newid yn yr Hinsawdd (IPCC) yn nodi bod cynnydd mewn tymheredd o gyn lleied ag 1.5°C yn gallu arwain at ganlyniad trychinebus i bobl a byd natur, gyda chynnydd mewn lefel y môr fyddai'n arwain at lifogydd gan effeithio ar 6 miliwn o bobl ar draws y byd. Cafodd y targed o gyfyngu cynhesu byd eang i "ymhell islaw 2°C" o'i gymharu â lefelau cyn-ddiwydiannol ei osod fel rhan o Gytundeb Paris 2015 y Cenhedloedd Unedig, a'i atgyfnerthu ymhellach yng nghynhadledd COP26 fis Tachwedd 2021.

1.2. Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi gosod targed i'r sector cyhoeddus yng Nghymru i gyrraedd statws carbon sero-net erbyn 2030. Ystyr 'carbon sero-net' yw bod cyfanswm yr holl garbon (nwyon tŷ gwydr) sy'n cael ei ryddhau i'r atmosffer yn gyfwerth â'r carbon sy'n cael ei amsugno yn ôl i'r ddaear a'i storio'n ddiogel. Gelwir hefyd yn 'carbon niwtral'.

1.3. Mae'r Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur yn esbonio'r rhesymau pam fod angen i'r Cyngor weithredu, pa gamau y bydd yn ei gymryd, ac yn cynnig amserlen a chostau amlinellol ar gyfer y gwaith. Uchelgais y cynllun yw "Bydd Cyngor Gwynedd yn garbon sero-net ac yn ecolegol gadarnhaol erbyn 2030."

1.4. Mae'r Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur yn adeiladu ar y gwaith y mae'r Cyngor eisoes wedi ei gyflawni er mwyn gostwng ein allyriadau carbon gan ddilyn y ddau Gynllun Rheoli Carbon a gyhoeddwyd gennym yn 2010 ac 2015.

1.5. Cynllun ar gyfer y Cyngor ei hun yw hwn, ac nid yw'n honni bod yn gynllun er mwyn lleihau allyriadau carbon Gwynedd gyfan fel sir, er wrth gwrs y bydd yn

cyfrannu'n sylweddol at wneud hynny. Mae'r Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur ar ei ffurf bresennol yn egluro pa newidiadau mae'r Cyngor am ei wneud i'w drefniadau ei hun a'i ffordd o ddarparu gwasanaethau. Nid yw, er enghraifft, yn cynnwys cynlluniau manwl ar hyn o bryd ar gyfer lleihau allyriadau carbon gan drigolion Gwynedd yn ehangach.

1.6. Mae yna rai cynlluniau ar gyfer ymateb i'r peryglon o lifogydd yn y Cynllun, ond gan y byddwn yn dilyn amserlen Llywodraeth Cymru ac yn datblygu Strategaeth Llifogydd Lleol yn ystod 2022/23, bydd mwy o fanylder am ein cynlluniau yn y maes yma yn ymddangos erbyn i ni gyhoeddi fersiwn ddiwygiedig o'r Cynllun yn 2023/24.

1.7. Oherwydd y rhesymau a nodir yn 1.5 a 1.6 uchod, rydym yn ystyried mai 'Cam 1' yw cyhoeddi'r fersiwn hwn o'r Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur. Bydd 'Cam 2' y Cynllun i ddilyn erbyn 2023/24 ar ôl i ni gynnal ymgynghoriadau, a bydd yn cynnwys rhagor o wybodaeth am sut y gallwn gefnogi gweithgareddau yn y gymuned ac sut i ymateb i'r perygl o lifogydd.

## 2. YSTYRIAETHAU PERTHNASOL

2.1. Nodir isod y materion sydd angen i aelodau'r Cabinet eu hystyried cyn cymeradwyo'r Cynllun:

2.2. Mae'r Cynllun wedi gosod amserlen ar gyfer cyflawni prosiectau erbyn 2030 gan mai dyma'r targed amser er mwyn cyrraedd carbon sero net sydd wedi ei osod gan Lywodraeth Cymru. Mae hi bron yn anorfod y bydd angen parhau i weithredu er mwyn lleihau allyriadau carbon a chynyddu capasiti i amsugno carbon ymhell y tu hwnt i'r dyddiad hwnnw.

2.3. Mae'r Cynllun yn nodi nad oes gennym fel Cyngor yr atebion ar sut orau i ymateb i'r holl broblemau newid hinsawdd sy'n ein wynebu ar hyn o bryd. Nid yw Cyngor Gwynedd yn wahanol i unrhyw sefydliad arall yn hyn o beth. Mae gwaith ymchwil a thechnoleg newydd yn cael ei ddatblygu'n barhaus, a gall canlyniadau'r rhain newid y ffordd y mae angen i ni weithredu. Mae'r Cynllun yn nodi'n glir felly bod angen i ni fod yn hyblyg ac i addasu ein dulliau o weithredu, a'n blaenoriaethau hyd yn oed, os y cyfyd tystiolaeth sy'n profi'r angen i wneud hynny.

2.4. Er ei fod yn Gynllun ar gyfer newid y ffordd mae'r Cyngor yn gweithredu, ni fedrwn gyflawni'r Cynllun hwn heb gydweithio ag eraill. Byddwn yn ymgynghori â'n partneriaid a chyda cymunedau Gwynedd yn ystod 2022/23 er mwyn gweld sut orau y gallwn gefnogi cynlluniau cymunedol, a gall hynny lywio ein adolygiad o'r Cynllun hwn.

2.5. Mae yna gyllidebau amlinellol wedi eu cynnwys yn y Cynllun. Tra fod gennym gostau cadarn ar gyfer rhai prosiectau, mae yna brosiectau eraill (yn enwedig tymor canolig/hir) y mae angen i ni wneud gwaith pellach arnynt cyn y gallwn

fod yn sicr o'u cost ariannol. Mae rhai prosiectau yr ydym yn cyfrannu tuag atynt yn cael eu cyd-ariannu gyda phartneriaid, ac mae yna rai eraill sy'n ddibynnol ar grantiau neu y mae angen i ni gael cyllid ychwanegol er mwyn gallu eu cyflawni. Bydd angen i'r Cyngor bwyso ar lywodraethau er mwyn denu'r cyllid angenrheidiol hwnnw.

## 3. Deddf Cydraddoldeb 2010

3.1 Mae gofyn statudol i baratoi ac ystyried canfyddiadau asesiad o effaith o safbwynt cydraddoldeb wrth baratoi'r cynllun yn unol â gofynion Deddf Cydraddoldeb 2010 fel y gweithredir yng Nghymru. Atodir yr asesiad yn **Atodiad 2.**

3.2 Nid yw'r asesiad ar y Cynllun yn ei gyfanrwydd yn canfod unrhyw effaith fyddai'n cyfiawnhau gwyro oddi wrth yr argymhelliad a rhagwelir elfennau fyddai ag effaith positif. Bydd cyfrifoldeb ar Arweinyddion Prosiect i gynnal Asesiad Effaith Cydraddoldeb llawn ar brosiectau unigol.

## 4. DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL (CYMRU) 2015

4.1 Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ynglŷn a gwella llesiant cymdeithasol, economaidd , amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'r Ddeddf yn gosod dyletswydd llesiant ar gyrff cyhoeddus sydd wedi ei anelu at gyflawni 7 o nodau lleisant sef Cymru sydd yn llewyrchus, gydnerth, iachach, mwy cyfartal gyda chymunedau cydlynus a diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu a sy'n gyfrifol ar lefel byd eang. Mae'r Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur wedi ei baratoi gan gyfarch amcanion a gofynnion y Ddeddf.

## 5. CAMAU NESAF AC AMSERLEN

5.1. Ar ôl i'r Cabinet fabwysiadu'r Cynllun bydd yn cael ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor ac yn dod yn weithredol.

5.2. Mae angen gwneud gwaith pellach er mwyn mesur cost ariannol rhai o'r prosiectau unigol, ac i gadarnhau cyfanswm y gronfa ariannol fydd ar gael ar gyfer cyllido'r cynllun hwn. Bydd y gwaith hwnnw'n cael ei wneud yn y dyfodol agos a byddwn yn cyflwyno adroddiad ariannol pellach at sylw'r Cabinet maes o law er mwyn penderfynu ar flaenoriaeth y prosiectau i'w gweithredu.

5.3. Yn ystod blwyddyn 2022/23 byddwn yn ymgynghori ar gynnwys y Cynllun ac yn trafod anghenion a dulliau newydd o weithredu er mwyn lleihau effeithiau newid hinsawdd gyda phartneriaid a chymunedau Gwynedd.

5.4. Yn dilyn yr ymgynghoriadau yma, ac yn dilyn adolygu'r Cynllun er mwyn cynnwys camau gweithredu i atal neu ymateb i lifogydd, byddwn yn paratoi fersiwn ddiwygiedig o'r Cynllun erbyn 2023/24.

## 6. UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

**Barn y Swyddogion Statudol:**

**i. Y Pennaeth Cyllid**

Mae'r Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur yn ddogfen hollbwysig fydd yn llywio gweithgareddau'r Cyngor am flynyddoedd sydd i ddod. Mae naratif y cynllun yn gwbl agored wrth ddatgan nad yw cyfanswm yr arian fydd ei angen er mwyn gwireddu'r holl brosiectau yn y cynllun hwn wedi cael ei adnabod yn llawn; mae'n annhebygol y bydd yr arian fydd ei angen i wireddu pob un o'r cynlluniau unigol ar gael, felly ymddengys bydd mabwysiadu trefn flaenoriaethu yn anorfod. Wrth gwrs, tra bod costau ariannol arwyddocaol yn wynebu'r Cyngor er mwyn mynd i'r afael â'r her sylweddol sydd o'n blaenau, byddai costau amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd dybryd o beidio gweithredu'n bendant.

Yn ogystal â chynlluniau perthnasol sydd eisoes yn ein rhaglen gyfalaf, a grantiau pwrpasol pellach fydd ar gael i ni ar gyfer datgarboneiddio, mae cyllid pellach eisoes wedi ei drosglwyddo o'r Gronfa Trawsffurfio er mwyn creu Cronfa Cynllun Hinsawdd. Byddwn yn parhau i adolygu'r sefyllfa ariannol er mwyn adnabod cyllid priodol.

Nodaf bydd adroddiad yn cael ei gyflwyno i gyfarfod pellach o'r Cabinet maes o law fydd yn adnabod yr agweddau ariannol mewn mwy o fanylder.

**ii. Y Swyddog Monitro:**

Mae'r Cynllun yma yn darparu ymateb gweithredol i benderfyniad y Cyngor i ddatgan argyfwng hinsawdd. Rwy'n cefnogi yr argymhelliad ac nid oes gennyf unrhyw sylwadau i'w hychwanegu o safbwynt priodoldeb.

## 7. Barn yr Aelod Lleol

Ddim yn fater lleol.

## 8. Canlyniad Unrhyw Ymgynghoriad

Dim i'w nodi.

**Atodiadau**

Atodiad 1 – Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur
Atodiad 2 – Asesiad Effaith Cydraddoldeb



# Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur

## 2022/23 – 2029/30

## Cyngor Gwynedd



CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

Mawrth 2022

# Cynnwys


1. Cyflwyniad 2
2. Rhagair yr Arweinydd 3
3. Cyngor Gwynedd yn 2030 4
4. Beth yw Carbon Sero Net a Pham ei Fod yn Bwysig? 6
5. Ymateb i Effeithiau Newid Hinsawdd 8
6. Y Cynllun Hwn 9
   - Partneriaid 9
   - Sut fyddwn ni'n mesur llwyddiant? 10
   - Mesur ein allyriadau carbon 11
   - Cynllunio i gyrraedd carbon sero net 13
   - Cyllido 14
   - Amserlen 14
7. Adeiladau ac Ynni 15
8. Symud a Thrafnidiaeth 20
9. Gwastraff 24
10. Llywodraethu 27
11. Caffael 30
12. Defnydd Tir 32
13. Ecoleg 36
14. Partneriaid 39
15. Strategaethau a Pholisïau 40


Tud. 18

# 1. Cyflwyniad



Newid yn yr hinsawdd yw un o heriau mwyaf ein hoes, ac mae'n gofyn am weithredu ar y cyd gan bob un ohonom. O ganlyniad i'r cynnydd dramatig mewn tymheredd byd-eang a welir ers yr 1950au rydym yn gweld effeithiau difrifol megis encilio llen ia, lefelau'r môr yn codi, newid yn y tymhorau, ac mae tywydd eithafol sy'n arwain at sychder neu lifogydd yn dod yn ddigwyddiadau mwy rheolaidd. Un o'r prif gyfranwyr i'r cynnydd yma mewn tymheredd yw'r lefelau uchel o garbon a gaiff ei ryddhau i'r amgylchedd gan weithgareddau dynol.

Ym mis Mawrth 2019, cyhoeddodd Cyngor Gwynedd ddatganiad ein bod yn wynebu argyfwng hinsawdd, gan ymrwymo i gymryd camau pendant i leihau allyriadau carbon ac ymdrechu am ddyfodol di-garbon. Credwn bellach bod angen rhoi sylw cyfartal i'r argyfwng sy'n wynebu byd natur yn ogystal gan eu bod yn cyd-redeg mor agos â'i gilydd. Gall newidiadau i dymheredd a glawogydd yn sgil newid hinsawdd arwain at golli cynefinoedd byd natur, ac mae colli'r cynefinoedd hynny yn ei dro yn cynyddu'r lefelau o garbon yn yr amgylchedd. Mae'n gylch dieflig y mae'n rhaid ei dorri.

Rydym yn cydnabod mai'r nod tymor hir yw bod Cyngor Gwynedd yn cyrraedd y sefyllfa ddelfrydol o fod yn gyngor di-garbon. Er mwyn cyrraedd y fan honno, mae angen i ni gynllunio sut y byddwn yn ymateb i'r heriau o'n blaenau a sut y gallwn eu goresgyn. Un nod y gallwn gynllunio ar ei gyfer, tra rydym ar y daith, yw i ddod yn gyngor carbon sero net erbyn 2030.

Bwriad y Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur yw amlinellu pa gamau y byddwn yn eu cymryd rhwng 2022 a 2030 er mwyn cyrraedd ein nod o fod yn gyngor carbon sero net.



# 2. Rhagair Arweinydd y Cyngor



Mae hi mor hawdd cymryd pethau'n ganiataol yn tydi? Mor hawdd yw anghofio pa mor freintiedig ydym ni o fyw yn un o siroedd harddaf Cymru, os nad yr harddaf! Mae amgylchedd a byd natur Gwynedd yr un mor unigryw ac arbennig â'i phobl a'i hiaith, ac felly'n drysorau i'w gwarchod.

Ond dydi Gwynedd ddim yn unigryw o gwbl mewn ffordd arall. Rydym ni, fel pob un rhan arall o Gymru a'r byd, eisoes yn profi effeithiau newid yn yr hinsawdd. Fedrwn ni ddim anwybyddu'r effeithiau hynny ac mae'n rhaid gweithredu er mwyn eu lleddfu. Mae'n fraint felly i gyflwyno'r Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur hwn, fydd yn dangos sut y byddwn fel cyngor yn ymateb i'r heriau anferthol o'n blaenau.

Dwi'n hynod o falch fod y cyngor eisoes wedi gostwng ein allyriadau carbon o 58% rhwng 2005/06 a 2019/20. Mae hyn wedi rhoi sylfaen gadarn iawn i ni wrth gynllunio'r daith tuag at fod yn gyngor di-garbon yn y pen draw. Ar y sylfaen yma y mae'r Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur wedi ei adeiladu.

Hoffwn ddiolch yn fawr i aelodau Bwrdd Newid Hinsawdd y cyngor, yn gynghorwyr a swyddogion, am eu gwaith a'u brwdfrydedd i ddod a'r cynllun hwn at ei gilydd. Gwaith tîm ddaeth a'r cynllun at ei gilydd, a dim ond fel un tîm y gallwn ei weithredu. Nid cynllun ar gyfer meysydd gwaith 'amgylcheddol' ydi hwn, ond cynllun fydd yn cyffwrdd â gwaith pob aelod etholedig a staff Cyngor Gwynedd.

Er bod y cyhoeddiad cyntaf hwn o'r cynllun yn canolbwyntio ar waith y cyngor ei hun, ac yn newid sut y byddwn yn gweithredu, rydym hefyd yn edrych allan tuag at ein cymunedau a'n partneriaid. Byddwn yn datblygu'r cynllun dros y blynyddoedd i ddod, ac rydym yn awyddus i wneud hynny drwy wrando a chydweithio gyda sefydliadau a thrigolion ar draws Gwynedd.

Mae ein plant a'n pobl ifanc yn llwyr ymwybodol o effeithiau newid hinsawdd, ac maent yn talu sylw i'r hyn yr ydym ni fel oedolion yn ei wneud er mwyn ymateb i'r problemau sy'n wynebu'r blaned. Dwi'n falch iawn a dweud y gwir bod gennym genhedlaeth ifanc sy'n ymddiddori ddigon mewn materion cyfoes i fod eisiau rhoi pwysau ar y bobl sy'n cymryd penderfyniadau. Wedi'r cwbl eu dyfodol nhw, a phob cenhedlaeth arall i ddod, yr ydym yn ei siapio efo'n gweithredoedd heddiw. Mae'n gyfrifoldeb foesol arnom ni fel oedolion, ac yn bennaf i'r rhai hynny ohonom sydd â dylanwad i newid arferion, i gymryd y penderfyniadau cywir.

Dwi'n ystyried y Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur yn un darn mewn jig-so mawr fydd yn gymorth i ddiogelu dyfodol ein tir a'n plant. Nid yw'n ddim llai nag ein etifeddiaeth ar gyfer Gwynedd y dyfodol.



Y Cynghorydd Dyfrig Siencyn
Arweinydd Cyngor Gwynedd

# 3. Cyngor Gwynedd yn 2030



Rydym wedi llunio’r Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur er mwyn rhannu sut yr ydym am geisio gwireddu ein uchelgais, sef:

“Bydd Cyngor Gwynedd yn garbon sero net ac yn ecolegol gadarnhaol erbyn 2030.”

Hwn fydd ein llinyn mesur, a byddwn yn cynllunio ein gweithredoedd ar sail ein cred y byddwn yn gallu gwireddu’r uchelgais hon.

Mae’r uchelgais hon yn gyson â nod Llywodraeth Cymru i sector gyhoeddus Cymru fod yn garbon sero net erbyn 2030, a gellir darllen mwy am hyn yn eu dogfennau a gyhoeddwyd yn 2019 Ffyniant i Bawb: Cymru Carbon Isel, ac yn 2021 Cymru Sero Net: Cyllideb Garbon 2 (2021-25). Mae’r Llywodraeth wedi ymestyn y targed y tu hwnt i’r sector gyhoeddus gan fod Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 (Deddf yr Amgylchedd) yn ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth Cymru leihau allyriadau tŷ gwydr yng Nghymru gan o leiaf 80% erbyn 2050. Mae Deddf yr Amgylchedd hefyd yn gosod dyletswydd newydd mewn perthynas â lleihau’r dirywiad mewn bioamrywiaeth yng Nghymru, a’n gobaith yw y bydd y cynllun hwn hefyd yn cyfrannu at y nod o gynnal systemau ecolegol a bioamrywiaeth iach i’r dyfodol.

Fel pob sefydliad cyhoeddus arall yng Nghymru mae’r Cyngor wedi ymrwymo i weithredu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, ac mae sicrhau dyfodol iach carbon sero net am gyfrannu at bob un o’r nodau llesiant isod sy’n ganolbwynt i’r Ddeddf.




Un o'r 7 amcan llesiant yn Natganiad Llesiant Cyngor Gwynedd yw 'Cael manteisio ar harddwch amgylchedd naturiol y sir', ac mae 'Ymateb i'r argyfwng newid hinsawdd' yn un o 8 o Flaenoriaethau Gwella Cynllun Cyngor Gwynedd 2018-2023.


Dylid cofio nad datganiad newydd yw ymrwymiad Cyngor Gwynedd i leihau ei ôl-troed carbon. Cyhoeddodd y Cyngor ei Gynllun Rheoli Carbon cyntaf yn 2010, a'r Cynllun Rheoli Carbon 2 yn 2015. Esblygiad o'r ddau gynllun rheoli carbon felly yw'r cynllun hwn.

Dewiswyd blwyddyn 2005/6 fel blwyddyn waelodlin ar gyfer y ddau gynllun carbon, a bryd hynny roedd yr allyriadau carbon o adeiladau, goleuadau stryd, gwastraff, trafnidiaeth fflyd a busnes y cyngor yn 31,155 $tCO_2e$ (esboniad pellach ar ystyr $tCO_2e$ yn 'Beth yw carbon sero net a pham ei fod yn bwysig'). Ymrwymodd y cyngor i leihau allyriadau carbon o 40% erbyn 2021 o'i gymharu â data y flwyddyn waelodlin, ac yn wir fe lwyddwyd i fynd y tu hwnt i'r targed, ac i'w gyrraedd yn gynt. Erbyn 2020 roedd allyriadau'r cyngor yn 13,003 $tCO_2e$, sef gostyngiad o 58%. Mae'r fethodoleg gan Lywodraeth Cymru i fesur data y mae gofyn i ni ei dilyn bellach yn golygu bod y cyfanswm hwn wedi newid – mwy am hyn yn 'Cynllunio i Gyrraedd Carbon Sero Net'.

Does dim amheuaeth, felly, nad ydi'r cyngor wedi ymrwymo i weithio tuag at wireddu'r uchelgais o fod yn gyngor carbon sero net erbyn 2030.



# 4. Beth yw Carbon Sero Net a Pham ei Fod yn Bwysig?




Mae'n anorfod y bydd rhywfaint o allyriadau carbon drwy weithgareddau na ellir eu hosgoi, ac felly os ydym am weld byd heb unrhyw garbon niweidiol yn yr atmosffer yna mae'n rhaid difa'r carbon hwnnw neu ei dynnu o'r atmosffer a'i storio'n ddiogel. Dyma a olygir wrth ddefnyddio'r term 'amsugno carbon' (*sequestration*). Mae gwaith ymchwil a thechnoleg newydd yn cael ei ddatblygu er mwyn ceisio storio carbon, ond y dulliau mwyaf effeithiol ar hyn o bryd yw'r dulliau naturiol ble mae'r carbon yn cael ei amsugno a'i storio mewn coed, planhigion, tiroedd a phlancton.

Os ydi cyfanswm y carbon sy'n cael ei ryddhau i'r atmosffer yn gyfwerth â'r carbon sy'n cael ei amsugno yn ôl i'r ddaear yna rydym wedi cyrraedd sefyllfa o fod yn 'garbon sero net' (gelwir hefyd yn 'carbon niwtral').

## Pam bod angen cyrraedd nod o garbon sero net?

Cynnydd yn y lefelau o nwyon tŷ gwydr (NTG) yn yr atmosffer yw'r prif reswm pam fod tymheredd cyfartalog y blaned wedi cynyddu, yn enwedig dros yr hanner can mlynedd diwethaf. Mae'r ddau graff isod yn dangos tymheredd cyfartalog fesul blwyddyn er gyfer y byd yn gyfan, ac ar gyfer Cymru:

**Tymheredd cyfartalog y byd 1850 – 2020**




**Tymheredd cyfartalog Cymru 1884 – 2020**



(Graddfeydd o: glas – oer / coch – poeth)

Yn ei dro, mae cynnydd mewn tymheredd yn arwain at effeithiau pellgyrhaeddol sy'n hynod niweidiol i'r amgylchedd, byd natur ac i ni fel pobl. Mae'r tymheredd cyfartalog ym Mhrydain bellach 1°C yn uwch nag yr oedd ganrif yn ôl, ac mae lefelau'r môr yn codi 3mm bob blwyddyn (UK Climate Change Risk Assessment 2017: HMGovernment). Er nad yw'n ymddangos yn gynnydd mawr, dylid

cofio bod y Panel Rhynglywodraethol ar y Newid yn yr Hinsawdd (IPCC) yn datgan y bydd pryfed, sy'n hanfodol ar gyfer peillio cnydau a phlanhigion, yn colli hanner eu cynefinoedd gyda chynnydd o 1.5°C, ond mae hyn bron ddwywaith yn fwy tebygol gyda chynnydd o 2°C. Byddai cynnydd o 1.5°C yn arwain at gynnydd yn lefelau y môr fyddai'n effeithio ar 6 miliwn o bobl sy'n byw mewn ardaloedd arfordirol ar draws y byd, ond byddai cynnydd o 2°C yn effeithio ar 10 miliwn o bobl.

Cafodd y targed o gyfyngu cynhesu byd eang i "ymhell islaw 2°C" o'i gymharu â lefelau cyn-ddiwydiannol ei osod fel rhan o Gytundeb Paris 2015 y Cenhedloedd Unedig, a'i atgyfnerthu ymhellach yng nghynhadledd COP26 fis Tachwedd 2021. Mae'r *COP26: The Glasgow Climate Pact* yn datgan:

"*The aim of the UK COP26 Presidency was to keep alive the hope of limiting the rise in global temperature to 1.5C, and the Glasgow Climate Pact does just that. Combined with increased ambition and action from countries, 1.5C remains in sight, but it will only be achieved if every country delivers on what they have pledged*".

Er bod amrywiaethau bychan rhwng y ddau ddarlun llinell amser o gynhesu'r byd a chynhesu Cymru uchod, maent yn dangos yn glir bod y tueddiad tuag at fyd cynhesach yn 2020 yr un mor wir yma yng Nghymru ag yr oedd ar gyfer gweddill y byd. Mae'r angen i gadw'r cynnydd mewn tymheredd i 1.5°C neu is, ac i leihau effaith newid hinsawdd sydd eisoes wedi digwydd felly yr un mor bwysig yma yng Nghymru ag ydyw yng nghoedwigoedd yr Amazon a sychdiroedd Awstralia.

Os mai cynnydd mewn nwyon tŷ gwydr yn yr atmosffer yw'r prif reswm dros y cynnydd mewn tymheredd, yna mae'n dilyn bod angen gostwng lefelau'r nwyon er mwyn rhwystro unrhyw gynnydd pellach mewn tymheredd. Y 3 nwy tŷ gwydr sy'n cael yr effaith fwyaf ar newid hinsawdd yw:

### Nwyon tŷ gwydr fwyaf niweidiol -

- Carbon Deuocsid ($CO_2$)
- Methan ($CH_4$)
- Ocsid Nitrus ($N_2O$)

...gyda'i gilydd yn cael eu mesur fel un uned, a elwir $CO_2e$

### Dull o fesur allyriadau carbon –

- Fesul kg – $kgCO_2e$
- Fesul tunnell – $tCO_2e$

Mae 'rhyddhau nwyon tŷ gwydr' fel arfer yn cael ei alw'n 'allyriadau carbon', ac felly wrth ddefnyddio geirfa fel 'lleihau carbon' yr hyn a olygir yw gostwng lefelau'r holl nwyon tŷ gwydr, ac nid carbon deuocsid yn unig.

Er mwyn bod yn gyson â dulliau mesur ac adrodd data Llywodraeth Cymru, Llywodraeth Prydain a'r IPCC, bydd y cynllun hwn yn defnyddio'r termau 'allyriadau carbon', '$CO_2e$' a 'carbon sero net'.

# 5. Ymateb i Effeithiau Newid Hinsawdd

Tud. 25

Hyd yma rydym wedi ystyried pwysigrwydd arafu neu stopio'r broses o gynhesu byd eang, a'r angen i leihau allyriadau carbon i'r dyfodol. Ond beth am yr effaith y mae newid hinsawdd eisoes yn ei gael arnom ni yma yng Ngwynedd?

Un o'r effeithiau hynny yw'r perygl cynyddol o lifogydd ar yr arfordir a ddaw yn sgil cynnydd yn lefel y môr, ac effaith llifogydd yn y mewndir oherwydd tywydd eithafol neu gynnydd mewn lefelau afonydd. Gall y ddau arwain at ganlyniadau dinistriol i bobl, cartrefi, natur a thir amaethyddol.


## Yr Arfordir

Mae arfordir Gwynedd yn un o'i hatyniadau mwyaf, ond mae oblygiadau mawr i warchod a chynnal yr 180 milltir hwn o arfordir. Mae'r cyfrifoldeb am warchod yr arfordir ac ymateb i lifogydd yn cael ei rannu rhwng Cyfoeth Naturiol Cymru a Chyngor Gwynedd. Yn hydref 2020 fe gyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol yng Nghymru (FCERM), a'i nod yw lleihau'r risgiau i bobl a chymunedau gan lifogydd ac erydu arfordirol. Mae hon yn strategaeth ddeg mlynedd ac rydym fel cyngor wedi ymrwymo i'w gweithredu, a dyma felly sy'n llywio ein gwaith i'r dyfodol.

## Y Mewndir

Fel Awdurdod Llifogydd Arweiniol Lleol, mae gennym fel cyngor gyfrifoldeb i reoli perygl llifogydd o ddŵr wyneb, dŵr daear ac o nentydd llai a elwir yn gyrsiau dŵr cyffredin. Yn unol â'r cyfrifoldeb hwn, rydym wrthi'n cydweithio â Llywodraeth Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru ac awdurdodau lleol eraill er mwyn llunio Strategaeth Llifogydd Lleol. Ei brif nod fydd ceisio rhwystro achosion o lifogydd ac i ymateb yn effeithlon os fydd llifogydd yn digwydd, ond mae ganddo hefyd nod i gyfrannu'n bositif at hyrwyddo bioamrywiaeth a chreu mynediad i drigolion at fannau gwyrdd.

Bydd y strategaeth hon wedi ei chwblhau yn 2022/23 ac felly nid ydym wedi gosod targedau na phrosiectau yn y cynllun hwn ar hyn o bryd gan bod hynny'n gynamserol. Bydd rhaglen i ymateb i lifogydd yn cael ei hychwanegu wrth i ni adolygu'r cynllun hwn ar gyfer 2023/24.



# 6. Y Cynllun Hwn

Mae'r cynllun hwn yn gosod targed carbon sero net ar gyfer y gweithgareddau yr ydym ni fel Cyngor Gwynedd yn gyfrifol amdanynt. Rydym yn bwriadu gwella y ffordd yr ydym yn darparu gwasanaethau ac yn rhedeg ein sefydliad, a byddwn yn gallu mesur hynny gan fod y rhan fwyaf o'r gwaith o dan ein rheolaeth. Bydd y Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur felly yn cynnwys y camau y bwriadwn eu cymryd er mwyn newid y gwasanaethau yr ydym yn eu darparu'n uniongyrchol.

Mae'r gweithgareddau a'r prosiectau y byddwn yn eu gweithredu, os y cawn gyllid digonol, er mwyn ceisio dod yn gyngor carbon sero net wedi eu rhestru o dan y themâu: Adeiladau ac Ynni, Symud a Thrafnidiaeth, Gwastraff, Llywodraethu, Caffael, Defnydd Tir, Ecoleg, ac oll i'w gweld ym mhenodau 7-13.

Nid bwriad y cynllun hwn, felly, yw creu rhaglen waith na mesur os fydd allyriadau carbon Gwynedd fel sir wedi cyrraedd sero net erbyn 2030 – er wrth gwrs y bydd gwireddu targed y Cyngor yn cyfrannu'n helaeth at y nod honno.

Mae yna sialens sylweddol er mwyn cyrraedd ein uchelgais o garbon sero net, ac rydym yn onest wrth ddarogan nad ydi'r atebion i gyd gennym ni ar hyn o bryd. Bydd angen rhagor o waith gennym ni ac eraill er mwyn canfod y dulliau mwyaf effeithiol a llwyddiannus o weithredu mewn rhai meysydd. Mae'n hanfodol, felly, i fod â meddwl agored er mwyn dysgu am ddatblygiadau newydd yn y maes, ac i addasu'r cynllun a'n ffordd o weithio os y daw tystiolaeth gadarn i'r amlwg sy'n cyfiawnhau hynny.

Mae'r Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur felly'n ddogfen y bydd yn cael ei datblygu a'i haddasu'n rheolaidd. Rydym eisoes yn gwybod y byddwn yn ychwanegu rhagor o wybodaeth am ein cynlluniau i atal llifogydd erbyn 2023/24, ac mae angen i ni gydweithio â phartneriaid a chymunedau Gwynedd er mwyn cynllunio sut i newid ymddygiad trigolion.

Ar y llaw arall, mae yna nifer o weithgareddau yr ydym yn credu sydd angen eu cyflawni ond nad oes gennym fawr o reolaeth drostynt, neu nad oes gennym y cyllid ar hyn o bryd i'w gwireddu. Bydd angen adnoddau i gyfarch ein gweledigaeth, a gobeithio y daw mwy o gyfleon gan Lywodraeth Cymru a ffynonellau eraill i sicrhau adnodd digonol.

Fe wnawn gydweithio a chyfrannu at wireddu cynlluniau uchelgeisiol, ond fedrwn ni ddim eu cyflawni ar ein pen ein hunain.

## Partneriaid

Bydd hi'n amhosib i ni fel cyngor gyrraedd yr uchelgais heb weithio mewn partneriaeth gydag ystod eang o unigolion a sefydliadau. Rydym yn darparu gwasanaethau ar gyfer, ac ar y cyd, â chymaint o

bobl eraill, felly mae'n gwbl angenrheidiol i ni gydweithio er lles pawb. Byddwn yn ceisio, hyd eithaf ein gallu, i ddylanwadu ar unigolion a sefydliadau eraill i ddod efo ni ar y daith. Byddwn yn ymgynghori â'n partneriaid ac â chymunedau Gwynedd er mwyn mesur llwyddiant y cynllun hwn ac er mwyn gweld sut y gallwn eu cefnogi er mwyn iddynt hwythau weithredu mor 'garbon isel' a phosib.

Mae rhestr o'n partneriaid i'w weld yn Mhennod 14. Nid yw'n holl gynhwysfawr, nac mewn trefn blaenoriaeth, ac rydym yn agored i drafod gydag unrhyw bartner sydd hefyd yn rhannu ein uchelgais.

## Sut fyddwn ni'n mesur llwyddiant?

Bydd y cynllun hwn yn cael ei fonitro'n rheolaidd drwy drefniadau monitro perfformiad mewnol y Cyngor, a bydd gwybodaeth am ddatblygiad y cynllun yn cael ei rannu'n gyhoeddus drwy Adroddiadau Perfformiad Aelodau Cabinet i gyfarfodydd y Cabinet, a thrwy Adroddiad Perfformiad Blynyddol Cyngor Gwynedd. Mae gennym Fwrdd Newid Hinsawdd sy'n rhoi arweiniad strategol i'r gwaith, ac mae'n cynnwys Arweinydd y Cyngor, Aelodau Cabinet, Prif Weithredwr, Prif Swyddogion, Pencampwr Bioamrywiaeth a chynrychiolydd o'r Pwyllgor Craffu Cymunedau.

Un elfen o'r monitro rheolaidd yw casglu data ar lefelau allyriadau ac amsugno carbon, a byddwn yn gwneud hynny drwy ddilyn methodoleg Llywodraeth Cymru (Canllaw Sector Cyhoeddus Cymru ar gyfer Adrodd ar Garbon Sero-net). Bydd canlyniadau data blynyddol yn rhan o Adroddiad Perfformiad Blynyddol Cyngor Gwynedd, ac yn dilyn eu cyhoeddi byddwn hefyd yn adolygu'r cynllun hwn er mwyn sicrhau ein bod ar y trywydd cywir er mwyn gwireddu ein uchelgais erbyn 2030.

Rydym eisoes wedi casglu data ar gyfer lefelau allyriadau ac amsugno carbon ar gyfer blynyddoedd 2019/20 a 2020/21. Er bod gennym rai amheuon am y fethodoleg sy'n cael ei chynnig, yn enwedig drwy'r gadwyn caffael, mae'r data hwn yn rhoi sylfaen i ni fesur cynnydd yn ei erbyn. Gan bod 2020/21 wedi bod yn flwyddyn anarferol iawn o weithredu oherwydd amgylchiadau a grëwyd gan bandemig Covid-19, rydym wedi dewis 2019/20 fel ein blwyddyn gwaelodlin a byddwn yn cymharu ein cynnydd yn erbyn data'r flwyddyn hon.

Mae'r data ar allyriadau carbon yn cael ei gasglu i fesur gweithgarwch mewn 3 maes, neu 'gwmpas' (*scope* a ddefnyddir yn Saesneg):

**Cwmpas 1** – Allyriadau Uniongyrchol

ee. cynhyrchu trydan a gwres gydag offer sy'n berchen neu'n cael ei reoli gan y Cyngor megis boeleri; teithio mewn cerbydau sy'n berchen i'r Cyngor.

**Cwmpas 2** – Allyriadau Anuniongyrchol o Ynni

ee. trydan, gwres neu systemau oeri sydd wedi eu cynhyrchu gan drydydd parti ond sy'n cael eu defnyddio gan y Cyngor.

**Cwmpas 3** - Allyriadau Anuniongyrchol

ee. nwyddau sy'n cael eu creu gan drydydd parti a'u prynu gan y Cyngor; staff yn teithio i'r gwaith neu'n defnyddio eu ceir eu hunain i deithio ar fusnes.

Mae'r Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur yn cyd-redeg â nifer o strategaethau a pholisïau eraill y cyngor, ac yn wir mae'n hanfodol bod egwyddorion y cynllun hwn yn cael eu gwreiddio ar draws holl waith y cyngor. Bydd nifer o'r camau gweithredu ar gyfer y dyfodol, o bosib, yn eistedd hefyd mewn strategaethau neu gynlluniau gweithredu eraill. Mae rhestr gyfredol o'r rhain i'w gweld ym Mhennod 15, ond mae hi'n rhestr all newid yn gyson.

## Mesur allyriadau ac amsugno carbon

Fel y nodwyd eisoes, fyddwn ni ddim yn gwybod os ydym wedi lleihau ein allyriadau carbon a chynyddu'r capasiti amsugno carbon heblaw ein bod yn mesur hynny'n rheolaidd a'i gymharu yn erbyn ein man cychwyn.

Nid tasg newydd yw hon i ni fel cyngor chwaith. Fel y nodwyd eisoes, bu gan y cyngor ddau Gynllun Rheoli Carbon ers 2010, a buont yn llwyddiannus iawn gan i ni ostwng ein allyriadau carbon o 58% rhwng 2005/06 a 2019/20, gan ddod a'r cyfanswm i lawr i 13,003 $tCO_2e$. Mae'r llwyddiannau yn cynnwys newid 90% hyd yma o oleuadau stryd i lanteri LED, insiwleiddio adeiladau neu gosod paneli solar PV.

Mae'r allyriadau carbon yr oeddem yn eu mesur o dan y ddau Gynllun Rheoli Carbon yn dod o'n adeiladau, goleuadau stryd, gwastraff yr oedd y cyngor yn ei gynhyrchu, fflyd y cyngor a theithio busnes gan staff. Erbyn heddiw mae gofyn i bob cyngor ddilyn methodoleg casglu data sydd wedi ei osod gan Lywodraeth Cymru, sy'n golygu bod gofyn i ni fesur llawer iawn mwy o weithgareddau yn ychwanegol i'r hyn yr oeddem yn ei fesur hyd at 2019 – ee. defnydd dŵr; biomas; allyriadau ymhellach i fyny'r gadwyn gyflenwi (ffynnon i danc); cymudo staff; allyriadau sy'n deillio o'r broses o greu cynnyrch neu wasanaeth yr ydym wedyn yn ei brynu (caffael); a chawn ni ddim hawlio credyd am ynni PV sy'n cael ei allforio i'r grid cenedlaethol.

Er mai nid y cyngor sy'n rheoli nifer o'r gweithgareddau ychwanegol yma, mae gofyn i ni bellach adrodd ar yr holl allyriadau carbon sy'n deillio ohonynt. Mae allyriadau carbon ar gyfer y maes caffael yn cael eu mesur ar sail gwerth ariannol y cynnyrch neu'r gwasanaeth yr ydym wedi ei brynu. Yn syml, po fwyaf y byddwn yn ei wario po fwyaf fydd yr allyriadau carbon – heb ystyried beth ydyw na sut mae'r cynnyrch yn cael ei greu.

Mae'n anorfod y bydd y data newydd yr ydym yn ei gasglu felly lawer yn uwch na'r hyn a gasglwyd o dan y Cynlluniau Rheoli Carbon.

Mae'r tabl nesaf yn dangos y data a gasglwyd ar gyfer ein gwaelodlin yn 2019/20 a blwyddyn 2020/21 gan ddilyn methodoleg Llywodraeth Cymru:


Tud. 29


**Cyfanswm Allyriadau Carbon Gweithredol dros 2 flynedd**:

| | 2019/20<br>Cyfanswm $tCO_2e$ | 2020/21<br>Cyfanswm $tCO_2e$ |
|---|---|---|
| Adeiladau a PV (ffotovoltaig) | 11,549 | 8,594 |
| Goleuo stryd | 1,101 | 931 |
| Fflyd | 5,145 | 4,729 |
| Gwastraff | 7,331 | |
| Teithio busnes | 1,944 | 919 |
| Cymudo staff | 5,623 | 5,701 |
| **Cyfanswm** | **32,693** | **20,874** |
| Caffael | 40,639 | 39,959 |
| **Cyfanswm yn cynnwys caffael** | **73,332** | **60,833** |

Mae sawl rheswm pam fod y cyfanswm eisoes wedi gostwng erbyn 2020/21: gorffen anfon gwastraff i dirlenwi a newid arferion gweithio yn sgil Covid-19 yw rhai ohonynt.


Mae'r siartiau canlynol yn dangos cyfanswm a chanrannau yr allyriadau fesul maes:



Tud. 30

Allyriadau Carbon 2019/20 fesul $tCO_2e$




Rydym hefyd yn dilyn methodoleg Llywodraeth Cymru er mwyn mesur cyfanswm y carbon y gall y tiroedd sy'n berchen i'r cyngor ei amsugno. Mae'r siart isod yn dangos y mathau o diroedd gwahanol sy'n cael ei fesur, a chyfanswm y carbon y maent yn ei amsugno.

**Mesur cyfanswm amsugno carbon:**

| **Tiroedd** | **2019/20 Cyfanswm $tCO_2e$** | **2020/21 Cyfanswm $tCO_2e$** |
|---|---|---|
| ▪ Coedlannau<br>▪ Glaswelltiroedd<br>▪ Gwlypdiroedd<br>▪ Aneddiadau | **5,893*** | **5,893** |

*seiliedig ar ffigwr 2020/21.

**Bwlch sydd angen ei gau er mwyn cyrraedd carbon sero net**:

| | | | |
|---|---|---|---|
| 2019/20 | 32,693 – 5,893 = | **26,800 $tCO_2e$** | (67, 439 $tCO_2e$ gydag effaith caffael) |
| 2020/21 | 20,874 – 5,893 = | **14,981 $tCO_2e$** | (54,940 $tCO_2e$ gydag effaith caffael) |

## Cynllunio i gyrraedd carbon sero net

Bydd angen, felly, i ni gau'r bwlch o oddeutu 26,800 $tCO_2e$ drwy gyfuniad o leihau ein allyriadau a chynyddu'r capasiti amsugno. Er bod potensial i gynyddu'r capasiti amsugno (mwy am hyn yn 12. **Defnydd Tir**) mae'n wir bod angen canolbwyntio ar leihau'n sylweddol ein allyriadau, ac mae'r gweithgareddau a'r prosiectau y byddwn yn eu rhedeg wedi eu disgrifio yn y penodau canlynol (cwmpasau 1 & 2 yn bennaf):

7. **Adeiladau ac Ynni**

8. **Symud a Thrafnidiaeth**

9. **Gwastraff**

Gallwn gefnogi'r holl waith yn y meysydd uchod drwy gryfhau ein trefniadau mewnol ein hunain, ac mae rhagor o wybodaeth am hyn yn y bennod 10. **Llywodraethu**.

Mae'r bennod 11. **Caffael** yn amlinellu ein cynlluniau i gychwyn mynd i'r afael â heriau sylweddol lleihau allyriadau carbon o fewn y gadwyn cyflenwi, sef y nwyddau neu'r gwasanaethau y mae angen i'r cyngor eu prynu i mewn (cwmpas 3).

Yn olaf, mae'r penodau 12. **Defnydd Tir** ac 13. **Ecoleg** yn amlinellu ein cyfrifoldeb i ddefnyddio ein tir i orau ein gallu er mwyn amsugno carbon allan o'r atmosffer, ac i gynnal byd natur a chynyddu bioamrywiaeth er mwyn creu Gwynedd werdd i'r dyfodol.



## Cyllido

Mae Adran 6. **Y Cynllun Hwn** eisoes wedi esbonio nad oes gennym ar hyn o bryd gyfanswm yr arian y bydd ei angen er mwyn gwireddu'r holl brosiectau yn y cynllun hwn yn llawn. Mae yna rai prosiectau sydd eisoes wedi cychwyn ac felly rydym wedi gallu cyfrifo costau, tra mae yna brosiectau eraill y gallwn eu datblygu'n rhannol, a cheisio am gyllid pellach i'w gwireddu'n llawn. Mae prosiectau eraill sy'n ddibynnol ar barhad cynlluniau grant.

Mae yna hefyd rai prosiectau nad ydym, am wahanol resymau, yn gwybod ar hyn o bryd beth fydd eu cost yn llawn. Bydd angen i ni wneud gwaith pellach, neu gydweithio ag eraill, er mwyn prisio'r prosiectau hynny.

Wedi dweud hynny, nid yw'n sefyllfa gyllido bresennol yn ein rhwystro rhag cychwyn gweithredu'r prosiectau sy'n cael eu disgrifio yn y cynllun hwn. Mae yna wybodaeth am y cyllidebau tybiedig y bydd eu hangen ym mhenodau 7 – 13.

## Amserlen

Mae penodau 7 - 13 yn rhestru'r prosiectau yn byddwn am eu gweithredu ac yn gosod amserlen er mwyn gwneud hynny. Dyma esboniad:

| | | |
|---|---|---|
| Tymor byr | 2022/23 – 2023/24 | Blwyddyn 1 - 2 |
| Tymor canolig | 2022/23 – 2026/27 | Blwyddyn 1 - 5 |
| Tymor hir | 2022/23 – 2029/30 | Blwyddyn 1 - 8 |

# 7. Adeiladau ac Ynni

Wrth i Gynllun Rheoli Carbon 2 ddod i'w ddiwedd yn 2020 fe benodwyd Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru (WGES) i asesu'r cyfleoedd allweddol i leihau carbon ar draws ystâd y cyngor. Cynhaliwyd adolygiad pen desg o'r arferion rheoli ynni presennol ynghyd â dadansoddiad meintiol o effeithlonrwydd yr adeiladau hynny sy'n eiddo i'r cyngor, a'r potensial pellach i arbed ynni/allyriadau carbon a chost.

Roedd ein allyriadau carbon o'n hadeiladau a PV yn 2019/20 yn 11,549 $tCO_2e$. Bydd y prosiectau canlynol yn cyfrannu at leihau'r ffigwr hwn, ond mae angen buddsoddiad ariannol sylweddol mewn rhai meysydd, megis ffermydd solar, er mwyn dod a'r ffigwr hwn i lawr i sero a thu hwnt.

## Prosiectau sydd wedi eu cynllunio -

| | Nod | Gweithredu | Amserlen | Costau tybiedig £ | Arbedion $tCO_2e$ – cyfanswm oes |
|---|---|---|---|---|---|
| 7.1 | Anelu am fuddion tymor hir wrth gynllunio gwaith adeiladu neu adnewyddu adeiladau | Llunio polisi fydd yn rhoi arweiniad ar gyfer isafswm y safonau technegol ar gyfer effeithlonrwydd ynni mewn adeiladau newydd neu wrth osod estyniad i adeilad. Byddwn yn prisio gwaith gan ddilyn 'cylch bywyd llawn' | Tymor byr, yna parhaus | Dim cost ychwanegol | Dim effaith uniongyrchol |
| 7.2 | Arbed 5% o allyriadau carbon o adeiladau drwy ddod â hwy i safon 'arfer dda' CIBSE | Cynllunio a gweithredu rhaglen waith i uwchraddio adeiladau | Tymor canolig, yna parhaus | Arbediad -225,000 | 488 |
| 7.3 | Datgarboneiddio cyflenwad ynni'r cyngor | Byddwn yn symud cyflenwad ynni holl adeiladau'r cyngor i ddarparwr sy'n cynnig | Tymor byr | Angen cynnal | Angen cynnal gwaith pellach i |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | 'ynni gwyrdd' erbyn diwedd 2022. Mae 'ynni gwyrdd' yn deillio o brosesau adnewyddadwy o gynhyrchu ynni | | gwaith pellach i fesur yr arbedion neu gostau ariannol | fesur yr arbedion carbon |
| 7.4 | Cynyddu ein 'credyd' carbon drwy osod ffermydd solar er mwyn cynhyrchu ynni y gall y Cyngor ei ddefnyddio neu ei werthu | Ymchwilio ymhellach i'r safleoedd posib sydd wedi eu hadnabod er mwyn lleoli ffermydd solar, a llunio cynlluniau busnes ar sail y budd carbon ac ariannol mwyaf effeithlon | Tymor canolig | Ystod rhwng 2,400 – 18,956,000 | Effaith 1 flwyddyn = Ystod rhwng 377 – 10,201 |
| 7.5 | Lleihau ein allyriadau carbon drwy ehangu ein defnydd o PV i greu ynni adnewyddadwy | Ymestyn ein rhaglen bresennol o osod systemau PV (neu baneli solar) ar ragor o asedau'r cyngor. Byddwn yn llunio achosion busnes fesul ased/adeilad, ond gallent gynnwys swyddfeydd, ysgolion, cartrefi gofal, canolfannau hamdden a meysydd parcio | Tymor canolig | 1,862,000 | 7,234 |
| 7.6 | Defnyddio dulliau adeiladu carbon isel *Passivhaus* wrth ddatblygu ein cynllun peilot tai arloesol | Byddwn yn parhau i weithredu, ac yna werthuso, ein cynllun peilot i ddarparu llety dros dro mewn 'podiau' llety carbon isel – rhagor o fanylion yn ein *Cynllun Gweithredu Tai* | Tymor byr | 300,000 | Angen cynnal gwaith pellach i fesur yr arbedion carbon |
| 7.7 | Cynnig cyngor a gwybodaeth i drigolion Gwynedd am fanteision a chyfleoedd i ddefnyddio dulliau adeiladu carbon isel wrth adeiladu | Drwy ddarpariaeth 'siop un stop' ar gyfer materion tai ar wefan y cyngor byddwn yn hyrwyddo'r cyfleoedd sydd ar gael i arbed ynni a chostau drwy ddefnyddio dulliau carbon isel | Tymor byr yna parhau | 500,000 | Dim effaith uniongyrchol |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | cartrefi a systemau gwresogi/ynni carbon isel i gynnal cartref | o adeiladu a gwresogi cartrefi er mwyn ceisio osgoi tlodi tanwydd.<br>Byddwn hefyd yn parhau i gydweithio â mudiadau cymunedol sy'n darparu cefnogaeth debyg er mwyn lledaenu'r neges mor eang a phosibl | | | |
| 7.8 | Gwella ffabrig adeiladau sy'n eiddo i'r cyngor er mwyn eu gwneud mor effeithlon o ran ynni a phosibl. | Mae llawer iawn o waith eisoes wedi ei gyflawni yn y maes hwn, ond mae gwaith pellach i'w wneud mewn rhai achosion ac mae gwaith cynnal parhaus ar yr hyn sydd eisoes wedi ei gyflawni | Parhaus | 638,000 | 4,120 |
| 7.9 | Trydaneiddio systemau gwresogi adeiladau er mwyn lleihau allyriadau carbon | Byddwn yn ymchwilio i'r dichonolrwydd o osod systemau trydaneiddio – neu pympiau gwres – mewn adeiladau. Gan fod angen buddsoddiad ariannol sylweddol er mwyn eu gosod, mae angen gwaith pellach cyn dewis os y byddant yn cael eu gosod a ble mae'r safleoedd fydd yn elwa fwyaf | Tymor canolig | 2,777,000 | 18,740 |
| 7.10 | Gosod ffaniau awyru EC mewn adeiladau er mwyn lleihau'r ynni sydd ei angen i'w rhedeg o'i gymharu â ffaniau arferol | Mae ffaniau cymudo electronig yn rhedeg ar gerrynt DC yn hytrach na AC ac yn cael eu rheoli'n ddigidol sy'n golygu gweithrediad mwy effeithlon a thawelach. Byddwn yn ymchwilio i ba asedau y byddant yn addas ar eu cyfer ac yn llunio rhaglen waith i'w gosod yn dilyn hynny | Tymor canolig | 93,000 | 153 |
| 7.11 | Gosod rheoliadau gwresogi ystafelloedd unigol er mwyn | Mae technoleg di-wifr yn caniatáu rheoli rheiddiaduron unigol heb gost drud gwifro. | Tymor byr | 68,000 | 2,240 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | lleihau'r ynni sydd ei angen i wresogi adeilad | Bydd hyn yn galluogi i ystafelloedd gael eu gwresogi ar wahanol dymheredd a hefyd i ddiffodd y gwres pan fo'r ystafell yn wag.<br>Byddwn yn llunio rhaglen waith, gan flaenoriaethu gosod systemau mewn cartrefi gofal | | | |
| 7.12 | Uwchraddio goleuadau arbenigol mewn canolfannau hamdden er mwyn defnyddio llai o ynni | Mae technoleg newydd yn caniatáu i ni ddefnyddio goleuadau LED yn ddiogel mewn pyllau nofio a meysydd chwarae awyr agored.<br>Byddwn yn rhedeg rhaglen o uwchraddio'r goleuadau presennol | Tymor canolig | 107,336 | 254 |
| 7.13 | Uwchraddio goleuadau stryd ac arwyddion traffig er mwyn defnyddio llai o ynni | Rydym wedi bod yn rhedeg rhaglen o gyfnewid goleuadau o hen lanteri golau SOX i lanteri LED ers 2015/16, gan arwain at bron i haneru allyriadau carbon y goleuadau hyn.<br>Byddwn yn parhau i gwblhau'r rhaglen gyfnewid goleuadau ac hefyd yn ymchwilio i'r angen a'r fantais o bylu goleuadau ac effaith hynny ar fioamrywiaeth.<br>Yn olaf byddwn yn gwerthuso'r prosiect er mwyn dysgu gwersi i'r dyfodol ac i gynllunio rhaglen gynnal | Tymor byr | Angen cynnal gwaith pellach i fesur yr arbedion neu gostau ariannol | Angen cynnal gwaith pellach i fesur yr arbedion carbon |
| 7.14 | Rhwystro gor-ddatblygu cynlluniau ynni tanwydd ffosiledig | Gweithredu yn unol â'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Diwygiedig a'r Canllawiau Cynllunio Atodol sy'n ymwneud â thechnoleg ynni | Parhaus | Dim cost ychwanegol | Dibynnol ar y ceisiadau a fyddai wedi eu cyflwyno |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | adnewyddadwy neu garbon isel, cadwraeth dŵr, a gwarchod bioamrywiaeth | | | |
| 7.15 | Uchafu i'r eithaf y buddion a ddaw o weithredu ein polisïau ynni a gwresogi | Drwy fonitro gweithredu'r polisïau gan ein staff, a monitro'r dechnoleg sy'n rhedeg systemau, gallwn dargedu er mwyn sicrhau gwelliannau yn effeithiol.<br>Byddwn yn defnyddio Meddalwedd Rheoli Ynni er mwyn monitro ein data trydan, gan wneud gwelliannau yn ôl y gofyn.<br>Byddwn yn cynnig hyfforddiant i staff er mwyn gweithredu'r polisïau hyn | Parhaus | Dim cost ychwanegol | 4,000 |
| 7.16 | Offer a ddefnyddir o fewn adeiladau'r cyngor i fod mor effeithlon o ran ynni a phosibl | Gweithredu'r Polisi Ynni a'r Polisi Gwresogi a sicrhau bod 'nwyddau gwyn' a brynir o safon A+++.<br>Wrth logi offer trydanol bydd blaenoriaeth yn cael ei roi i offer sydd yn cael ei ddiffodd pan nad yw'n cael ei ddefnyddio | Parhaus | Dibynnol ar faint o offer sy'n cael ei brynu/llogi | Dibynnol ar faint o offer sy'n cael ei brynu/llogi |
| 7.17 | Gwella'r isadeiledd ynni yng Ngwynedd a gogledd Cymru er mwyn cynnal systemau ynni a thrafnidiaeth carbon isel | Byddwn yn cyfrannu at lunio ac yna weithredu Cynllun Ynni Lleol o dan arweiniad Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru | Tymor byr | Gwaith heb ddechrau | Gwaith heb ddechrau |

# 8. Symud a Thrafnidiaeth

Mae yna botensial mawr i'r cyngor leihau yr allyriadau carbon yr ydym yn ei greu drwy ein fflyd o gerbydau ein hunain, ac rydym wedi comisiynu astudiaethau er mwyn rhoi arweiniad i ni ar ba gerbydau i'w prynu, a hynny mewn byd ble mae technoleg yn newid mor gyflym. Rydym yn bwriadu symud tuag at fod â fflyd o gerbydau ULEV (Ultra-low Emission Vehicle).

Roedd ein allyriadau carbon o'n fflyd (sy'n cynnwys cerbydau casglu gwastraff ac ailgylchu) yn 2019/20 yn 5,145 $tCO_2e$, ac roedd yr allyriadau o deithiau busnes yn 1,944 $tCO_2e$. Mae'r ddau yma o fewn cwmpas mesur 2, ond mae cyfanswm yr allyriadau o deithiau cymudo staff (cwmpas 3) yn 5,623 $tCO_2e$.

Bydd y prosiectau canlynol yn cyfrannu'n helaeth at ostwng yr allyriadau hyn, ac mae nifer ohonynt yn cael eu rhedeg ochr yn ochr â chynlluniau ynni fydd yn cynyddu ein capasiti i gynhyrchu ynni ein hunain (ee. fferm solar) neu'n ddibynnol ar ehangu rhwydweithiau ynni rhanbarthol a chenedlaethol.



## Prosiectau sydd wedi eu cynllunio -

| | Nod | Gweithredu | Amserlen | Costau tybiedig £ | Arbedion $tCO_2e$ – cyfanswm oes |
|---|---|---|---|---|---|
| 8.1 | Symud oddi wrth defnyddio cerbydau tanwydd ffosil tuag at fflyd o gerbydau (ceir a faniau) ULEV | Byddwn yn gweithredu ein Strategaeth Werdd y Fflyd, gan brynu cerbydau newydd pan fydd cyflenwadau ar gael | Tymor byr | 369,000 | 877 |
| 8.2 | Gosod pwyntiau gwefru cerbydau trydan ar gyfer cerbydau'r cyngor | Byddwn yn ehangu ein rhaglen gosod pwyntiau gwefru y tu hwnt i'r 4 lleoliad presennol, er mwyn cynnal fflyd o gerbydau ULEV y cyngor | Tymor byr | Angen cynnal gwaith pellach i fesur yr | Angen cynnal gwaith pellach i |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | arbedion neu gostau ariannol | fesur yr arbedion carbon |
| 8.3 | Bod ag opsiynau tanwydd carbon isel neu ddi-garbon ar gyfer fflyd trwm y cyngor | Cyfrannu at brosiect Hwb Hydrogen Deeside o dan arweiniad Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru sy'n ymchwilio i ddatblygiad hydrogen fel ynni ar gyfer trafnidiaeth.<br>Yn y cyfamser byddwn yn treialu cerbydau ysgubo a cherbydau graeanu trwm trydan er mwyn symud oddi wrth ddefnyddio cerbydau tanwydd ffosil | Tymor byr a chanolig | 888,000 | 2,108 |
| 8.4 | Gosod pwyntiau gwefru cerbydau trydan ar gyfer trigolion Gwynedd | Byddwn yn gosod pwyntiau gwefru cerbydau trydan ar draws Gwynedd at ddefnydd trigolion ac ymwelwyr | Tymor byr | Angen cynnal gwaith pellach i fesur yr arbedion neu gostau ariannol | Angen cynnal gwaith pellach i fesur yr arbedion carbon |
| 8.5 | Lleihau teithio busnes | Fe wnaeth pandemig Covid-19 gyflymu ganwaith y symudiad tuag at weithio'n rhithiol, wnaeth yn ei dro leihau'n sylweddol yr angen i deithio i brif swyddfeydd y Cyngor er mwyn cynnal cyfarfodydd cyhoeddus a mewnol. Mae gofynion Rhan 3 Deddf Llywodraeth Lleol Cymru hefyd yn nodi y gall cyfarfodydd o'r Cyngor Llawn, y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu a'r Pwyllgorau Craffu gael eu cynnal drwy gyfuniad o | Tymor byr | Gall fod hyd at -550,000 o arbedion ariannol, ond angen cynnal gwaith pellach yn dilyn newid i arferion | Gall fod hyd at 445, ond angen cynnal gwaith pellach i fesur yr arbedion carbon |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | bresenoldeb rhithiol a wyneb yn wyneb (hybrid) ond y gallai gweddill pwyllgorau'r Cyngor gael eu cynnal yn rhithiol.<br><br>Byddwn yn parhau i annog staff ac aelodau etholedig i flaenoriaethu cynnal cyfarfodydd yn rhithiol, ac i leihau i'r isafswm yr achlysuron ble mae angen teithio mewn car | | gweithio yn ystod pandemig Covid-19 | |
| 8.6 | Lleihau allyriadau carbon drwy arferion cymudo staff | Mae'r cyngor wedi creu partneriaeth gyda chwmni Tusker er mwyn cynnig cynllun 'ceir gwyrdd', gyda'r rhan fwyaf o staff y Cyngor yn gymwys i gymryd rhan. Mae'r cynllun yn caniatáu i staff yrru car trydan newydd sbon, gan gynnwys y gost o gynnal a chadw ac yswiriant am hyd at dair blynedd am swm misol sefydlog.<br><br>Byddwn yn hyrwyddo'r opsiwn hwn i ddod yn berchen ar gar trydan, yn enwedig pan fydd pwyntiau gwefru wedi eu lleoli ar stad y cyngor.<br><br>Byddwn hefyd yn annog staff i ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus neu i gerdded neu feicio i'w lleoliad gwaith ble fo'n bosib | Parhaus | Angen cynnal gwaith pellach i fesur yr arbedion neu gostau ariannol | Angen cynnal gwaith pellach i fesur yr arbedion carbon |
| 8.7 | Annog teithio llesol ymysg staff – er budd iechyd a lles ac i leihau allyriadau carbon | Mae'r cyngor wedi creu partneriaeth gyda 11 cwmni yng Ngwynedd i gynnig opsiwn i'r rhan fwyaf o staff fedru llogi beic, sy'n cynnwys beic trydan, ar yr amod bod y beic yn cael ei ddefnyddio 50% o'r amser at ddefnydd cymudo i'r gwaith. Byddai'r beic wedyn ar gael at ddefnydd | Parhaus | Angen cynnal gwaith pellach i fesur yr arbedion neu | Angen cynnal gwaith pellach i fesur yr arbedion carbon |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | hamdden yn ogystal gan ddod a budd iechyd a lles ychwanegol i'n staff | | gostau ariannol | |
| 8.8 | Annog teithio llesol ymysg trigolion ac ymwelwyr i Wynedd er mwyn gwella lles corfforol a meddyliol a lleihau allyriadau carbon teithiau ceir byr | Mae'r cyngor wedi buddsoddi mewn nifer o lwybrau beicio newydd dros y blynyddoedd diwethaf, a byddwn yn hyrwyddo'r rhwydwaith yma o lwybrau er mwyn annog trigolion i'w defnyddio i feicio neu gerdded i'r gwaith, i siopa, neu i ymarfer corff.<br>Byddwn hefyd yn annog ac yn amlygu'r cyfleoedd i ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus, cerdded a beicio wrth i ni ddatblygu strategaeth twristiaeth gynaliadwy | Parhaus | Angen cynnal gwaith pellach i fesur yr arbedion neu gostau ariannol | Angen cynnal gwaith pellach i fesur yr arbedion carbon |
| 8.9 | Lleihau allyriadau carbon a phroblemau parcio mewn ardaloedd sy'n boblogaidd ymysg ymwelwyr | Cydweithio â Pharc Cenedlaethol Eryri ar gynllun teithio ar gyfer mannau poblogaidd – ee. troed yr Wyddfa, Dyffryn Ogwen – er mwyn lleihau teithiau ceir ac annog defnydd o drafnidiaeth gyhoeddus | Tymor byr | Angen cynnal gwaith pellach i fesur yr arbedion neu gostau ariannol | Angen cynnal gwaith pellach i fesur yr arbedion carbon |
| 8.10 | Cynyddu'r cyfleoedd i fudiadau cymunedol gael mynediad at gerbydau EV neu ULEV neu ddefnyddio technoleg carbon isel | Drwy ein cynllun Arloesi Gwynedd Wledig, byddwn yn cydweithio â mudiadau cymunedol unigol neu asiantaethau ambarél er mwyn cefnogi ceisiadau i arbrofi gyda thechnoleg newydd neu ddefnyddio cerbydau carbon isel | Parhaus | Angen cynnal gwaith pellach i fesur yr arbedion neu gostau ariannol | Angen cynnal gwaith pellach i fesur yr arbedion carbon |

# 9. Gwastraff

Esboniwyd eisoes ein bod yn cyfrifo allyriadau carbon ein gweithgareddau gan ddilyn penawdau a methodoleg Llywodraeth Cymru. Daw'r ffigwr o 7,331 $tCO_2e$ o allyriadau sy'n deillio o wastraff y cyngor yn 2019/20 o'r ffaith ein bod bryd hynny yn anfon gwastraff i'w dirlenwi. Erbyn 2020/21 does dim o'n gwastraff yn cael ei anfon i safleoedd tirlenwi, gyda'r cyfan yn cael ei anfon i gael ei losgi'n ddiogel, a dyma pam bod allyriadau carbon 'gwastraff' ar gyfer 2020/21 bellach yn sero. Mae'r allyriadau sy'n deillio o wastraff sy'n cael ei anfon i'w ailgylchu neu ei losgi yn cael eu cyfri o dan y ffigurau allyriadau ar gyfer 'fflyd'.

Byddwn bob tro yn chwilio am gyfleoedd i symud y tu hwnt i'n targed o gyrraedd sero net, ac felly mae'r prosiectau canlynol wedi eu cynllunio er mwyn parhau i gynnal ein targed ac i hyrwyddo egwyddorion yr economi gylchol. Nod hynny yw lleihau gwastraff gymaint ag sy'n bosibl, tra'n hybu gweithgarwch economaidd ac adfywiad cymunedol yr un pryd.

## Prosiectau sydd wedi eu cynllunio -

| | Nod | Gweithredu | Amserlen | Costau tybiedig £ | Arbedion $tCO_2e$ – cyfanswm oes |
|---|---|---|---|---|---|
| 9.1 | Trwsio ac addasu offer a fyddai fel arall yn cael ei waredu a'i losgi, a'i werthu | Rydym wrthi'n addasu canolfan ailgylchu Llandygai ym Mangor er mwyn agor siop yno sy'n gwerthu offer sydd wedi ei drwsio neu ei addasu. Byddwn yn parhau i gynnal y prosiect hwn. | Parhaus | Angen cynnal gwaith pellach i fesur yr arbedion neu gostau ariannol | Angen cynnal gwaith pellach i fesur yr arbedion carbon |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 9.2 | Lleihau'r nifer o eitemau sy'n cyrraedd safleoedd llosgi gwastraff drwy annog pobl i drwsio ac ail-ddefnyddio | Drwy'r prosiect Caffi Trwsio byddwn yn sefydlu rhwydwaith o ganolfannau/caffis ar draws y sir er mwyn hyfforddi trigolion i fod â'r sgiliau i drwsio ac ail-ddefnyddio offer yn hytrach na'i waredu. | Tymor byr a chanolig | 226,000 | Angen cynnal gwaith pellach i fesur yr arbedion carbon |
| 9.3 | Hyrwyddo economi gylchol er mwyn lleihau nifer yr eitemau sy'n cael eu gwaredu a lleihau allyriadau carbon yn y gadwyn gyflenwi o brynu nwyddau newydd | Byddwn yn rhedeg prosiectau peilot 'Pethe' ac yna yn ei werthuso. Bydd y prosiect yn cael ei redeg gan drydydd parti mewn 3 lleoliad ar draws y sir a'i nod yw bod yn 'lyfrgell' er mwyn menthyg eitemau – ee. teganau, nwyddau i'r cartref neu'r ardd | Tymor byr | 33,222 | Angen cynnal gwaith pellach i fesur yr arbedion carbon |
| 9.4 | Lleihau gwastraff bwyd drwy gefnogi prosiectau cymunedol sy'n ceisio ail ddosbarthu bwyd fyddai fel arall yn cael ei daflu | Parhau i gefnogi'r 11 hwb bwyd cymunedol sy'n weithredol eisoes gan ddarparu gwybodaeth a chyngor. | Parhaus | Dim cost ychwanegol | Dim effaith uniongyrchol |
| 9.5 | Lleihau'r gwastraff stryd sy'n mynd i'w waredu a chynyddu'r gwastraff stryd sy'n cael ei ailgylchu | Fel rhan o'n cynllun Cymunedau Glân a Thaclus, a'n trefniadau glanhau strydoedd, byddwn yn cychwyn cynllun peilot i osod biniau i dderbyn deunydd i'w ailgylchu ar ein strydoedd. Byddwn hefyd yn gosod technoleg o fewn biniau er mwyn cywasgu gwastraff a mesur pryd mae angen eu gwagio. Bydd hyn hefyd yn arwain at lai o deithio di-angen mewn cerbydau glanhau | Tymor byr | 35,000 | Caiff ei fesur ar ddiwedd y cynllun peilot |
| 9.6 | Lleihau defnydd papur | Cyn i bandemig Covid-19 ein taro roeddem wedi cychwyn ar waith i fesur ein defnydd o bapur ar | Tymor byr | Angen cynnal | Angen cynnal gwaith pellach i |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | draws holl swyddfeydd y cyngor gyda'r nod o leihau faint o bapur yr ydym yn ei ddefnyddio, a gostwng faint o ynni sy'n cael ei ddefnyddio i redeg offer argraffu. Gyda nifer helaeth o'r staff bellach yn gweithio o adref mae'r defnydd o bapur yn ein swyddfeydd bellach wedi gostwng yn sylweddol, ond mae'n bwysig parhau a chwblhau'r prosiect hwn er mwyn dysgu gwersi wrth gynllunio ar gyfer dychwelyd yn rhannol neu'n llawn amser i'n swyddfeydd yn y dyfodol | | gwaith pellach i fesur yr arbedion neu gostau ariannol | fesur yr arbedion carbon |

# 10. Llywodraethu

Mae'r bennod hon yn disgrifio'r newidiadau y credwn sydd angen eu gwneud er mwyn cynnal gweddill y gwaith sy'n y cynllun hwn. Drwy wneud newidiadau i'n arferion gweithredu mewnol fel cyngor, fe fyddwn yn cynnig yr amgylchiadau gorau i'n aelodau etholedig a'n staff i wneud penderfyniadau a gweithredu er lles ein planed.

Mae llawer o'r gwaith cynllunio y tu cefn i lunio'r cynllun hwn, a'i adolygu i'r dyfodol, yn digwydd mewn partneriaeth â sefydliadau eraill a chymunedau. Dylid cofio bod hyn yn egwyddor sylfaenol i'r prosiectau sydd wedi eu rhestru isod, ac i'r rhan fwyaf o brosiectau eraill sy'n cael eu disgrifio yn y cynllun.

### Prosiectau sydd wedi eu cynllunio -

| | Nod | Gweithredu | Amserlen | Costau tybiedig £ | Arbedion $tCO_2e$ – cyfanswm oes |
|---|---|---|---|---|---|
| 10.1 | Aelodau etholedig a staff sydd:<br>• yn deall oblygiadau effaith newid hinsawdd<br>• yn cymryd penderfyniadau ar sail gwybodaeth am yr effeithiau<br>• yn gweithredu yn y modd mwyaf cadarnhaol posib tuag at liniaru effaith newid hinsawdd a bod yn ecolegol gadarnhaol | Mae angen i'r cyngor fod â gweithlu gwybodus am y maes newid hinsawdd ac ecoleg er mwyn gallu cymryd penderfyniadau cyfrifol, ac i wybod sut i leihau allyriadau carbon.<br>Byddwn yn cyflwyno rhaglen barhaus o hyfforddiant i aelodau etholedig a staff ar egwyddorion sylfaenol y cynllun hwn, ac yn ymchwilio i'r angen am hyfforddiant neu wybodaeth arbenigol mewn rhai meysydd penodol | Tymor byr a chanolig | Dim cost ychwanegol – ariannu o gyllidebau hyfforddiant canolog neu ddarpariaeth drwy Lywodraeth Cymru | Dim arbedion uniongyrchol |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | Bydd yr hyfforddiant yn atgyfnerthu'r cymal sydd eisoes yn swydd ddisgrifiadau staff y cyngor i weithredu yn unol â'r Cynllun Rheoli Carbon | | | |
| 10.2 | Annog staff i ddatblygu gyrfa mewn meysydd sy'n lleihau effaith newid hinsawdd neu'n ecolegol gadarnhaol | Byddwn yn defnyddio cynllun prentisiaethau llwyddiannus y cyngor i annog rhagor o brentisiaid newydd i fod yn dilyn gyrfa mewn meysydd megis bioamrywiaeth ac ynni | Parhaus | Dim cost ychwanegol – ariannu o gyllideb y Cynllun Prentisiaethau | Dim arbedion uniongyrchol |
| 10.3 | Adolygu polisïau a strategaethau presennol y cyngor fel bod lleihau allyriadau carbon neu leihau effaith newid hinsawdd yn ffactor wrth ddod i benderfyniad | Gweithredu rhaglen barhaus o adolygu canllawiau polisïau a llunio penderfyniadau, gan roi arweiniad a chyngor ar ba amodau y gellir eu gosod | Tymor byr, yna parhaus | Dim cost ychwanegol | Dim arbedion uniongyrchol |
| 10.4 | Rhannu gwybodaeth yn gyhoeddus am y gwaith y mae'r cyngor yn ei wneud i leihau allyriadau carbon er mwyn annog eraill i newid arferion. | Byddwn yn creu adnodd 'siop un stop' ar ein gwefan gyda gwybodaeth am holl waith y cyngor yn y maes hwn, a chysylltiadau i wybodaeth ddefnyddiol yn allanol, ac yn ei ddiweddaru'n barhaus.<br><br>Byddwn yn rhannu gwybodaeth ac arferion da drwy sianelau cyfryngau cymdeithasol y cyngor er mwyn annog trigolion i newid eu harferion | Sefydlu - Tymor byr<br><br>Cynnal - parhaus | Dim cost ychwanegol | Dim arbedion uniongyrchol |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 10.5 | Cefnogi cymunedau i gynllunio a darparu atebion lleol i anghenion lleol | Bydd ein rhaglen o ddatblygu Cynlluniau Adfywio Lleol/Ardal Ni yn adnabod y blaenoriaethau a'r pryderon amrywiol all fodoli mewn gwahanol gymunedau ar draws y sir. Byddwn wedyn yn cydweithio â chymunedau lleol a phartneriaid eraill sy'n darparu gwasanaethau er mwyn gwireddu nod y cynllun hwn. | Tymor byr, yna parhaus | Dim cost ychwanegol | Dim arbedion uniongyrchol |



Tud. 46

# 11. Caffael

Mae gofynion adrodd data Llywodraeth Cymru yn ein harwain at gasglu data am wariant y cyngor ar adnoddau neu wasanaethau gan gyflenwyr allanol. Mae hyn yn amrywio'n eang iawn o wasanaethau archwilio ariannol neu gostau hysbysebu i brynu nwyddau megis bwydydd neu offer diogelwch personol i ysgolion a chartrefi gofal.

Mae ein allyriadau carbon o dan y pennawd caffael wedyn yn cael eu mesur ar sail cyfanswm y gwariant yn unig, ac nid ar sail unrhyw ymdrechion i leihau costau na allyriadau carbon gennym ni ein hunain neu ein cyflenwyr fel rhan o'r broses o osod contractau.

Roedd ein allyriadau carbon o'n holl weithgarwch caffael gan ddilyn y fethodoleg uchod yn 2019/20 yn 40,639 t$CO_2$e, sy'n dod o dan cwmpas 3.

Mae gan Gyngor Gwynedd Bolisi Caffael Cynaliadwy ers 2011 er mwyn i ni ystyried yr effaith gymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol bosibl y gall ein penderfyniadau caffael ei gael a pha gamau y gellir eu cymryd i wneud y defnydd gorau posibl o wariant y cyngor, er lles y sir. Mae 'lleihau effaith amgylcheddol drwy gwell detholiad a defnydd o nwyddau, gwasanaethau a gwaith' yn nod o fewn y polisi.

Byddwn yn parhau i weithredu'r Polisi Caffael Cynaliadwy, yn ogystal â datblygu'r prosiectau canlynol -

| | Nod | Gweithredu | Amserlen | Costau tybiedig £ | Arbedion t$CO_2$e – cyfanswm oes |
|---|---|---|---|---|---|
| 11.1 | Darparu cefnogaeth i'r farchnad, yn enwedig i ddarparwyr lleol, i fedru mesur effaith eu gweithrediadau ar eu ôl-troed carbon | Byddwn yn parhau i gydweithio â Busnes Cymru ac eraill er mwyn cyflwyno rhaglen o wybodaeth i gefnogi busnesau. Bydd hyn yn eu helpu i geisio lleihau eu allyriadau carbon heb niweidio eu gallu i gyflwyno ceisiadau am dendrau. | Parhaus | Dim cost ychwanegol | Dim arbedion uniongyrchol |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 11.2 | Deall a mesur allyriadau carbon wrth wireddu contractau yn y gadwyn caffael | Byddwn yn parhau i asesu ein prosesau ein hunain o osod meini prawf i fesur tendrau er mwyn sicrhau ein bod yn mesur effaith amgylcheddol contractau. | Parhaus | Dim cost ychwanegol | Dim arbedion uniongyrchol |



# 12. Defnydd Tir

Bydd rheolaeth gyfrifol o'r tiroedd sy'n berchen i'r cyngor yn talu ar ei ganfed. Nid yn unig y gall gynnig bywyd i rywogaethau natur gan eu gwarchod neu eu hachub hyd yn oed, ond bydd ein tiroedd hefyd yn beiriant amsugno carbon naturiol effeithiol y dylem wneud y mwyaf ohono.

Mae ein asesiad i fesur capasiti amsugno carbon yr holl diroedd oedd yn eiddo i'r cyngor yn 2020/21 yn dangos y gall amsugno gwerth 5,893 $tCO_2e$. Mae'r asesiad hwn yn seiliedig ar y mathau canlynol o diroedd –

| | |
|---|---|
| Coedlannau | Gyda chyfuniad o wahanol goed: cynhenid, bytholwyrdd ayb. Bydd rhai yn ddwys o ran nifer y coed, ac eraill wedi eu poblogi â llai o goed. |
| Glaswelltiroedd | Cyfuniad o diroedd sydd â gwair yn tyfu – rhai nad ydynt yn cael eu trin ac eraill yn cael eu torri'n rheolaidd, ee. caeau chwarae, tir ysgol neu gartref gofal, ymylon ffyrdd. |
| Gwlypdiroedd | Tir â mawn ynddo; tir sydd wedi ei orchuddio'n rheolaidd gan ddŵr; llynnoedd ac afonydd. |
| Aneddiadau | Unrhyw diroedd sydd wedi eu datblygu, ond nad ydynt eisoes wedi eu cyfri o dan gategori arall, ee. adeilad. Gallent gynnwys: meysydd chwaraeon amlbwrpas, isadeiledd trafnidiaeth, tir 'llwyd' cyn-ddiwydiannol. |

Rydym yn cydnabod bod yna waith pellach angen ei gyflawni er mwyn mesur yn gyflawn a chywir union gapasiti amsugno carbon ein tiroedd – ee. maint a'r math o goed, cyfansoddiad y pridd ayb. Mae hyn yn broblem gyffredin i nifer fawr o gynghorau a sefydliadau eraill ac felly fe fyddwn yn edrych tuag at gydweithio ag eraill er mwyn llunio rhaglen i gasglu data a rheoli ein tiroedd i'r dyfodol.

## Llifogydd

Un elfen arall o waith trin a gwarchod tiroedd yw'r camau sydd angen eu cymryd er mwyn lliniaru effaith llifogydd. Mae'r cyngor eisoes yn rhedeg nifer o brosiectau ers blynyddoedd mewn ardaloedd arfordirol, ee. Fairbourne, ac wedi bod yn ymateb i nifer uchel o achosion o lifogydd mewn ardaloedd mewndirol. Newid hinsawdd sydd wrth gwrs yn cyfrannu at y rhan fwyaf o'r cynnydd

hwn mewn achosion o lifogydd ac felly, yn anffodus, mae'n debygol iawn y bydd yr achosion hyn yn parhau i gynyddu.

Rydym wrthi'n cydweithio â Llywodraeth Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru ac awdurdodau lleol eraill er mwyn llunio Strategaeth Llifogydd Lleol. Ei brif nod fydd ceisio rhwystro achosion o lifogydd ac i ymateb yn effeithlon os fydd llifogydd yn digwydd, ond mae ganddo hefyd nod i gyfrannu'n bositif at hyrwyddo bioamrywiaeth a chreu mynediad i drigolion at fannau gwyrdd.

Bydd y strategaeth hon wedi ei chwblhau yn 2022/23 ac felly nid ydym wedi gosod targedau na phrosiectau yn y cynllun hwn ar hyn o bryd gan bod hynny'n gynamserol. Bydd rhaglen i ymateb i lifogydd yn cael ei ychwanegu wrth i ni adolygu'r cynllun hwn ar gyfer 2023/24.

Bydd y gwaith o ymateb i lifogydd yn clymu'n agos gyda'r gwaith o gynnal tiroedd a bioamrywiaeth, gan y gallai newid mewn un gael effaith fawr ar y llall. Er enghraifft, gall cynnal tiroedd corsiog neu blannu coed yn uchel mewn dyffryn leihau'r dŵr fydd yn cyrraedd afonydd ac achosi llifogydd yn is lawr y dyffryn. Mae nifer o'r prosiectau sydd yn y bennod hon, a'r bennod ganlynol ar Ecoleg, felly yn mynd i gyfrannu at liniaru effaith llifogydd.

## Prosiectau sydd wedi eu cynllunio -

| | Nod | Gweithredu | Amserlen | Costau tybiedig £ | Arbedion $tCO_2e$ – cyfanswm oes |
|---|---|---|---|---|---|
| 12.1 | Adnabod cyfraniad coed sy'n eiddo i'r cyngor i amsugno a storio carbon a lleihau llifogydd | Cyflymu ein rhaglen i fesur yn gywir y coed sy'n eiddo i'r cyngor er mwyn casglu data cywir am eu llwyddiant, neu beidio, i amsugno carbon | Tymor byr a chanolig | Angen cynnal gwaith pellach i fesur yr arbedion neu gostau ariannol | 2,715+ |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 12.2 | Adnabod cyfraniad tiroedd sy'n eiddo i'r cyngor i amsugno a storio carbon a lleihau llifogydd | Cyflymu ein rhaglen i fesur yn gywir y tiroedd sy'n eiddo i'r cyngor er mwyn casglu data cywir am eu llwyddiant, neu beidio, i amsugno carbon | Tymor byr a chanolig | Angen cynnal gwaith pellach i fesur yr arbedion neu gostau ariannol | 3,612+ |
| 12.3 | Sefydlu meithrinfeydd coed er mwyn tyfu coed yn barod i'w plannu | Cydweithio â mudiadau eraill a sefydliadau addysg i sefydlu meithrinfeydd coed | Tymor canolig | Angen cynnal gwaith pellach i fesur yr arbedion neu gostau ariannol | Angen cynnal gwaith pellach i fesur yr arbedion carbon |
| 12.4 | Adnabod cyfleon i blannu coed fel rhan o fenter Coedwig Cenedlaethol Cymru | Cydweithio gyda Llywodraeth Cymru ar eu cynllun Coedwig Cenedlaethol Cymru er mwyn cynyddu'r nifer o goed fydd yn cael eu plannu | Tymor canolig | Dim cost ychwanegol | Dim arbedion uniongyrchol |
| 12.5 | Rheoli Clwy yr Onnen mewn coed a gwneud yn iawn am unrhyw allyriadau carbon fyddai'n ganlyniad i dorri coed | Parhau â'n rhaglen i adnabod y clwy mewn coed ac i'w drin.<br>Sicrhau, os oes angen torri neu ddifa coeden, bod coeden arall yn cael ei phlannu yn ei lle, a hynny mewn cydweithrediad â chynlluniau plannu coed eraill y cynllun hwn | Parhaus | Dim cost ychwanegol | Carbon niwtral |

Tud. 52

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 12.6 | Bod coedlannau sy'n eiddo i'r Cyngor yn cael eu gwarchod er mwyn gwneud y gorau o'u potensial i amsugno carbon a bod yn gynefinoedd i fyd natur | Gwella ein rheolaeth o'r 4 goedlan bresennol, ac unrhyw goedlannau newydd y gall y cyngor eu plannu, er mwyn iddynt fod yn iach a gwydn i'r dyfodol | Parhaus | Angen cynnal gwaith pellach i fesur yr arbedion neu gostau ariannol | 2,715+ |
| 12.7 | Gwarchod tir amaethyddol yng Ngwynedd a'i ddefnyddio i bwrpas cymwys, a rheoli prosiectau coedwigo | Yn ei gyfarfod ar 2 Rhagfyr 2021 fe fabwysiadodd Cyngor Gwynedd y cynnig canlynol:<br>'Mae'r Cyngor yn galw ar Lywodraeth Cymru i:<br>• Newid ar fyrder y cymhwyster i dderbyn eu grant Glastir (GWC) fel mai dim ond ffermwyr gweithredol yng Nghymru sy'n gallu gwneud cais.<br>• Cyflwyno deddfwriaeth datblygu cynllunio i alluogi awdurdodau cynllunio lleol fel Gwynedd i reoli prosiectau coedwigo.<br>Mae'n hanfodol bod Llywodraeth Cymru yn symud i amddiffyn amgylchedd gwledig Cymru, a'i hadnoddau er budd economi Gwyrdd cylchol newydd gan gryfhau diwydiannau, cymunedau a gwasanaethau Cymru.' | Tymor canolig | Dim cost ychwanegol | Dim arbedion uniongyrchol |

# 13. Ecoleg

Er mai datgan argyfwng newid hinsawdd a wnaeth Cyngor Gwynedd yn 2019, credwn bellach bod angen rhoi sylw cyfartal i'r argyfwng sy'n wynebu byd natur yn ogystal gan eu bod yn cyd-redeg mor agos at ei gilydd. Mae colli cynefinoedd i fyd natur yn gallu cynyddu'r lefelau o garbon yn yr amgylchedd, ac mae newidiadau i dymheredd a glawogydd yn dylanwadu ar ddosbarthiad cynefinoedd i natur.

Mae'n gwbl amlwg bod canlyniadau cynhesu byd eang yn cael effaith niweidiol ar fyd natur yma yng Nghymru hyd yn oed, a bod angen gweithredu bwriadol os ydym am ddiogelu ein systemau ecolegol brau i'r dyfodol.

Ein nod yw nid yn unig i warchod byd natur a bioamrywiaeth yn y sir rhag effeithiau niweidiol newid hinsawdd ond hefyd i'w gryfhau er mwyn i fyd natur gyfrannu'n gadarnhaol at y frwydr i amsugno carbon, fel yr esboniwyd yn y bennod **12. Defnydd Tir**.

Rydym am fod yn gyngor sy'n 'ecolegol gadarnhaol' nid yn unig yng nghyd-destun newid hinsawdd ond hefyd oherwydd ein bod yn credu bod gan fyd natur werth amhrisiadwy ynddo'i hun. Mae 'cael manteisio ar harddwch amgylchedd naturiol y sir' yn un o 7 amcan llesiant y cyngor, ac mae 'pwysigrwydd gwarchod yr amgylchedd naturiol' a 'hybu defnydd adnoddau naturiol i wella iechyd a llesiant yn yr hir dymor' yn 2 allan o 9 prif neges Cynllun Llesiant Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn.

Fis Mehefin 2021, gwnaeth Llywodraeth Cymru ddatganiad Argyfwng Bioamrywiaeth gan nodi: "Mae gwerth cynhenid i fioamrywiaeth ac mae'n cynnig buddion i bobl drwy wasanaethau ecosystemau, megis atal llifogydd a chynhyrchu bwyd. Credir felly bod colledion bioamrywiaeth yn achosi risgiau i ddiogelwch a llesiant pobl".



Tud. 54

## Prosiectau sydd wedi eu cynllunio -

| | Nod | Gweithredu | Amserlen | Costau tybiedig £ | Arbedion $tCO_2e$ – cyfanswm oes |
|---|---|---|---|---|---|
| 13.1 | Adnabod y camau sydd angen i ni eu cymryd er mwyn gwarchod cynefinoedd natur a bioamrywiaeth i'r dyfodol | Adolygu Cynllun Dyletswydd Bioamrywiaeth Cyngor Gwynedd erbyn diwedd 2022 | Tymor byr | Dim cost ychwanegol | Dim arbedion uniongyrchol |
| 13.2 | Adnabod ein rhywogaethau a'n cynefinoedd gwerthfawr a pha fesurau sydd eu hangen i'w gwarchod a'u hadfer | Natur Gwynedd (Partneriaeth Natur Lleol) i greu Cynllun Adfer Natur i Wynedd yn seiliedig ar Gynllun Adfer Natur Cymru a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru | Tymor byr | Dim cost ychwanegol | Dibynnol ar gynnwys y Cynllun Adfer Natur i Wynedd |
| 13.3 | Cynyddu nifer y peillwyr drwy warchod cynefinoedd neu blannu cynefinoedd newydd | Trawsnewid safleoedd tirlenwi Ffridd Rasys a Llwyn Isaf i weirgloddiau blodau gwyllt.<br>Defnyddio'r rhaglen Llefydd Lleol ar Gyfer Natur er mwyn gwneud y gorau o diroedd mewn ysgolion drwy blannu blodau a phlanhigion addas i ddenu peillwyr (pryfed/gwenyn).<br>Byddwn yn parhau gyda'n rhaglen i gynnal ymylon ffyrdd sirol ac i reoli amlder a lleoliad torri gwair er mwyn cynnal cynefinoedd i | Tymor canolig | 400,000 | Angen cynnal gwaith pellach i fesur yr arbedion carbon |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | fioamrywiaeth, ble mae hynny'n ddiogel i yrwyr a cherddwyr | | | |
| 13.4 | Cefnogi mudiadau gwirfoddol a chymunedol a chynghorau tref a chymuned sy'n gwarchod neu'n hybu byd natur | Defnyddio'r rhaglen Llefydd Lleol ar Gyfer Natur er mwyn symbylu prosiectau newydd a pharhau a phrosiectau sydd eisoes ar y gweill – ee. gwaredu rhywogaethau estron yn ardal Ffestiniog; rheoli gwarchodfa natur Lôn Cob Bach, Pwllheli | Tymor canolig | Dim cost ychwanegol<br>Bydd angen denu cyllid grant i gynnal prosiectau | Angen cynnal gwaith pellach i fesur yr arbedion carbon |
| 13.5 | Meithrin a chynnal diddordeb trigolion Gwynedd mewn materion ecolegol er mwyn iddynt fod eisiau helpu i warchod byd natur | Gwella ein rhaglenni ymgysylltu am faterion ecolegol a'r gwaith y mae'r cyngor yn ei wneud yn y maes.<br>Cydweithio ag ysgolion er mwyn magu diddordeb ymysg disgyblion | Parhaus | Angen cynnal gwaith pellach i fesur yr arbedion neu gostau ariannol | Angen cynnal gwaith pellach i fesur yr arbedion carbon |
| 13.6 | Gwarchod cynefinoedd gwerthfawr i fyd natur | Cydweithio â Chyfoeth Naturiol Cymru, cynghorau tref a chymuned a'r RSPB i gynnal 8 gwarchodfa natur ar draws Gwynedd | Parhaus | Dim cost ychwanegol | Angen cynnal gwaith pellach i fesur yr arbedion carbon |

# 14. Partneriaid

Fel yr ydym wedi nodi sawl gwaith, all Cyngor Gwynedd ar ei ben ei hun ddim cyflawni'r holl waith sydd ei angen er mwyn cyrraedd targed o sero net erbyn 2030. Mae nifer o'r prosiectau y mae sôn amdanynt yn rai y dylid gael eu cynllunio ac/neu eu darparu ar y cyd â sefydliadau eraill. Rydym ni fel Cyngor hefyd yn barod i gyfrannu at ddatblygu syniadau neu weithredu prosiectau sy'n cael eu harwain gan bartneriaid eraill.

Isod mae yna rhestr isod o bartneriaid y byddwn yn cydweithio â hwy er mwyn gwireddu'r cynllun hwn. Dydi hi ddim yn restr mewn trefn blaenoriaeth, a byddwn yn ychwanegu ati ac yn ei newid yn aml -

- Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn
- Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru
- Gwasanaeth Ynni (Llywodraeth Cymru)
- Cynghorau Tref a Chymuned Gwynedd
- Cyngor Sir Ynys Môn
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
- Cyngor Sir Ddinbych
- Cyngor Sir y Fflint
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
- Cyfoeth Naturiol Cymru
- Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
- Parc Cenedlaethol Eryri
- Natur Gwynedd
- RSPB
- Y Dref Werdd
- Partneriaeth Ogwen

# 15. Strategaethau a Pholisïau

Mae yna lawer mwy o wybodaeth am rai o'r camau gweithredu y mae sôn amdanynt yn y cynllun hwn mewn dogfennau eraill sydd eisoes wedi eu cyhoeddi. Yn hytrach nag ail-adrodd yr wybodaeth yn y ddogfen hon gallwch droi at y dogfennau isod i ganfod mwy o wybodaeth (nid ydynt i gyd wedi eu cyhoeddi ar ein gwefan)



Cynllun Cyngor Gwynedd 2018-23

Adroddiad Perfformiad Blynyddol Cyngor Gwynedd

Strategaeth Tai Gwynedd 2019-24

Cynllun Gweithredu Tai Cyngor Gwynedd 2020/21 - 2026/27

Cynllun Llesiant Gwynedd a Môn (gwefan allanol Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus)

Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Diwygiedig

Polisi a Chanllaw Caffael Cynaliadwy

Gorchymyn Diogelu Coed

Polisi Ynni

Polisi Gwresogi

Polisi Goleuadau

Strategaeth Werdd y Fflyd

Strategaeth Asedau Corfforaethol



# Asesu'r Effaith ar Nodweddion Cydraddoldeb, y Gymraeg ac Anfantais Economaidd-Gymdeithasol

Gweler y daflen *Sut i Wneud Asesiad Effaith Cydraddoldeb* am gymorth i lenwi'r ffurflen yma. Mae croeso hefyd i chi gysylltu gyda Delyth Williams, Swyddog Polisi a Chydraddoldeb ar est 32708, neu DelythGadlysWilliams@gwynedd.llyw.cymru, am gymorth pellach.

Mae'n ofynnol i'r Cyngor (dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010) i ystyried yr effaith fydd newid mewn unrhyw bolisi neu weithdrefn (neu greu polisi neu weithdrefn o'r newydd), yn ei gael ar bobl hefo nodweddion cydraddoldeb gwarchodedig. Mae gan y Cyngor hefyd ddyletswyddau cyffredinol ychwanegol i sicrhau tegwch a meithrin perthnasau da. Rhaid felly gwneud asesiad amserol cyn gwneud penderfyniad ar unrhyw newid perthnasol (h.y. sy'n cael effaith ar bobl hefo nodwedd gwarchodedig).

Mae hefyd yn ofynnol i'r Cyngor, dan ofynion Safonau'r Gymraeg (Adran 44 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011) ystyried yr effaith fydd newid mewn unrhyw bolisi neu weithdrefn (neu greu polisi neu weithdrefn o'r newydd), yn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac i sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Mae'r ddogfen hon felly yn sicrhau bod y penderfyniadau yma'n diogelu ac yn hyrwyddo'r defnydd a wneir o'r Gymraeg.

O Ebrill 1af 2021 ymlaen mae gan y Cyngor ddyletswydd i roi sylw dyledus i ddod i'r afael ag anfantais economaidd-gymdeithasol mewn penderfyniadau strategol.

## 1) Manylion

### 1.1 Beth yw enw'r polisi / gwasanaeth dan sylw?

| |
|---|
| Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur (CAHN) |

### 1.2 Beth ydi pwrpas y polisi/gwasanaeth sy'n cael ei greu neu ei newid? Pa newidiadau sy'n cael eu hystyried?

| |
|---|
| Rhoi arweiniad i aelodau etholedig a gweithlu Cyngor Gwynedd ac i drigolion Gwynedd yn ehangach ynghylch y camau sydd angen eu cymryd er mwyn i allyriadau carbon y Cyngor gyrraedd sero-net erbyn 2030.<br>Mae'r CAHN yn esbonio pam bod angen ymateb i effeithiau newid hinsawdd sydd eisoes wedi digwydd yn ogystal â pham bod angen lleihau y cynnydd mewn tymheredd byd eang i'r dyfodol. Gan ddilyn ymlaen o hynny, mae'n egluro pa gamau fydd y cyngor yn eu cymryd er mwyn newid ei drefniadau gweithio er mwyn lleihau ei allyriadau carbon ac i gynyddu gallu'r tiroedd y mae'n berchen arnynt i amsugno carbon. |

### 1.3 Pwy sy'n gyfrifol am yr asesiad yma?

| |
|---|
| Bethan Richardson – Rheolwr Rhaglen Newid Hinsawdd (dros dro). |

### 1.4 Pryd wnaethoch chi gychwyn yr asesiad? Pa fersiwn yw hwn?

| |
|---|
| Fersiwn 1 – Chwefror 2022. |

## 2) Gweithredu

### 2.1 Pwy yw'r budd-ddeiliaid neu bartneriaid fydd yn rhaid gweithio hefo nhw i wneud yr asesiad yma?

| |
|---|
| Bydd holl drigolion Gwynedd yn cael eu heffeithio gan gynhesu byd eang, ond mae yna rai effeithiau newid hinsawdd sy'n mynd i gael mwy o effaith ar rai trigolion nag eraill, ee: trigolion sy'n byw mewn ardaloedd sy'n fwy debygol o ddioddef llifogydd neu trigolion sy'n byw mewn tlodi tanwydd.<br>Mae'r CAHN angen ei weithredu ar y cyd â nifer o sefydliadau eraill a chyda cymunedau ar draws Gwynedd. Er fod y cynllun yn ei wedd bresennol yn canolbwyntio ar newid arferion gweithio a darpariaeth gan y cyngor ei hun, dros y flwyddyn i ddod byddwn yn trafod gyda sefydliadau eraill a chymunedau Gwynedd sut allwn ni ymestyn y cynllun. |

### 2.2 Pa gamau ydych chi wedi ei cymryd i ymgysylltu gyda pobl hefo nodweddion gwarchodedig, ynglŷ n â'r iaith Gymraeg neu â chymunedau (un ai oherwydd lleoliad neu oherwydd angen) sy'n byw ag anfantais economaidd-gymdeithasol?

| |
|---|
| Rydym wedi bod yn ymgynghori â chymunedau ar draws Gwynedd am eu blaenoriaethau i adfywio eu hardal leol drwy'r cynllun Adfywio Lleol (Ardal Ni). Mae'r gwaith hwnnw wedi ei gynnal ar-lein a wyneb yn wyneb (gan ddilyn rheolau Covid-19) er mwyn rhoi cyfle i gymaint o bobl a phosib i fedru cyfrannu. Mae'r angen i ymateb i broblemau hinsawdd a natur wedi eu hadnabod ym mhob ardal, a byddwn yn mynd yn ôl i drafod ymhellach gyda chymunedau lleol sut orau y gall y cyngor gydweithio â chymunedau a sefydliadau eraill er mwyn ceisio goresgyn yr heriau.<br>Rydym wedi bod yn ymgynghori â chymunedau sy'n cael eu heffeithio'n uniongyrchol gan y perygl o lifogydd, ac wedi llunio cynlluniau i ymateb i'r bygythiad hwnnw ar y cyd â'r cymunedau hynny – gan ystyried anghenion yr holl drigolion.<br>Byddwn yn ymgysylltu'n ehangach gyda phartneriaid ar draws bob sector, a gyda chymunedau lleol, yn ystod 2022/23 er mwyn datblygu'r Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur ymhellach. |

| |
|---|
| Byddwn yn ymgysylltu â rhai cymunedau penodol o bobl – ee. defnyddwyr cynllun hwb bwyd cymunedol, i sicrhau bod ein prosiectau yn cyfarch eu anghenion yn ogystal â'r nod o leihau gwastraff bwyd. |

**2.3 Beth oedd canlyniad yr ymgysylltu?**

| |
|---|
| Mae'r ymgysylltu ar gynlluniau i ymateb i lifogydd wedi arwain at greu cynlluniau i ymateb i ddigwyddiad o lifogydd. Mae'r ymgysylltu ar y cynllun Adfywio Lleol wedi amlygu bod cymunedau yn awyddus i weithredu er mwyn lleihau effaith newid hinsawdd. |

**2.4 Ar sail pa dystiolaeth arall ydych chi'n gweithredu?**

| |
|---|
| Mae gennym ddata am faint o boblogaeth Gwynedd, a beth yw'r is-adeiledd, sydd mewn perygl o ddioddef yn sgil llifogydd. Rydym yn gwybod bod demograffeg poblogaeth rhai ardaloedd sy'n debygol o ddioddef o lifogydd yn golygu y bydd nifer uchel o bobl hŷn yn cael eu heffeithio. Byddwn yn llunio Asesiadau Effaith Cydraddoldeb ar wahân ar rai o'r prosiectau unigol o fewn y CAHN a gallant amlygu tystiolaeth bellach. |

**2.5 Oes yna unrhyw fylchau yn y dystiolaeth sydd angen ei gasglu?**

| |
|---|
| Mae'r Cyfrifiad yn rhoi data i ni am ddemograffeg cymunedau daearyddol ond ni fydd yn rhoi gwybodaeth lawn i ni am bob un o'r 5 nodwedd gwarchodedig. Byddai angen i ni gadw golwg am wybodaeth bellach am nodweddion megis cyfeiriadaeth rhywiol neu gred/crefydd wrth i ni gynnal ymgynghoriadau gyda chymunedau, a gweithredu ar unrhyw dystiolaeth bod yr rhain ddim yn cael sylw teilwng. Gan y bydd y CAHM yn cael ei adolygu erbyn 2023/24 byddwn hefyd yn addasu'r Asesiad Effaith Cydraddoldeb hwn, ac yn cyfarch unrhyw wendidau. |

## 3) Adnabod yr Effaith

**3.1 Mae'n rhaid i'r Cyngor roi sylw dyledus i'r effaith fydd unrhyw newidiadau'n ei gael ar bobl hefo nodweddion cydraddoldeb isod. Beth yw'r effaith fydd y polisi/gwasanaeth newydd neu'r newidiadau arfaethedig yn ei gael ar bobl hefo'r nodweddion hyn? Mae hefyd angen ystyried yr effaith ar anfantais economaidd-gymdeithasol ac ar y Gymraeg.**

| Nodweddion | Sut fath o effaith? * | Ym mha ffordd? Beth yw'r dystiolaeth? |
|---|---|---|
| **Hil (gan gynnwys cenedligrwydd)** | Dim wedi ei adnabod | Nid oes unrhyw gynlluniau unigol yn ymwneud â'r nodwedd yma. Bydd angen i'r Asesiadau Effaith Cydraddoldeb ar y cynlluniau unigol adnabod os oes materion i'w hystyried. |

| | | |
|---|---|---|
| **Anabledd** | Positif | Er bod canlyniadau newid hinsawdd yn effeithio ar bob person, byddai peidio ymateb i'r canlyniadau yn effeithio ar bobl anabl yn waeth na gweddill y boblogaeth.<br>Mae'r CAHN yn ceisio ymateb i broblemau a achosir gan lifogydd, gan obeithio lleihau'r tebygolrwydd o lifogydd yn y lle cyntaf, ac yn cynllunio sut i ymateb pan ddaw achosion o lifogydd. Mae'r cynlluniau ymateb hyn yn ystyried yr angen i gynnig cymorth addas neu ychwanegol i bobl anabl.<br>Bydd y Strategaeth Llifogydd Lleol, gaiff ei datblygu yn ystod 2022 ac a fydd yn cyfrannu at y CAHN, yn rhoi ystyriaeth i greu mynediad hwylus ar gyfer pobl anabl wrth gynllunio amddiffynfeydd llifogydd.<br>Bydd ein cynlluniau i osod pwyntiau gwefru ceir trydan ar draws y sir yn cynyddu hygyrchedd trigolion sy'n byw mewn cymunedau gwledig at drafnidiaeth garbon isel neu ddi-garbon. Byddant yn gallu defnyddio cerbydau trydan sydd wedi eu haddasu i'w anghenion heb orfod dibynnu ar fodur tanwydd ffosil. Bydd angen bod yn ymwybodol, ar yr un pryd, bod y pwyntiau gwefru yn cael eu gosod mewn mannau sy'n hygyrch ac yn ddiogel i bobl anabl.<br>Mae'r cyngor hefyd yn annog staff ac aelodau etholedig i flaenoriaethu dulliau rhithiol o gynnal cyfarfodydd ac i gyflawni eu gwaith. Gall hynny gynyddu'r cyfleoedd i bobl anabl i gyflawni eu gwaith o gartref, neu o leoliad sy'n gyfleus iddynt, heb orfod teithio i leoliad megis swyddfa. Ar y llaw arall, bydd angen i ni hefyd sicrhau bod gan bobl anabl yr offer addas iddynt fedru cyflawni eu gwaith o gartref yn ddiogel ac effeithlon.<br>Mae ein cynlluniau teithio llesol a phrosiectau bioamrywiaeth yn cyfrannu'n bositif at les a iechyd meddwl trigolion ac ymwelwyr i Wynedd. Mae mynediad at fyd natur a llefydd gwyrdd wedi ei brofi i fod yn ffactor bositif mewn cynnal iechyd meddwl iach.<br>Byddwn yn ymgynghori ymhellach ar y CAHN yn ystod 2022/23 gyda chymunedau Gwynedd – drwy dduliau ar-lein a wyneb yn wyneb. Bydd nifer o'r ymgynghoriadau yn cael eu cynnal ar y cyd â thrafodaethau ar y cynlluniau Adfywio Lleol/Ardal Ni ac felly bydd angen i ni sicrhau bod gan bobl anabl fynediad at unrhyw ddigwyddiad er mwyn i ni gael casglu eu barn.<br>Bydd prosiectau unigol newydd a restrir yn y CAHN yn cynnal asesiadau effaith cydraddoldeb eu hunain. |
| **Rhyw** | Dim wedi ei adnabod | Nid oes unrhyw gynlluniau unigol yn ymwneud â'r nodwedd yma. Bydd angen i'r Asesiadau Effaith Cydraddoldeb ar y cynlluniau unigol adnabod os oes materion i'w hystyried.<br>Byddwn yn ymgynghori ymhellach ar y CAHN yn ystod 2022/23 gyda chymunedau Gwynedd – drwy dduliau ar-lein a wyneb yn wyneb. Bydd nifer o'r ymgynghoriadau yn cael eu cynnal ar y cyd â thrafodaethau ar y cynlluniau Adfywio Lleol/Ardal Ni ac felly bydd angen i ni sicrhau nad yw rhyw |

| | | |
|---|---|---|
| | | person yn rwystr iddynt gael mynediad agored at unrhyw ddigwyddiad er mwyn i ni gael casglu eu barn. |
| **Oedran** | Positif | Os nag ydym yn ymateb i effeithiau newid hinsawdd ac yn lleihau'r tebygolrwydd o gynhesu byd eang, yna bydd grwpiau oedran ifanc a hŷn yn cael eu heffeithio yn waeth nag eraill. Byddai'r ddau grŵp oedran yma angen cymorth ychwanegol er mwyn diogelu eu hunain – ee. mewn achosion o lifogydd; i ganfod bwyd os oes bygythiad i'n gallu i dyfu cnydau; i deithio os nag oes trafnidiaeth gyhoeddus. Mae ein cynlluniau teithio llesol, ein cynlluniau i dyfu a phlannu coed a chreu cynefinoedd natur yn mynd i fod o gymorth i addysg a lles y ddau grŵp oedran.<br>Byddwn yn ymgynghori ymhellach ar y CAHN yn ystod 2022/23 gyda chymunedau Gwynedd – drwy dduliau ar-lein a wyneb yn wyneb. Bydd nifer o'r ymgynghoriadau yn cael eu cynnal ar y cyd â thrafodaethau ar y cynlluniau Adfywio Lleol/Ardal Ni ac felly bydd angen i ni sicrhau nad yw oedran person yn rwystr iddynt gael mynediad agored at unrhyw ddigwyddiad er mwyn i ni gael casglu eu barn<br>Bydd prosiectau unigol newydd a restrir yn y CAHN yn cynnal asesiadau effaith cydraddoldeb eu hunain. |
| **Cyfeiriadedd rhywiol** | Dim wedi ei adnabod | Nid oes unrhyw gynlluniau unigol yn ymwneud â'r nodwedd yma. Bydd angen i'r Asesiadau Effaith Cydraddoldeb ar y cynlluniau unigol adnabod os oes materion i'w hystyried.<br>Byddwn yn ymgynghori ymhellach ar y CAHN yn ystod 2022/23 gyda chymunedau Gwynedd – drwy dduliau ar-lein a wyneb yn wyneb. Bydd nifer o'r ymgynghoriadau yn cael eu cynnal ar y cyd â thrafodaethau ar y cynlluniau Adfywio Lleol/Ardal Ni ac felly bydd angen i ni sicrhau nad yw cyfeiriadedd rhywiol person yn rwystr iddynt gael mynediad agored at unrhyw ddigwyddiad er mwyn i ni gael casglu eu barn |
| **Crefydd neu gred (neu ddiffyg cred)** | Dim wedi ei adnabod | Nid oes unrhyw gynlluniau unigol yn ymwneud â'r nodwedd yma. Bydd angen i'r Asesiadau Effaith Cydraddoldeb ar y cynlluniau unigol adnabod os oes materion i'w hystyried.<br>Byddwn yn ymgynghori ymhellach ar y CAHN yn ystod 2022/23 gyda chymunedau Gwynedd – drwy dduliau ar-lein a wyneb yn wyneb. Bydd nifer o'r ymgynghoriadau yn cael eu cynnal ar y cyd â thrafodaethau ar y cynlluniau Adfywio Lleol/Ardal Ni ac felly bydd angen i ni sicrhau nad yw crefydd neu gred person yn rwystr iddynt gael mynediad agored at unrhyw ddigwyddiad er mwyn i ni gael casglu eu barn |
| **Ailbennu rhywedd** | Dim wedi ei adnabod | Nid oes unrhyw gynlluniau unigol yn ymwneud â'r nodwedd yma. Bydd angen i'r Asesiadau Effaith Cydraddoldeb ar y cynlluniau unigol adnabod os oes materion i'w hystyried. |

| | | |
|---|---|---|
| **Beichiogrwydd a mamolaeth** | Dim wedi ei adnabod | Nid oes unrhyw gynlluniau unigol yn ymwneud â'r nodwedd yma. Bydd angen i'r Asesiadau Effaith Cydraddoldeb ar y cynlluniau unigol adnabod os oes materion i'w hystyried. Byddwn yn ymgynghori ymhellach ar y CAHN yn ystod 2022/23 gyda chymunedau Gwynedd – drwy dduliau ar-lein a wyneb yn wyneb. Bydd nifer o'r ymgynghoriadau yn cael eu cynnal ar y cyd â thrafodaethau ar y cynlluniau Adfywio Lleol/Ardal Ni ac felly bydd angen i ni sicrhau nad yw beichiogrwydd merch yn rwystr iddynt gael mynediad agored at unrhyw ddigwyddiad er mwyn i ni gael casglu eu barn |
| **Priodas a phartneriaeth sifil** | Dim wedi ei adnabod | Nid oes unrhyw gynlluniau unigol yn ymwneud â'r nodwedd yma. Bydd angen i'r Asesiadau Effaith Cydraddoldeb ar y cynlluniau unigol adnabod os oes materion i'w hystyried. Byddwn yn ymgynghori ymhellach ar y CAHN yn ystod 2022/23 gyda chymunedau Gwynedd – drwy dduliau ar-lein a wyneb yn wyneb. Bydd nifer o'r ymgynghoriadau yn cael eu cynnal ar y cyd â thrafodaethau ar y cynlluniau Adfywio Lleol/Ardal Ni ac felly bydd angen i ni sicrhau nad yw'r nodwedd hon yn rwystr i berson gael mynediad agored at unrhyw ddigwyddiad er mwyn i ni gael casglu eu barn |
| **Yr iaith Gymraeg** | Positif | Bydd yr holl gynlluniau a enwir yn y CAHN yn cael eu cynnal a'u hyrwyddo yn Gymraeg neu'n ddwyieithog yn unol â pholisi iaith y Cyngor.<br>Mae'r CAHN am gyfrannu at gynlluniau rhanbarthol i wella isadeiledd ynni a thrafnidiaeth 'gwyrdd' ac felly fe ddylai pob cymuned – gwledig a threfol – elwa'n gyfartal. Bydd ein cynlluniau i osod pwyntiau gwefru ceir trydan ar draws y sir yn cynyddu hygyrchedd trigolion sy'n byw mewn cymunedau gwledig at drafnidiaeth garbon isel neu ddi-garbon. Bydd hyn oll yn golygu y gall trigolion sy'n siarad Cymraeg barhau i fyw yn eu cymunedau lleol. |
| **Anfantais Economaidd-Gymdeithasol** | Positif | Yn unol â bwriad Llywodraeth Cymru yn Cymru Sero Net: Cyllideb Garbon 2 (2021-25) ni ddylai ein dulliau i leihau allyriadau carbon gael fwy o effaith ar rai carfanau o gymdeithas nag eraill – hy. dylem 'sicrhau na chaiff unrhyw un ei adael ar ôl'.<br>Mae'r CAHN yn annog y defnydd o geir preifat trydan, ond hefyd yn cydnabod, ar hyn o bryd beth bynnag, bod eu cost y tu hwnt i gyrraedd nifer fawr o bobl. Byddwn felly hefyd yn cydweithio ag eraill i ddatblygu rhwydwaith o drafnidiaeth gyhoeddus garbon isel.<br>Mae nifer o'r cynlluniau unigol, yn ogystal cheisio lleihau gwastraff, hefyd yn ceisio lleihau tlodi ariannol. Bydd y cynlluniau 'caffi trwsio', hybiau bwyd Cymunedol, a'n cefnogaeth i bartneriaid sy'n cynorthwyo trigolion gyda thlodi tanwydd oll yn helpu trigolion sydd o dan anfantais economaidd gymdeithasol. |

* I'w ddileu yn ôl yr angen

**3.2 Mae'n ddyletswydd ar y Cyngor dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 i gyfrannu'n bositif i gymdeithas decach trwy hybu cydraddoldeb a pherthynas dda yn ei weithgareddau ym meysydd oedran, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, crefydd, hil, trawsrywedd, anabledd a beichiogrwydd a mamolaeth. Mae'n rhaid i'r Cyngor roi sylw dyledus i'r ffordd mae unrhyw newid yn effeithio'r dyletswyddau yma.**

| Dyletswyddau Cyffredinol y Ddeddf Cydraddoldeb | A yw'n cael effaith?* | Ym mha ffordd? Beth yw'r dystiolaeth? |
|---|---|---|
| **Cael gwared â cham-wahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth** | Ydi | Dylai'r cynllun yn ei gyfanrwydd a'r cynlluniau unigol gael effaith bositif ar y ddyletswydd. Bydd angen i'r Asesiadau Effaith Cydraddoldeb ar y cynlluniau unigol adnabod os oes materion i'w hystyried. |
| **Hyrwyddo cyfleoedd cyfartal** | Ydi | Yn unol â bwriad Llywodraeth Cymru yn Cymru Sero Net: Cyllideb Garbon 2 (2021-25) dylem 'sicrhau na chaiff unrhyw un ei adael ar ôl'. Wrth ymgysylltu ar y CAHN a thrwy ei weithredu byddwn yn sicrhau bod gan bawb fynediad cyfartal at wybodaeth am effeithiau newid hinsawdd ac yn gallu cyfrannu at y drafodaeth yn y maes. |
| **Meithrin perthnasau da** | Ydi | Wrth ymgysylltu ar y CAHN a thrwy ei weithredu byddwn yn sicrhau bod gan bawb fynediad cyfartal at wybodaeth am effeithiau newid hinsawdd ac yn gallu cyfrannu at y drafodaeth yn y maes. Drwy gyd-drafod datrysiadau i broblemau newid hinsawdd gallwn ddod â chymunedau yn nes at ei gilydd. |

* I'w ddileu yn ôl yr angen

**3.3 Sut mae eich cynnig yn sicrhau eich bod yn gweithio yn unol â gofynion Safonau'r Iaith Gymraeg (Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011), i sicrhau na chaiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg, ac y manteisir ar bob cyfle i hyrwyddo'r Gymraeg (y tu hwnt i ddarparu gwasanaethau'n ddwyieithog) a chynyddu cyfleoedd i ddefnyddio a dysgu'r iaith yn y gymuned?**

| |
|---|
| Yn ychwanegol at yr wybodaeth o dan benawdau 'yr iaith Gymraeg' yn 3.1, bydd y CAHN yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg drwy'r gweithredoedd canlynol –<br>Bydd pob arwydd a deunyddiau gwybodaeth a hysbysebu yn cael eu cyhoeddi yn ddwyieithog gyda'r Gymraeg yn gyntaf, yn unol â pholisi iaith y Cyngor.<br>Bydd prosiectau yn y maes 'defnydd tir' ac 'ecoleg' sydd wedi eu targedu at blant a phobl ifanc yn cynyddu eu gwybodaeth a hyder yn y Gymraeg y tu allan i'r ystafell ddosbarth. |

Byddwn yn cydweithio gyda sefydliadau cymunedol i gynnal gweithgareddau fydd yn addysgu am newid hinsawdd ac ar brosiectau ymarferol i ymateb i effeithiau newid hinsawdd – oll drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg, gyda'r Gymraeg yn cael y flaenoriaeth.

**3.4 Pa fesurau neu newidiadau eraill y gallech eu cynnwys i gryfhau neu newid y polisi / arfer er mwyn cael effaith gadarnhaol ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg, ac i leihau neu atal unrhyw effeithiau andwyol y gallai'r polisi/ymarfer ei gael ar yr iaith Gymraeg?**

Wrth fonitro'r cynllun byddwn yn chwilio am unrhyw broblemau allasai awgrymu nad yw polisi iaith y cyngor yn cael ei ddilyn, a chywiro hynny.

**3.5 Sut mae'r cynnig yn dangos eich bod wedi rhoi sylw dyledus i'r angen i fynd i'r afael ag anghyfartaledd o achos anfantais economaidd-gymdeithasol? (Sylwch fod hyn yn ymwneud â chau bylchau anghydraddoldeb yn hytrach na gwella canlyniadau i bawb yn unig).**

Yn unol â bwriad Llywodraeth Cymru yn Cymru Sero Net: Cyllideb Garbon 2 (2021-25) ni ddylai ein dulliau i leihau allyriadau carbon gael fwy o effaith ar rai carfanau o gymdeithas nag eraill – hy. dylem 'sicrhau na chaiff unrhyw un ei adael ar ôl'.
Mae'r CAHN yn annog y defnydd o geir preifat trydan, ond hefyd yn cydnabod, ar hyn o bryd beth bynnag, bod eu cost y tu hwnt i gyrraedd nifer fawr o bobl. Byddwn felly hefyd yn cydweithio ag eraill i ddatblygu rhwydwaith o drafnidiaeth gyhoeddus garbon isel.
Mae nifer o'r cynlluniau unigol, yn ogystal cheisio lleihau gwastraff, hefyd yn ceisio lleihau tlodi ariannol. Bydd y cynlluniau 'caffi trwsio', hybiau bwyd Cymunedol, a'n cefnogaeth i bartneriaid sy'n cynorthwyo trigolion gyda thlodi tanwydd oll yn helpu trigolion sydd o dan anfantais economaidd gymdeithasol.

**3.6 Pa fesurau neu newidiadau eraill y gallech eu cynnwys i gryfhau neu newid y polisi / arfer i ddangos eich bod wedi rhoi sylw dyledus i'r angen i leihau canlyniadau anghyfartal o ganlyniad i anfantais economaidd-gymdeithasol, yn unol â'r Ddeddf Economaidd-Gymdeithasol?**

Byddwn yn ymgynghori â thrigolion Gwynedd ar gynnwys y CAHN yn ystod 2022/23, a chan ein bod hefyd yn adolygu'r cynllun yn flynyddol byddwn yn ymgorffori unrhyw newidiadau fydd angen eu gwneud erbyn y fersiwn ddiwygiedig ar gyfer 2023/24. Bydd hyn yn ychwanegol i'r cynlluniau y cyfeirir atynt yn 3.2 a 3.5.
Bydd angen i'r Asesiadau Effaith Cydraddoldeb ar y cynlluniau unigol adnabod os oes materion i'w hystyried.

## 4) Dadansoddi'r canlyniadau

**4.1 Ydi'r polisi felly'n debygol o gael effaith sylweddol, bositif ar unrhyw un o'r uchod? Beth yw'r rheswm am hyn?**

| |
|---|
| Mae'r CAHN yn cael effaith bositif, neu does dim effaith wedi ei adnabod, ar yr holl nodweddion cydraddoldeb. Bydd asesiadau effaith cydraddoldeb yn cael ei cwblhau ar gyfer prosiectau unigol.<br>Mae effaith newid hinsawdd yn taro pob aelod o gymdeithas, ac felly wrth i ni gynllunio ein ymateb i'r effeithiau hynny rydym yn darparu ar sail gwahanol anghenion – ee. amddiffynfeydd a chynlluniau ymateb i lifogydd. |

**4.2 Ydi'r polisi felly'n debygol o gael effaith sylweddol, negyddol ar unrhyw un o'r uchod? Beth yw'r rheswm am hyn?**

| |
|---|
| Nid oes effeithiau negyddol sylweddol wedi eu hadnabod ar gyfer y CAHN yn ei gyfanrwydd, ond bydd asesiadau effaith cydraddoldeb yn cael ei cwblhau ar gyfer prosiectau unigol. |

**4.3 Beth ddylid ei wneud?**

Dewiswch un o'r canlynol:

| | |
|---|---|
| Parhau gyda'r polisi / gwasanaeth gan ei fod yn gadarn | **X** |
| Addasu'r polisi i ddileu unrhyw rwystrau | |
| Atal a dileu'r polisi gan fod yr effeithiau niweidiol yn rhy fawr | |
| Parhau a'r polisi oherwydd gellir cyfiawnhau unrhyw effaith niweidiol | |
| Dim camau pellach ar hyn o bryd, mae'n gynamserol i benderfynu, neu does dim digon o dystiolaeth | |

**4.4 Os yn parhau hefo'r cynllun, pa gamau fyddwch chi'n cymryd i leihau neu liniaru unrhyw effeithiau negyddol?**

| |
|---|
| Nid yw'n berthnasol i'r cynllun yn ei gyfanrwydd. |

**4.5 Os nad ydych yn gweithredu ymhellach i ddileu neu leihau effeithiau negyddol, esboniwch pam yma.**

| |
|---|
| Nid yw'n berthnasol i'r cynllun yn ei gyfanrwydd. |

## 5) Monitro

### 5.1 Pa gamau fyddwch chi'n gymryd i fonitro effaith ac effeithiolrwydd y polisi neu wasanaeth (cynllun gweithredu)?

| |
|---|
| Bydd y cynllun hwn yn cael ei fonitro'n rheolaidd drwy drefniadau monitro perfformiad mewnol y Cyngor, a bydd gwybodaeth am ddatblygiad y cynllun yn cael ei rannu'n gyhoeddus drwy Adroddiadau Perfformiad Aelodau Cabinet i gyfarfodydd y Cabinet, a thrwy Adroddiad Perfformiad Blynyddol Cyngor Gwynedd. Mae gennym Fwrdd Newid Hinsawdd sy'n rhoi arweiniad strategol i'r gwaith, ac mae'n cynnwys Arweinydd y Cyngor, Aelodau Cabinet, Prif Weithredwr, Prif Swyddogion, Pencampwr Bioamrywiaeth a chynrychiolydd o'r Pwyllgor Craffu Cymunedau.<br>Un elfen o'r monitro rheolaidd yw casglu data ar lefelau allyriadau ac amsugno carbon, a byddwn yn gwneud hynny drwy ddilyn methodoleg Llywodraeth Cymru (Canllaw Sector Cyhoeddus Cymru ar gyfer Adrodd ar Garbon Sero-net) gan addasu ein methodoleg yn ogystal os daw arweiniad i wneud hynny. Bydd canlyniadau data blynyddol yn rhan o Adroddiad Perfformiad Blynyddol Cyngor Gwynedd, ac yn dilyn eu cyhoeddi byddwn hefyd yn adolygu'r cynllun hwn er mwyn sicrhau ein bod ar y trywydd cywir er mwyn gwireddu ein uchelgais erbyn 2030.<br>Wrth adolygu'r CAHN ar gyfer 2022/23 byddwn hefyd yn adolygu'r Asesiad Effaith Cydraddoldeb hwn. |

Eitem 7

# CABINET CYNGOR GWYNEDD

## Adroddiad i gyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y cyfarfod:** | **08 Mawrth 2022** |
| **Aelod Cabinet:** | **Y Cynghorydd Dafydd Meurig** |
| **Swyddog Cyswllt:** | **Aled Davies**<br>**Pennaeth Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant** |
| **E-bost Cyswllt:** | **aled@gwynedd.llyw.cymru** |
| **Teitl yr Eitem:** | **Ffioedd Cartrefi Preswyl a Nyrsio ar gyfer 2022/23** |

### 1. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

1. Cytuno ar ffioedd safonol cartrefi annibynnol preswyl a nyrsio ar gyfer 2022/23, a'u gweithredu yn unol ag amodau a thelerau'r Cyngor ar y lefelau a ganlyn:

| | |
|---|---|
| ***Preswyl*** | £627 |
| ***Preswyl EMI*** | £695 |
| ***Nyrsio*** | £731 |
| ***Nyrsio EMI*** | £774 |

2. Gofyn am adroddiad pellach ar y mater i ystyried priodoldeb adolygiad o lefel y ffioedd ar gyfer y flwyddyn.

### 2. Y RHESWM DROS YR ANGEN AM BENDERFYNIAD

Mae'r Cyngor yn gosod ffi yn flynyddol ar gyfer lleoliadau mewn cartrefi gofal (preswyl a nyrsio) o fewn y sector preifat.

Mae'r Cyngor angen gosod ffi cyn Ebrill 2022 er mwyn caniatáu ar gyfer gweithredu. Ar gyfer 2022/23 mae cyfle i'r Cyngor ystyried posibilrwydd ffi uwch ar gyfer lefelau staff, yn ogystal â chostau chwyddiant blynyddol. Fodd bynnag, bydd angen gwaith pellach ar yr agweddau ariannol o hyn cyn gallu dod i benderfyniad.

### 3. CEFNDIR

3.1 Un o'r prif risgiau o fewn y maes gofal yw cynaliadwyedd y farchnad gofal a bydd aelodau yn ymwybodol ei fod wedi'i gynnwys o fewn Cofrestr Risg y Cyngor. Un o'r

ffactorau pwysicaf o ran ceisio ymateb i'r risg o sefydlogrwydd a chynaliadwyedd o fewn y farchnad, yn enwedig y cartrefi nyrsio a chartrefi dementia, yw sicrhau bod y ffioedd sydd yn cael eu gosod gan y Cyngor yn caniatáu'r cartrefi hyn i fod yn hyfyw yn ariannol, sydd yn ei dro yn caniatáu'r cartrefi i dalu staff yn deg am eu gwaith ac, wrth gwrs, darparu gofal o safon i'r trigolion.

3.2 Eleni, mae'r setliad y mae'r Cyngor wedi'i dderbyn gan y Llywodraeth wedi bod yn uwch na'r hyn yr ydym wedi ei dderbyn ers sawl blwyddyn. Er nad yw'n ddigon i fod yn ymateb i bob gofyn sydd gan wasanaethau a thrigolion Gwynedd, mae cyfle i fod yn ymateb yn llawnach i'r gofynion o fewn y farchnad ofal na'r hyn sydd wedi bod yn bosib yn y gorffennol.

3.3 Yn dilyn datganiad diweddar gan Lywodraeth Cymru i dalu Cyflog Byw Gwirioneddol (*Real Living Wage*) i staff gofal o fis Ebrill ymlaen, mae'r Cyngor wedi derbyn swm ariannol o fewn y setliad er mwyn adlewyrchu hyn o fewn ffioedd darparwyr.

3.4 O ran y broses o sefydlu'r ffioedd, mae'r Cyngor yn cymryd rhan mewn trefn ranbarthol, sydd yn asesu'r costau o gynnal gwasanaeth safonol yn seiliedig ar ystyriaethau megis:

a) Cyflog/tâl
b) Lefelau Staffio sydd ei angen er mwyn ymateb i anghenion trigolion – defnyddir holiadur a model Laing & Buisson
c) Chwyddiant (Mynegai Prisiau Defnyddwyr [CPI] / Mynegai Prisiau Manwerthu [RPI])
ch) Taliadau yswiriant

3.5 Mae'r gwaith uchod wedi'i gynnal eto eleni. Fel rhanbarth gogledd Cymru mae grŵp tasg wedi ei sefydlu, ac un o'r ymarferiadau sydd wedi digwydd yn ddiweddar yw cymharu ein ffioedd safonol cyfredol gyda'r hyn sy'n cael ei awgrymu gan y 'Toolkit Laing & Buisson'. Mae'r gwahaniaeth ariannol fesul y 4 categori gofal sydd gennym yn sylweddol. Mae gwaith o gasglu tystiolaeth a chynnal trafodaethau gyda'r darparwyr lleol hefyd wedi cymryd lle ac angen ei ddatblygu ymhellach dros yr wythnosau nesaf. Byddwn angen cyfle i ystyried yr holl oblygiadau i ddefnyddwyr gwasanaeth, darparwyr a rhanddeiliaid eraill cyn dod i gasgliad terfynol ar y ffioedd ar gyfer y flwyddyn i ddod.

3.6 Y bwriad yw bod y chwe sir yn ceisio cytuno ar yr un opsiwn er mwyn cael cysondeb rhanbarthol. Ond gall siroedd ddewis opsiwn gwahanol yn ddibynnol ar ba mor fforddiadwy yw'r opsiynau gwahanol iddynt i'r tymor hirach.

3.7 Gwyddwn y bydd lefel y setliad ar gyfer y ddwy flynedd nesaf, ar ôl 2022/23, yn debycach i'r lefelau arferol. Fodd bynnag, eleni mae cyfle i fod yn ceisio ymateb i'r cynnydd yn y ffioedd sydd ei angen er mwyn adlewyrchu yn iawn y costau o redeg cartrefi gofal i'r safon ddisgwyliedig, ond er mwyn dod i'r casgliad hwnnw mae gwaith trylwyr ariannol ar fforddiadwyedd angen cymryd lle.

3.8 Mae’r swm yn amcan o’r gost ychwanegol fyddai angen arnom fel awdurdod pe byddem yn cynyddu ein ffioedd safonol i’r lefelau sy’n cael eu hawgrymu gan y 'Toolkit' diweddaraf a'r dystiolaeth gan ein darparwyr lleol. Mae’r amcan hefyd yn cymryd i ystyriaeth yr incwm sy’n cael ei gasglu gan unigolion sy’n gallu cyfrannu / talu am eu gofal

3.9 Gweler isod y tablau sy’n nodi’r opsiynau o ffi wythnosol fesul gwely gerbron:

| | **2021/22** | **2022/23** | | |
|---|---|---|---|---|
| | **Y Ffi** | **Opsiwn 1** | **Opsiwn 2** | **Opsiwn 3** |
| ***Preswyl*** | £586 | £615 | £627 | £671 |
| ***Preswyl EMI*** | £651 | £681 | £695 | £768 |
| ***Nyrsio*** | £684 | £716 | £731 | £756 |
| ***Nyrsio EMI*** | £722 | £757 | £774 | £880 |

| | |
|---|---|
| **Opsiwn 1** | Cyflog Byw Cenedlaethol, CPI a dim newid i lefel staffio |
| **Opsiwn 2** | Cyflog Byw Gwirioneddol, CPI yswiriant 10%, a dim newid i lefel staffio |
| **Opsiwn 3** | Cyflog Byw Gwirioneddol, CPI, yswiriant 10%, cynyddu lefelau staffio drwy gymryd cyfartaledd o adborth o’r holiadur a chanfyddiadau’r toolkit Laing & Buisson |

3.10 Opsiwn ffafriedig yr adran yw opsiwn 3, ond mae angen rhagor o amser er mwyn sicrhau ein bod yn fyw i holl oblygiadau cynyddu’r ffioedd i gyd-fynd ag opsiwn 3, gan gynnwys sicrhau fod yr opsiwn hwn yn fforddiadwy, nid yn unig ar gyfer eleni, ond ar gyfer blynyddoedd ariannol i ddod.

3.11 Gan fod angen rhagor o amser i gwblhau asesiad llawn, mae’r adran yn gofyn i’r aelodau gytuno i Opsiwn 2 uchod fel bod modd i ddarparwyr gael ffi fydd yn eu galluogi i dalu'r Cyflog Byw Gwirioneddol ac ymdrin â materion chwyddiant, tra bod y Cyngor yn edrych oblygiadau ar fforddiadwyedd opsiwn 3.

3.12 Mae’r Cyngor yn ddarostyngedig i dyletswyddau sector cyhoeddus dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 (gan gynnwys dyletswyddau sector gyhoeddus Cymreig). Yn unol â’r dyletswyddau cyfreithiol yma wrth wneud penderfyniadau mae rhaid i’r Cynghorau dalu sylw dyledus i’r angen (1) i ddiddymu gwahaniaethu anghyfreithiol (2) hyrwyddo cyfle cyfartal a (3) meithrin perthnasau da ar sail y nodweddion gwarchodedig. A rhoddir sylw dyledus i’r ddyletswydd cymdeithasol economaidd dan Adran 1 o’r Ddeddf. Paratowyd asesiad ardrawiad cydraddoldeb sydd wedi’i atodi yn Atodiad 1. Mae gofyn i’r Cabinet ddal sylw at ei ganfyddiadau wrth ddod i benderfyniad. Nid yw’r asesiad yn adnabod unrhyw ardrawiad penodol yn deillio o’r penderfyniad.

3.13 Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ymwneud â gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'r ddeddf yn gosod dyletswydd llesiant ar gyrff cyhoeddus sydd wedi'i anelu at gyflawni 7 o nodau lleisant, sef Cymru sydd yn lewyrchus, gydnerth, iachach, mwy cyfartal gyda chymunedau cydlynus a diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu ac sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang. Mae'r argymhelliad wedi'i baratoi gan ddal sylw at ofynion y Ddeddf.

## 4. RHESYMEG A CHYFIAWNHAD DROS ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

4.1 Mae'r Adran yn ffafrio opsiwn sydd yn adlewyrchu opsiwn 3, ond oherwydd goblygiadau ariannol yr opsiwn yma, mae angen gwneud gwaith manwl ar y goblygiadau a'r fforddiadwyedd hirdymor. Nid oes modd oedi ar osod ffi ar gyfer 2022/23 gan fod angen i ddarparwyr a'r Cyngor fel comisiynwr gael ffi er mwyn gweithredu trefniadau lleoliadau.

4.2 Wrth gyhoeddi setliad drafft 2022/23 yn Rhagfyr 2021, mae Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau bydd Awdurdodau Lleol Cymru ar y cyfan yn derbyn +3.5% yn 2023/24 ac yna +2.4% yn 2024/25.

4.3 Golyga hyn bydd y cynnydd yng ngrant y Llywodraeth ar gyfer y ddwy flynedd ddilynol yn sylweddol llai na'r hyn byddwn yn ei dderbyn yn 2022/23, a hwn yw'r cyd-destun lle mae'n rhaid pwyso a mesur cynaliadwyedd hirdymor unrhyw ymrwymiadau ariannol.

4.4 O ganlyniad, awgrymir bod ffi ar lefel opsiwn 2 yn cael ei gytuno am y tro ar gyfer gweithredu o Ebrill 2022 ymlaen. Mae'r ffi a argymhellir yn sicrhau bod darparwyr yn gallu talu Cyflog Byw Gwirioneddol i'w staff, yn ogystal â gallu dygymod gyda chwyddiant.

4.5 Unwaith bydd y gwaith ariannol pellach wedi'i gwblhau, bydd adroddiad pellach yn dod gerbron y Cabinet, fydd ar ôl y cyfnod etholiad, er mwyn dod i benderfyniad os gall y Cyngor gynyddu'r ffi ar gyfer 2022/23 i lefel Opsiwn 3.

## 5. CAMAU NESAF AC AMSERLEN

Yn ddarostyngedig i benderfyniad heddiw, bydd y ffi yn cael ei osod a'i gyfathrebu gyda darparwyr ar gyfer taliadau o Ebrill 2022 ymlaen.

Bydd gwaith pellach yn digwydd ar fforddiadwyedd ariannol Opsiwn 3.

Cyflwynir adroddiad pellach i'r Cabinet ym mis Mehefin/Gorffennaf 2022 ar gyfer ystyried cynyddu'r ffi ar gyfer 2022/23 ymhellach.

## 6. UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

### i) Swyddog Monitro:

Cynigir argymhelliad ar gyfer gosod y ffi safonol ar gyfer 2022/23 yn yr adroddiad sydd yn seiliedig ar ffactorau penodol sydd wedi eu hesbonio a chloriannu. Mae hyn felly yn gosod ffi sydd yn gynnydd ar sail rhesymegol. Mae'r cydnabyddiaeth yn yr adroddiad y gall fod lle i adolygu ymhellach wedi cwblhau gwaith ychwanegol yn adlewyrchu heriau sefydlu a chyllido ffi safonol. Mae'r adroddiad yn datgan y rhesymau am yr argymhelliad.

**ii) Y Pennaeth Cyllid:**

Bydd y Cyngor, wrth osod y gyllideb ar gyfer 2022/23 yn ei gyfarfod ar 3 Mawrth, wedi ystyried argymhellion am ffyrdd o ymdrin â phwysau ariannol fydd ar wasanaethau yn y flwyddyn ariannol newydd ac yn y blynyddoedd dilynol. Fel rhan o'r drefn yma, roedd argymhelliad i neilltuo swm darbodus fel bod adnoddau ar gael i ariannu Opsiwn 3 petai'r Cabinet yn penderfynu ei bod yn ffafrio'r opsiwn hwn. Nodwyd yn glir bryd hynny byddwn angen cyfle i ystyried yr holl oblygiadau i ddefnyddwyr gwasanaeth, darparwyr a rhanddeiliaid eraill cyn dod i gasgliad terfynol ar y ffioedd ar gyfer y flwyddyn i ddod.

Fodd bynnag, rhaid penderfynu ar osod ffioedd cyn dechrau'r flwyddyn ariannol newydd, felly mae'r penderfyniad a geisir yn briodol, ac mae swyddogion Cyllid wedi cael mewnbwn fanwl i'r drefn o gyfrifo'r costau uned. Rwyf o'r farn fod Opsiwn 2 yn fforddiadwy a chynaliadwy. Tra fod Opsiwn 3 hefyd yn fforddiadwy ar gyfer 2022/23, bydd angen ystyriaeth fanwl os bydd y ffioedd hyn yn gynaliadwy yn y tymor hirach, neu os byddai pennu Opsiwn 3 ar gyfer 2022/23 a thu hwnt yn golygu byddwn angen darganfod arbedion mwy sylweddol mewn meysydd gwariant eraill mewn blynyddoedd dilynol.

# Asesu'r Effaith ar Nodweddion Cydraddoldeb, y Gymraeg ac Anfantais Economaidd-Gymdeithasol

Gweler y daflen *Sut i Wneud Asesiad Effaith Cydraddoldeb* am gymorth i lenwi'r ffurflen yma. Mae croeso hefyd i chi gysylltu gyda Delyth Williams, Swyddog Polisi a Chydraddoldeb ar est 32708, neu DelythGadlysWilliams@gwynedd.llyw.cymru, am gymorth pellach.

Mae'n ofynnol i'r Cyngor (dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010) i ystyried yr effaith fydd newid mewn unrhyw bolisi neu weithdrefn (neu greu polisi neu weithdrefn o'r newydd), yn ei gael ar bobl hefo nodweddion cydraddoldeb gwarchodedig. Mae gan y Cyngor hefyd ddyletswyddau cyffredinol ychwanegol i sicrhau tegwch a meithrin perthnasau da. Rhaid felly gwneud asesiad amserol cyn gwneud penderfyniad ar unrhyw newid perthnasol (h.y. sy'n cael effaith ar bobl hefo nodwedd gwarchodedig).

Mae hefyd yn ofynnol i'r Cyngor, dan ofynion Safonau'r Gymraeg (Adran 44 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011) ystyried yr effaith fydd newid mewn unrhyw bolisi neu weithdrefn (neu greu polisi neu weithdrefn o'r newydd), yn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac i sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Mae'r ddogfen hon felly yn sicrhau bod y penderfyniadau yma'n diogelu ac yn hyrwyddo'r defnydd a wneir o'r Gymraeg.

O Ebrill 1af 2021 ymlaen mae gan y Cyngor ddyletswydd i roi sylw dyledus i ddod i'r afael ag anfantais economaidd-gymdeithasol mewn penderfyniadau strategol.

## 1) Manylion

### 1.1 Beth yw enw'r polisi / gwasanaeth dan sylw?

Ffioedd Cartrefi Preswyl a Nyrsio
Gwasanaeth Darparu Gofal

### 1.2 Beth ydi pwrpas y polisi/gwasanaeth sy'n cael ei greu neu ei newid? Pa newidiadau sy'n cael eu hystyried?

Mae'r Cyngor yn gosod ffi yn flynyddol ar gyfer lleoliadau mewn cartrefi gofal (preswyl a nyrsio) o fewn y sector preifat.

Mae'r Cyngor angen gosod ffi cyn Ebrill 2022 er mwyn caniatáu ar gyfer gweithredu. Ar gyfer 2022/23 mae cyfle i'r Cyngor ystyried posibilrwydd ffi uwch i staff, yn ogystal â chostau chwyddiant blynyddol. Fodd bynnag, bydd angen gwaith pellach ar yr agweddau ariannol o hyn cyn gallu dod i benderfyniad.

**1.3 Pwy sy'n gyfrifol am yr asesiad yma?**

| |
|---|
| Aled Davies, Pennaeth Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant. |

**1.4 Pryd wnaethoch chi gychwyn yr asesiad? Pa fersiwn yw hwn?**

| |
|---|
| Chwefror 2022. Fersiwn 1.0. |

## 2) Gweithredu

**2.1 Pwy yw'r budd-ddeiliaid neu bartneriaid fydd yn rhaid gweithio hefo nhw i wneud yr asesiad yma?**

| |
|---|
| Darparwyr. |

**2.2 Pa gamau ydych chi wedi ei cymryd i ymgysylltu gyda pobl hefo nodweddion gwarchodedig, ynglŷn â'r iaith Gymraeg neu â chymunedau (un ai oherwydd lleoliad neu oherwydd angen) sy'n byw ag anfantais economaidd-gymdeithasol?**

| |
|---|
| Rydym yn cydymffurfio â Strategaeth Mwy na Geiriau, sy'n sicrhau bod cleifion a phreswylwyr yn derbyn y Cynnig Rhagweithiol mewn perthynas â´r iaith Gymraeg.<br>Rydym hefyd yn ymwybodol o'r diffygion yng nghyflogau staff gofal, a'r pwysau y mae'r cartrefi gofal wedi bod oddi dano yn ystod Covid-19, ac felly mae'r ffioedd hyn yn ceisio lliniaru rhywfaint o'r diffygion ariannol hyn. |

**2.3 Beth oedd canlyniad yr ymgysylltu?**

| |
|---|
| Amherthnasol. |

**2.4 Ar sail pa dystiolaeth arall ydych chi'n gweithredu?**

| |
|---|
| Un o'r ffactorau pwysicaf o ran ceisio ymateb i'r risg o sefydlogrwydd a chynaliadwyedd o fewn y farchnad, yn enwedig y cartrefi nyrsio a chartrefi dementia, yw sicrhau bod y ffioedd sydd yn |

| |
|---|
| cael eu gosod gan y Cyngor yn caniatáu'r cartrefi hyn i fod yn hyfyw yn ariannol, sydd yn ei dro yn caniatáu'r cartrefi i dalu staff yn deg am eu gwaith ac, wrth gwrs, darparu gofal o safon i'r trigolion.<br><br>Eleni, mae'r setliad y mae'r Cyngor wedi'i dderbyn gan y Llywodraeth wedi bod yn uwch na'r hyn yr ydym wedi ei dderbyn ers sawl blwyddyn. Er nad yw'n ddigon i fod yn ymateb i bob gofyn sydd gan wasanaethau a thrigolion Gwynedd, mae cyfle i fod yn ymateb yn llawnach i'r gofynion o fewn y farchnad ofal na'r hyn sydd wedi bod yn bosib yn y gorffennol. |

**2.5 Oes yna unrhyw fylchau yn y dystiolaeth sydd angen ei gasglu?**

| |
|---|
| Mae angen gwneud gwaith manwl ar y goblygiadau a'r fforddiadwyedd hirdymor. Bydd y gwaith hwn yn cael ei gynnal yn ystod y ddau fis nesaf. |

## 3) Adnabod yr Effaith

**3.1 Mae'n rhaid i'r Cyngor roi sylw dyledus i'r effaith fydd unrhyw newidiadau'n ei gael ar bobl hefo nodweddion cydraddoldeb isod. Beth yw'r effaith fydd y polisi/gwasanaeth newydd neu'r newidiadau arfaethedig yn ei gael ar bobl hefo'r nodweddion hyn? Mae hefyd angen ystyried yr effaith ar anfantais economaidd-gymdeithasol ac ar y Gymraeg.**

| **Nodweddion** | **Sut fath o effaith? *** | **Ym mha ffordd? Beth yw'r dystiolaeth?** |
|---|---|---|
| **Hil (gan gynnwys cenedligrwydd)** | Dim | Nid oes unrhyw dystiolaeth i awgrymu y byddai'r ffioedd yn cael effaith gadarnhaol na negyddol ar unigolion oherwydd eu hil. |
| **Anabledd** | Positif | Credir y bydd preswylwyr cartrefi gofal yn cael budd o'r ffioedd uwch, gan dderbyn gwell gwasanaeth a gofal. |
| **Rhyw** | Dim | Nid oes unrhyw dystiolaeth i awgrymu y byddai'r ffioedd yn cael effaith gadarnhaol na negyddol ar unigolion oherwydd eu rhyw. |
| **Oedran** | Positif | Pobl hŷn sydd fwyaf tebygol o gael y budd mwyaf, ond mae'n bosib y bydd hefyd yn effeithio ar oedrannau eraill sydd angen gwasanaeth/gofal. |
| **Cyfeiriadedd rhywiol** | Dim | Nid oes unrhyw dystiolaeth i awgrymu y byddai'r ffioedd yn cael effaith gadarnhaol na negyddol ar unigolion oherwydd eu cyfeiriadedd rhywiol. |
| **Crefydd neu gred (neu ddiffyg cred)** | Dim | Nid oes unrhyw dystiolaeth i awgrymu y byddai'r ffioedd yn cael effaith gadarnhaol na negyddol ar unigolion oherwydd eu crefydd, eu cred neu eu diffyg cred. |
| **Ailbennu rhywedd** | Dim | Nid oes unrhyw dystiolaeth i awgrymu y byddai'r ffioedd yn cael unrhyw effaith ar y categori yma. |

| | | |
|---|---|---|
| **Beichiogrwydd a mamolaeth** | Dim | Nid oes unrhyw effeithiau hysbys o ran y categori beichiogrwydd a mamolaeth. |
| **Priodas a phartneriaeth sifil** | Dim | Nid oes unrhyw effeithiau hysbys o ran y categori priodas a Phartneriaeth Sifil. |
| **Yr iaith Gymraeg** | Positif | O ganlyniad i well cyfleoedd cyflogaeth i drigolion lleol, mae'n debygol y bydd hyn yn cael effaith gadarnhaol ar ddarpariaeth iaith Gymraeg a'r cynnig rhagweithiol i breswylwyr. |
| **Anfantais Economaidd-Gymdeithasol** | Positif | Byddai cynnig cyflog uwch yn cael effaith gadarnhaol ar y staff, ac ar breswylwyr hefyd gan fod lefelau recriwtio a chadw staff am fod yn uwch, gan olygu darpariaeth well o ran gofal. |

* I'w ddileu yn ôl yr angen

**3.2 Mae'n ddyletswydd ar y Cyngor dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 i gyfrannu'n bositif i gymdeithas decach trwy hybu cydraddoldeb a pherthynas dda yn ei weithgareddau ym meysydd oedran, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, crefydd, hil, trawsrywedd, anabledd a beichiogrwydd a mamolaeth. Mae'n rhaid i'r Cyngor roi sylw dyledus i'r ffordd mae unrhyw newid yn effeithio'r dyletswyddau yma.**

| **Dyletswyddau Cyffredinol y Ddeddf Cydraddoldeb** | **A yw'n cael effaith?*** | **Ym mha ffordd? Beth yw'r dystiolaeth?** |
|---|---|---|
| **Cael gwared â cham-wahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth** | Ydi | Bydd y ffioedd yn gyson i bob darparwr ac felly ni fydd unrhyw gamwahaniaethu. |
| **Hyrwyddo cyfleoedd cyfartal** | Ydi | Bydd gwell lefelau staffio o ganlyniad i well cyflogau, gan olygu y bydd gan staff fwy o gyfle i wneud mwy a bod yn fwy o ran o'u cymuned. |
| **Meithrin perthnasau da** | Ydi | Bydd morâl staff yn gwella gyda mwy o staff yn cael eu recriwtio a'u cadw. Yn ogystal, bydd preswylwyr yn cael gweithlu mwy sefydlog sy'n gyfle i fagu perthnasau da. |

* I'w ddileu yn ôl yr angen

**3.3 Sut mae eich cynnig yn sicrhau eich bod yn gweithio yn unol â gofynion Safonau'r Iaith Gymraeg (Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011), i sicrhau na chaiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg, ac y manteisir ar bob cyfle i hyrwyddo'r Gymraeg (y tu hwnt i ddarparu gwasanaethau'n ddwyieithog) a chynyddu cyfleoedd i ddefnyddio a dysgu'r iaith yn y gymuned?**

| |
|---|
| Rydym yn cydymffurfio â Strategaeth Mwy na Geiriau, sy’n sicrhau bod cleifion a phreswylwyr yn derbyn y Cynnig Rhagweithiol mewn perthynas â´r iaith Gymraeg. Mae’n debygol y bydd codi’r ffioedd yn cael effaith gadarnhaol ar y cynnig rhagweithiol. |

**3.4 Pa fesurau neu newidiadau eraill y gallech eu cynnwys i gryfhau neu newid y polisi / arfer er mwyn cael effaith gadarnhaol ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg, ac i leihau neu atal unrhyw effeithiau andwyol y gallai’r polisi/ymarfer ei gael ar yr iaith Gymraeg?**

| |
|---|
| Rydym wedi gwneud popeth o fewn ein gallu i sicrhau na fydd unrhyw effeithiau andwyol ar yr iaith Gymraeg. |

**3.5 Sut mae’r cynnig yn dangos eich bod wedi rhoi sylw dyledus i'r angen i fynd i'r afael ag anghyfartaledd o achos anfantais economaidd-gymdeithasol? (Sylwch fod hyn yn ymwneud â chau bylchau anghydraddoldeb yn hytrach na gwella canlyniadau i bawb yn unig).**

| |
|---|
| Bydd y ffioedd yn galluogi i ofalwyr dderbyn cyflog uwch, sy’n gyfystyr â Chyflog Byw Gwirioneddol. |

**3.6 Pa fesurau neu newidiadau eraill y gallech eu cynnwys i gryfhau neu newid y polisi / arfer i ddangos eich bod wedi rhoi sylw dyledus i'r angen i leihau canlyniadau anghyfartal o ganlyniad i anfantais economaidd-gymdeithasol, yn unol â’r Ddeddf Economaidd-Gymdeithasol?**

| |
|---|
| Rydym wedi gwneud popeth o fewn ein gallu, ac yn wir, gosodir y ffioedd er mwyn rhoi sylw dyledus i’r angen i leihau canlyniadau anghyfartal o ganlyniad i anfantais economaidd-gymdeithasol drwy gyfarch y Cyflog Byw Gwirioneddol i ofalwyr. |

**4) Dadansoddi’r canlyniadau**

**4.1 Ydi’r polisi felly’n debygol o gael effaith sylweddol, bositif ar unrhyw un o’r uchod? Beth yw’r rheswm am hyn?**

| |
|---|
| Mae'n debygol o gael effaith sylweddol bositif ar y grŵp sydd dan anfantais economaidd-gymdeithasol gan y byddant yn derbyn Cyflog Byw Gwirioneddol. |

**4.2 Ydi'r polisi felly'n debygol o gael effaith sylweddol, negyddol ar unrhyw un o'r uchod? Beth yw'r rheswm am hyn?**

| |
|---|
| Ni ddylai'r cynllun gael effaith negyddol ar unrhyw unigolion gyda nodweddion gwarchodedig penodol. |

**4.3 Beth ddylid ei wneud?**

Dewiswch un o'r canlynol:

| | |
|---|---|
| Parhau gyda'r polisi / gwasanaeth gan ei fod yn gadarn | x |
| Addasu'r polisi i ddileu unrhyw rwystrau | |
| Atal a dileu'r polisi gan fod yr effeithiau niweidiol yn rhy fawr | |
| Parhau a'r polisi oherwydd gellir cyfiawnhau unrhyw effaith niweidiol | |
| Dim camau pellach ar hyn o bryd, mae'n gynamserol i benderfynu, neu does dim digon o dystiolaeth | |

**4.4 Os yn parhau hefo'r cynllun, pa gamau fyddwch chi'n cymryd i leihau neu liniaru unrhyw effeithiau negyddol?**

| |
|---|
| Nid ydym yn disgwyl y bydd unrhyw effeithiau negyddol ond byddwn yn monitro ac yn ymdrin ag unrhyw effeithiau negyddol allai godi |

**4.5 Os nad ydych yn gweithredu ymhellach i ddileu neu leihau effeithiau negyddol, esboniwch pam yma.**

| |
|---|
| Amherthnasol |

**5) Monitro**

**5.1 Pa gamau fyddwch chi'n gymryd i fonitro effaith ac effeithiolrwydd y polisi neu wasanaeth (cynllun gweithredu)?**

Rydym yn bwriadu monitro effaith y ffioedd yn barhaus.

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Cabinet Cyngor Gwynedd** |
| **DYDDIAD** | **Mawrth 8, 2022** |
| **AELOD CABINET** | **Cynghorydd Cemlyn Rees Williams** |
| **SWYDDOG** | **Rhian Parry Jones** |
| **TEITL YR EITEM** | **Cynllun Strategol Y Gymraeg mewn Addysg 2022-2032** |

**1. Y PENDERFYNIAD A GEISIR**

Gofynnir i'r Cabinet gymeradwyo'r Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg ar gyfer y cyfnod 2022-2032, cyn i'r Awdurdod ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru i'w gymeradwyo.

**2. Y RHESWM DROS YR ANGEN AM BENDERFYNIAD**

Yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru, mae angen i'r Cynllun gael ei gymeradwyo gan y Cabinet a'i lofnodi gan yr unigolyn sydd â chyfrifoldeb statudol dros addysg o fewn yr awdurdod.

**3. CEFNDIR**

3.1 Pwrpas Cynllun Strategol Y Gymraeg mewn Addysg (CSGA) yw amlinellu gweledigaeth yr Awdurdod o gael cyfundrefn addysg Gymraeg a dwyieithog sydd yn rhoi anghenon ein holl ddysgwyr yn ganolog i'r ddarpariaeth.

3.2 Daeth y cynlluniau cyntaf hyn yn weithredol ar 1 Ebrill 2014 am gyfnod o 3 blynedd hyd at fis Mawrth 2017, ac fe ddiweddarwyd y Cynllun am y tair blynedd dilynol. Oherwydd amgylchiadau di-gynsail Pandemig Covid-19, ymestynnwyd ei gyfnod am un flwyddyn yn ychwanegol. Bydd y Cynllun newydd hwn yn weithredol am gyfnod o ddeng mlynedd, o fis Medi 2022 hyd 31ain Awst 2032.

3.3 Dehonglir y Strategaeth yng nghyd-destun Polisi Iaith Cyngor Gwynedd a thrwy hynny wireddu'r deilliannau. Bydd yr Awdurdod yn sicrhau fod y prif elfennau yn cael eu hadlewyrchu ac yn cael sylw priodol yn y Cynllun Strategol.

3.4 Mae'r Strategaeth wedi ei baratoi gan gyfarch amcanion a gofynion y dyletswyddau sector gyhoeddus dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 (gan gynnwys dyletswyddau sector gyhoeddus Cymreig). Yn unol a'r dyletswyddau cyfreithiol yma wrth wneud penderfyniadau mae rhaid i'r Cynghorau dalu sylw dyledus i'r angen (1) i ddiddymu gwahaniaethu anghyfreithiol (2) hyrwyddo cyfle cyfartal a (3) meithrin perthnasau da ar sail y nodweddion gwarchodedig. A dall sylw dyledus at y dyletswydd cymdeithasol economaidd dan Adran 1 o'r Ddeddf.

3.5 Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ynglŷn a gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'r ddeddf yn gosod dyletswydd llesiant ar gyrff cyhoeddus sydd wedi ei anelu at gyflawni 7 o nodau llesiant sef Cymru sydd yn lewyrchus, gydnerth, iachach, mwy cyfartal gyda cymunedau cydlynus a diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu a sy'n gyfrifol ar lefel byd eang. Mae'r Strategaeth wedi ei baratoi gan gyfarch amcanion a gofynion y Ddeddf.

3.6 Mae'r Cynllun yn gosod ymrwymiad a chyfeiriad clir ar gyfer sicrhau bod dysgwyr Gwynedd yn cyflawni'r safonau uchaf er mwyn cynnal yr iaith, diwylliant a'r economi yn lleol.

**4. SEFYLLFA RHESYMEG A CHYFIAWNHAD DROS ARGYMELL Y PENDERFYNIAD**

4.1. Bydd cymeradwyo Cynllun Strategol Y Gymraeg mewn Addysg (CSGA) yn fodd i Lywodraeth Cymru allu monitro'r ffordd y bydd yr awdurdod yn ymateb i'r angen i weithredu nodau'r Strategaeth a chyfrannu tuag atynt drwy:

- sicrhau bod pob cam o brosesau addysg yr awdurdod lleol yn rhoi ystyriaeth lawn i addysg cyfrwng Cymraeg;
- ehangu addysg cyfrwng Cymraeg, lle bo galw, ar sail cynllunio gwell;
- sicrhau fod gwasanaethau cefnogi addysg cyfrwng Cymraeg yn cael eu cyflwyno ar sail consortia;
- wella safonau ac ehangu defnydd o'r Gymraeg ymhlith plant a phobl ifanc; a
- ddangos cynnydd yn erbyn targedau penodol y Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg.

4.2 Bydd cymeradwyo'r Strategaeth yng nghyd-destun Polisi Iaith Cyngor Gwynedd yn gwireddu'r saith deilliant a amlinellir ynddi.

| DEILLIANNAU'R CSGA | |
|---|---|
| 1 | Mwy o blant meithrin/ tair oed yn cael eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg |
| 2 | Mwy o blant dosbarth derbyn/pump oed yn cael eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg |
| 3 | Mwy o blant yn parhau i wella eu sgiliau Cymraeg wrth drosglwyddo o un cyfnod o'u haddysg statudol i'r llall |
| 4 | Mwy o ddysgwyr yn astudio ar gyfer cymwysterau Cymraeg (fel pwnc) a phynciau drwy gyfrwng y Gymraeg. |
| 5 | Mwy o gyfleoedd i ddysgwyr ddefnyddio'r Gymraeg mewn cyd-destunau gwahanol yn yr ysgol. |
| 6 | Cynnydd yn y ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) (yn unol â'r dyletswyddau a bennir gan y Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnys Addysg (Cymru) 2018) |
| 7 | Cynnydd yn nifer y staff addysgu sy'n gallu addysgu Cymraeg (fel pwnc) a thrwy gyfrwng y Gymraeg |

**5. CAMAU NESAF AC AMSERLEN**

Yn ddarostyngedig i gymeradwyaeth y Cabinet, ac yna dderbyn cymeradwyaeth Llywodraeth Cymru, bydd gofyn i Awdurdodau lleol ddechrau gweithredu'r CSGA o 1 Medi 2022.

**6. UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN ARGYMELL Y PENDERFYNIAD**

Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus ar y Cynllun drafft, am gyfnod o wyth wythnos, rhwng 15 Hydref i 17 Rhagfyr 2021. Yn unol â'r Rheoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg ac Asesu'r Galw am Addysg Cyfrwng Cymraeg (Cymru) 2013, ymgynghorwyd â'r canlynol:

- Comisiynydd y Gymraeg
- Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant
- Mudiad Meithrin
- Ysgolion y Sir
- Colegau Ôl-16 / Grŵp Llandrillo Menai
- Esgobaeth yr Eglwys yng Nghymru
- Aelodau Etholaethol a Rhanbarthol y Cynulliad
- Aelodau Seneddol sydd yn cynrychioli Gwynedd
- Llywodraeth Cymru
- Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
- Y Consortiwm Addysg Rhanbarthol (GwE)
- Rhieni dros Addysg Gymraeg (RhAG)
- Cymdeithas Ysgolion Dros Addysg Gymraeg (CYDAG)

- Grŵp Ymgyrch Addysg Cymdeithas yr Iaith
- Mentrau Iaith Cymru
- Cyngor Cymuned / Tref
- Awdurdodau Lleol cyfagos
- Gwasanaethau y Cyngor

Nodir isod grynodeb o natur y sylwadau a dderbyniwyd, a'r prif negeseuon:

- Cynllunio cadarn a manwl ar y cyfan.
- Llawer yn gweld llwyddiant i addysg gynradd Gymraeg yng Ngwynedd ond mwy o bryderon yn codi am ddilyniant i'r sector uwchradd.
- Nid yw'n ddigonol cyfeirio at Bolisi Iaith cyffredinol y Sir yn y Cynllun; yn hytrach mae angen trafod y ddarpariaeth fel ag y mae yn ymarferol ar lawr gwlad trwy'r Sir o'r blynyddoedd cynnar ymlaen.
- Angen egluro beth yw ystyr addysg ddwyieithog gan gyfleu neges mai canlyniad yw dwyieithrwydd nid dull
- Angen sicrhau proses drylwyr ar gyfer asesu a diwygio cynigion polisi yn y dyfodol, a hynny er mwyn sicrhau y ceir yr effeithiau mwyaf cadarnhaol posib ar y Gymraeg a chyflawniad y CSCA.
- Byddai'n fuddiol cynnwys data ar gyfer nifer a chanran y disgyblion sy'n astudio 5 neu fwy o bynciau TGAU drwy gyfrwng y Gymraeg yn y Sir, canran y pynciau sydd ar gael yn gyfan gwbl drwy gyfrwng y Gymraeg ar gyfer TGAU yn y Sir a chanran y pynciau sydd ar gael yn gyfan gwbl drwy gyfrwng y Gymraeg ar gyfer Safon Uwch.
- Ar y cyfan, nid yw'r prif amcanion, targedau na sut y bydd yr awdurdod yn eu cyflawni, yn ddigon eglur.

Gwnaed addasiadau i'r CSGA yn dilyn rhai o'r prif sylwadau a dderbyniwyd uchod er mwyn cryfhau'r ddogfen ddiwygiedig. Y prif newidiadau sydd wedi cael eu hychwanegu i'r ddogfen yw esboniad cryno am y dynodiadau iaith a'r Polisi Iaith, ac ychwanegu data i'r tablau targedau 10 mlynedd ar ddiwedd pob deilliant.

## 7. SYLWADAU'R SWYDDOGION STATUDOL

**Prif Swyddog Cyllid:** Mae awdur yr adroddiad wedi cadarnhau nad oes unrhyw oblygiadau ariannol yn codi o'r adroddiad hwn, gan fydd yr Adran Addysg yn gweithredu eu Cynllun Strategol Y Gymraeg o fewn adnoddau'r grantiau perthnasol. O ganlyniad, nid oes gennyf sylwadau i'w ychwanegu o safbwynt priodoldeb ariannol.

**Swyddog Monitro:** Yn unol a'r hyn yr adroddir mae Cynllun Strategol yr Iaith Mewn Addysg bellach yn ddogfen statudol. Un o oblygiadau hyn yw fod prosesau ymgynghori a chadarnhau i'w dilyn er cynhyrchu y Strategaeth. Fe gymeradwywyd y ddogfen ymgynghori gan y Cabinet yng Gorffennaf 2021. Daw'r adroddiad yma a canlyniadau yr ymgynghori yn ôl gerbron y Cabinet er ystyried ac ymateb. Mae'n bwysig felly fod y Cabinet yn rhoi ystyriaeth briodol i'r canlyniadau yma wrth gloriannu y penderfyniad i fabwysiadu'r Strategaeth.

Bydd angen paratoi asesiad cydraddoldeb gan gynnwys y dyletswydd economaidd-gymdeithasol.

**Atodiad 1 – Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2022-2032 (Drafft).**

# CYNLLUN STRATEGOL CYMRAEG MEWN ADDYSG

| Enw'r Awdurdod Lleol |
|---|
| Gwynedd |
| **Cyfnod y Cynllun hwn** |
| Medi 2022-Awst 31ain, 2032. |

**Mae'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg hwn yn cael ei wneud o dan adran 84 o *Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013* ac mae'r cynnwys yn cydymffurfio â *Rheoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (Cymru) 2019*[1-2]. Rydym wedi rhoi sylw dyledus i'r canllawiau statudol a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru wrth bennu ein targedau.**

Llofnod: ........................................ Dyddiad: ....................

(Mae angen i'r Prif Swyddog Addysg yn eich awdurdod lleol lofnodi'r Cynllun hwn)

[1] Rheoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (Cymru) 2019
[2] Rheoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (Cymru) (Diwygio) (Coronafeirws) 2020

| Nodiadau i'ch cynorthwyo |
| --- |
| **Bydd angen i chi amlinellu gweledigaeth addysg cyfrwng Cymraeg eich awdurdod lleol dros y deng mlynedd nesaf a'r prif amcanion strategol ar gyfer y cyfnod hwn.  Dangoswch sut y byddwch yn cyflawni Deilliant 1-7 gan gyfeirio at y Canllawiau.**<br>**Cyn cwblhau'r templed hwn, cyfeiriwch yn benodol at Rhan 2 o'r Canllawiau ar Gynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg.**<br>**https://llyw.cymru/cynlluniau-strategol-cymraeg-mewn-addysg**<br>**Mae'r rhan hon yn nodi'r gofynion statudol ar gyfer yr hyn y mae'n rhaid ei gynnwys yn eich Cynllun (fel yr amlinellir yn Atodlen y Rheoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (Cymru) 2019). Yn ogystal â'ch targed 10 mlynedd cyffredinol, mae rhai datganiadau yn yr Atodlen yn gofyn i chi osod targedau eraill, ac os felly, dylech hefyd gyfeirio at y rheini.** |

# Ein gweledigaeth deng mlynedd ar gyfer cynyddu a gwella'r cynllunio darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg yn ein hardal

“Rwy’n falch o gyhoeddi C**ynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg Gwynedd 2022-2032**. Mae’r Cynllun yn adlewyrchu fy ngweledigaeth o gael cyfundrefn addysg Gymraeg a dwyieithog sydd yn rhoi anghenion ein holl ddysgwyr yn ganolog i’n darpariaeth. Mae’r Cynllun yn gosod ymrwymiad a chyfeiriad clir ar gyfer sicrhau bod dysgwyr Gwynedd yn cyflawni’r safonau uchaf er mwyn cynnal yr iaith, diwylliant a’r economi yn lleol.

Mae Adrannau’r Cyngor, ysgolion a phartneriaid ehangach yn ymrwymo i wireddu holl nodau ac amcanion **Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg** ac yn sgil hynny gefnogi strategaeth Llywodraeth Cymru i gyrraedd y nod o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050, gan sicrhau bod cyfleoedd ar bob cyfnod ym mywyd unigolyn i ddysgu Cymraeg ac i ddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Ymgorfforir yma weledigaeth *Cynllun Hybu’r Gymraeg yng Ngwynedd* (2013-23), a rhoddir ystyriaeth yn ogystal, i ofynion y deddfau a’r strategaethau canlynol wrth lunio’r Cynllun: *Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol* (2015) *Ffyniant i Bawb: Y Strategaeth Genedlaethol: Symud Cymru Ymlaen* (2016-2021), *Cytundeb Blaengar* (2016), *Deddf ADY a Thribiwnlys Addysg (Cymru)* (2018).”

Y Cynghorydd Cemlyn Rees Williams,
Aelod Cabinet Addysg.

“Mae hi’n gyfnod hynod o gyffrous i’r iaith Gymraeg a hoffwn sicrhau darpariaeth, profiadau a chefnogaeth o ansawdd uchel yn y Gymraeg sydd yn ymateb i anghenion y dysgwyr a’u teuluoedd, ac yn gyfrwng i’w harfogi fe dysgwyr annibynnol a hyderus ddwyieithog i’w galluogi i lwyddo a ffynnu. Yn yr un modd, hoffwn sicrhau bod holl weithlu ein hysgolion yn hyderus ddwyieithog, gan dderbyn pob cefnogaeth i feithrin eu hyder a’u sgiliau yn yr iaith Gymraeg, gan allu trosglwyddo’r sgiliau hynny’n effeithiol i addysgu a dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg ac yn ddwyieithog ar lawr dosbarth.”

Garem Prytherch Jackson
Pennaeth Addysg Gwynedd.

Ein nod yw sicrhau y bydd yr holl rhanddeiliaid yn gweithredu’n effeithiol mewn perthynas â’r Gymraeg er mwyn sicrhau dilyniant o un cyfnod allweddol i’r nesaf yn unol â’r trefniadau a nodir yn y **Cytundeb Partneriaeth** rhwng yr Awdurdod a’r ysgolion a’r cylchoedd meithrin. Yn y cyd-destun hwn, byddwn yn tynnu sylw’r aelodau etholedig lleol ynghyd â Chadeirydd y Llywodraethwyr at unrhyw faterion o bryder sydd yn berthnasol i ddiffyg gweithredu ar gynnwys y Polisi Iaith neu Gynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg.

**Cysylltu**

Os hoffech ragor o wybodaeth am y Gymraeg, Polisi Iaith Addysg, neu Gynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg, gallwch gysylltu â:


Pennaeth Addysg
Adran Addysg
Pencadlys
Cyngor Gwynedd
Caernarfon
Gwynedd
LL55 1SH

Ffôn: 01286 679 467

e-bost: garemjackson@gwynedd.llyw.cymru


**Fersiynau Hygyrch**

Os y dymunir, gellir darparu fersiynau hygyrch o Gynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg Gwynedd 2017-20 ar gais; mae hyn yn cynnwys:

- Fersiwn print bras
- Fersiwn ar dâp
- Fersiwn mewn braille
- Fersiwn iaith arwyddion (BSL)

Cysylltwch gyda’r Pennaeth Addysg i archebu fersiwn hygyrch.

**NODIADAU ESBONIADOL**.
Ceir cyfeiriadaeth cyson at y canlynol yn y ddogfen.

**POLISI IAITH:**

**Cefndir:**
Gosodir disgwyliadau penodol ar Adran Addysg Cyngor Gwynedd i gyfrannu tuag at strategaethau a deddfwriaeth cenedlaethol o ran hybu a chynyddu defnydd o'r Gymraeg.

Y mae'n ofynnol, o dan adran 84 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion Cymru (2013), ac i gydymffurfio gyda Rheoliadau Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg (Cymru) 2019, i bob Awdurdod Addysg Lleol baratoi a chyflwyno Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg sy'n amlinellu gweledigaeth addysg cyfrwng Cymraeg o fewn yr awdurdod dros y deng mlynedd nesaf. Gosodir gofyniad statudol ar y Cyngor hefyd o dan adran 44 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 i lunio a chyhoeddi strategaethau sirol fydd yn amlinellu sut y byddant yn cyfrannu at y nod cenedlaethol a osodir yn Strategaeth y Gymraeg Llywodraeth Cymru, Cymraeg 2050, i gynyddu nifer y siaradwyr ledled Cymru ac i gynyddu'r cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg o ddydd i ddydd. Mae strategaeth Iaith sirol Gwynedd – Cynllun Hybu'r Gymraeg yng Ngwynedd 2018-23 - yn gosod yr ymrwymiad a'r weledigaeth ar gyfer y sir, ac mae gwaith yr Adran Addysg a nodau'r CSGA yn cyfrannu at amcanion y strategaeth sirol honno.

Mae hybu'r defnydd o'r Gymraeg hefyd yn un o amcanion gwella Cyngor Gwynedd, gyda Chynllun Strategol y Cyngor yn datgan mai'r nod yw gweld: "Pobl Gwynedd yn manteisio ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gymuned, y gweithle, ac wrth gyrchu gwasanaethau cyhoeddus".

Mae'r polisi hwn felly wedi ei lunio er mwyn rhoi crynodeb o'r disgwyliadau a osodir ar Benaethiaid a'u hysgolion mewn perythnas â hybu defnydd o'r Gymraeg, ac i gadarnhau y gweithdrefnau sydd eisoes yn bodoli yn y cyd-destun hwn.

Mae'r polisi wedi ei rannu yn bedair adran, gan amlinellu'r arfer gorau dan y penawdau canlynol:

- **Cyfrwng Addysg**
- **Defnydd Cymdeithasol**

**Recriwtio a Phenodi staff**
**Gweinyddiaeth a Chyfathrebu**

Disgwylir i bob Pennaeth, mewn ymgynghoriad â'i staff a'r Corff Llywodraethu, gymeradwyo a mabwysiadu'r Polisi Iaith hwn.

Cyfrifoldeb y Pennaeth yw sicrhau llwyddiant y Polisi Iaith yn ei ysgol/hysgol; disgwylir i'r Pennaeth roi arweiniad pendant er mwyn sefydlu dealltwriaeth drwyadl o nod y polisi ac i sicrhau bod holl staff yr ysgol yn atgyfnerthu ymdrechion athrawon dosbarth drwy sicrhau ethos Gymraeg a Chymreig yn yr ysgol.

**AMCANION CYFFREDINOL**

Prif nod y Polisi yw sicrhau bod Penaethiaid, staff yr ysgolion a Llywodraethwyr yn ymwybodol o'r disgwyliadau i ddefnyddio, hybu a hyrwyddo'r Gymraeg ym mhob rhan o weithrediad ysgolion y sir, ac i sicrhau bod hawl y disgyblion a theulu estynedig yr ysgol i ddefnyddio'r Gymraeg wrth ymwneud efo'r ysgol yn cael ei barchu bob amser.

Wrth weithredu'r polisi hwn bydd yr ysgol a'r corff llywodraethu yn sicrhau:

- bod holl ddisgyblion y sir yn meddu ar sgiliau ieithyddol priodol yn y Gymraeg a'r Saesneg, a bod y disgwyliad hwnnw yn gyson ar draws pob un o'r ysgolion.

- bod darpariaeth addas i alluogi pob disgybl i ddatblygu'n hyfedr ddwyieithog. Yn y cyd-destun hwn, disgwylir i ysgolion barhau i feithrin sgiliau'r disgyblion hynny sy'n Gymry Cymraeg, a chyflwyno'r Gymraeg i'r rhai hynny sy'n ddysgwyr.

- bod holl sefydliadau addysg y sir yn adlewyrchu ac atgyfnerthu'r Polisi Iaith yn eu gweinyddiad, eu bywyd cymdeithasol a'u trefn fugeiliol, yn ogystal ag yn eu darpariaeth gwricwlaidd.

Er mai nod cyffredinol y Polisi o ran cyfrwng yr addysg yw datblygu dwyieithrwydd, fe bwysir y fantol o blaid y Gymraeg. Mae hyn yn arbennig o wir yn y blynyddoedd cynnar [meithrin ac yn y blynyddoedd yn arwain at ddiwedd y Cyfnod Sylfaen] er mwyn gosod sylfeini cadarn ar gyfer datblygiad pellach. Yn y Cyfnodau Allweddol eraill, disgwylir gweld strategaeth bwrpasol yn cael ei gweithredu er mwyn galluogi disgyblion o gartrefi Cymraeg a di-Gymraeg i ddatblygu eu gafael ar y Gymraeg a'r Saesneg fel ei gilydd . Yn y cyd-destun hwn, bydd y pwyslais a roddir ar y ddwy iaith ar wahanol adegau yn natblygiad disgybl yn gwahaniaethu yn ôl cefndir ieithyddol y disgybl a'r ardal a wasanaethir.

1. **CYFRWNG ADDYSG**

| |
|---|
| **EGWYDDOR CYFFREDINOL**<br><br>**Disgwylir i holl ysgolion y sir weithredu mewn modd sydd yn cyfrannu at nodau ac amcanion Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg, i gynyddu a gwella'r cynllunio ar gyfer darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg.** |

2. **DEFNYDD CYMDEITHASOL O'R GYMRAEG**

| |
|---|
| **EGWYDDOR CYFFREDINOL**<br><br>**Disgwylir i bob ysgol fagu agweddau cadarnhaol ymysg y disgyblion a'r gweithlu tuag at yr iaith, gan greu balchder a chynyddu'r defnydd o'r iaith y tu fewn a thu allan i'r ystafell ddosbarth.** |

3. **RECRIWTIO A PHENODI**

**EGWYDDORION CYFFREDNOL**

**Disgwylir i bob ysgol weithredu yn unol â'r Polisi Recriwtio a Phenodi (2021) a sicrhau bod y Gymraeg yn cael y sylw priodol wrth hysbysebu swyddi a recriwtio.**

**Disgwylir bod paneli penodi y corff Llywodraethu yn ymwybodol o'r angen i ystyried anghenion ieithyddol wrth benodi.**

**Disgwylir i'r Gymraeg gael ei nodi fel sgil hanfodol/allweddol ar gyfer pob swydd, gyda'r union lefel o sgiliau ieithyddol sydd eu hangen i gyflawni gofynion y swydd - *gwrando a siarad, darllen a deall ac ysgrifennu* - yn cael eu dangos yn glir yn y Manylion Person wrth hysbysebu.**

**Disgwylir i unigolion gael eu penodi sydd yn meddu ar y sgiliau ieithyddol sydd wedi eu nodi ar gyfer y swydd. Os oes unigolyn yn cael eu penodi sydd ddim yn meddu ar y sgiliau hanfodol a nodwyd ar gyfer y swydd dan sylw, disgwylir iddynt ymrwymo i raglen hyfforddiant er mwyn gwella eu sgiliau Iaith.**

4. **GWEINYDDIAETH**

**EGWYDDOR CYFFREDINOL**

**Disgwylir i holl sefydliadau addysg y sir ymrwymo i gyfathrebu gyda disgyblion, rhieni a theulu estynedig yr ysgol yn ddwyieithog, gan barchu dewis iaith a hawl unigolion i ddefnyddio'r Gymraeg wrth ymwneud efo'r ysgol.**

**Er bod disgwyl cyffredinol i wybodaeth gael ei ddarparu yn ddwyieithog, cydnabyddir hefyd mai'r Gymraeg yw iaith weithredol, naturiol, yr ysgolion ac anogir ysgolion i ystyried amgylchiadau lle mae'n briodol i gyfathrebu yn Gymraeg yn unig.**

Disgwylir i'r Corff Llywodraethu adolygu a chymeradwyo'r Polisi Iaith yn unol â'r drefn adolygu polisïau blynyddol.

**IAITH DYSGU:**

Nod y Polisi Iaith yw sicrhau bod holl ddisgyblion y sir, ym mhob un o'n hysgolion, yn meddu ar sgiliau ieithyddol priodol yn y Gymraeg a'r Saesneg. Disgwylir i holl sefydliadau addysg y sir adlewyrchu ac atgyfnerthu'r Polisi Iaith yn eu gweinyddiad, eu bywyd cymdeithasol a'u trefn fugeiliol yn ogystal ag yn eu darpariaeth gwricwlaidd. Mae'r Polisi Iaith yn rhoi pwyslais ar drochi dysgwyr 0-7 oed yn y Gymraeg, gan sicrhau mai asesiad Cymraeg yn unig a gânt ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen. Yn CA2, rydym yn parhau i ddatblygu gafael disgyblion ar y Gymraeg gan roi sylw i ddatblygu eu sgiliau yn y ddwy iaith. Yn yr uwchradd, disgwylir i bob disgybl sydd wedi cyrraedd lefel angenrheidiol sef 3+ ar ddiwedd CA2 ddilyn Cymraeg a'r Saesneg fel pynciau hyd at ddiwedd Blwyddyn 11. Mae ysgolion uwchradd yn adeiladu ar y sylfaen a osodwyd yn y cynradd trwy sicrhau bod pob disgybl yn parhau i ddatblygu sgiliau yn y Gymraeg a'r Saesneg.

**DYNODIADAU IAITH:**

Er mwyn ceisio sicrhau cysondeb o ran disgwyliadau gofynion ieithyddol (Dynodiadau Iaith) swyddi ar draws holl adrannau'r Cyngor (gan gynnwys mewn ysgolion), mae'r Swyddogion Addysg wedi bod yn gweithio'n agos gyda Swyddogion Adnoddau Dynol, Swyddogion Democratiaeth ac Iaith, a Swyddogion Dysgu a Datblygu ar y gwaith o bennu ein disgwyliadau gofynion ieithyddol ar gyfer penodi gweithlu ein hysgolion. Mae Polisi iaith a Pholisi Recriwtio a Dethol Diogel Ysgolion yn nodi disgwyliadau gofynion ieithyddol yr Adran Addysg yn glir i Benaethiaid a Chadeiryddion Cyrff Llywodraethol. Disgwylir i'r Gymraeg gael ei nodi fel sgil allweddol ar gyfer pob swydd addysgu, gyda'r union lefel o sgiliau ieithyddol sydd eu hangen ar gyfer cyflawni gofynion y swydd - gwrando a siarad, darllen a deall, ac ysgrifennu - yn cael eu dangos yn glir yn y Manylion Person wrth hysbysebu. Rydym wedi mynd ati i addasu Swydd Ddisgrifiadau, Manylion Person, Polisi Iaith a Pholisi Recriwtio a Dethol Diogel ein hysgolion i sicrhau eu bod yn cynnwys cyfeiriad at y Dynodiadau Iaith. O ganlyniad, wrth benodi i'r gweithlu addysg, disgwylir i'r Dynodiad Iaith gael ei gynnwys ym mhob hysbyseb yn unol â disgwyliadau'r Adran Addysg.

**CYFUNDREFN ADDYSG DROCHI:**

Yn sgil y pandemig bu i staff y Canolfannau Iaith orfod addasu a thrawsnewid y ffordd yr oeddent yn darparu cefnogaeth i newydd-ddyfodiaid i gaffael y Gymraeg. Ar 6 Gorffennaf 2021, bu i'r Cabinet gymeradwyo gweledigaeth newydd ar gyfer cyfundrefn addysg drochi gyfoes yng Ngwynedd sydd yn rhoi'r dysgwr yn ganolog wrth eu cefnogi hwy a newydd-ddyfodiaid y sir i gaffael y Gymraeg. Mae'r weledigaeth newydd yma hefyd yn cynnwys buddsoddiad cyfalaf o £1.1 miliwn gan Lywodraeth Cymru er mwyn sefydlu safleoedd addysg drochi o'r newydd ym Mangor a Thywyn, ynghyd â gwella'r cyfleusterau ar safle Eifionydd ym Mhorthmadog. Gobeithir y bydd y gyfundrefn addysg drochi ar ei newydd wedd yn dod i rym ar 1 Ionawr 2023.

**CYFRIFIAD BLYNYDDOL Y GWEITHLU ADDYSG:**

Rydym wedi rhoi sylw penodol i gefnogi sgiliau iaith gweithlu ein hysgolion uwchradd er mwyn ceisio hwyluso dyfodol cyfrwng Cymraeg i'r ddarpariaeth ar draws y cwricwlwm yng Nghyfnod Allweddol 3, 4 a 5 trwy dreialu cynllun peilot Cymraeg Gwaith i Athrawon, Llywodraeth Cymru gyda staff addysgu un ysgol uwchradd yn y sir. Ar sail data'r Cyfrifiad Iaith y Gweithlu Addysg diweddar, rydym yn targedu a chefnogi rhai ysgolion ar draws y sir er mwyn sicrhau eu bod yn gallu ymateb i anghenion ieithyddol eu staff trwy hyrwyddo mynediad at gyfleoedd i ddysgu Cymraeg neu i godi eu hyder yn y Gymraeg, yn ogystal ag ymateb yn llawn i bolisi iaith ysgolion Gwynedd o ran cyfrwng addysgu ac iaith weinyddol yr ysgol. Yn ein Cynllun Busnes sy'n cyd-fynd gyda'n CSGA 10 mlynedd, nodir ein hymrwymiad i gydweithio gyda rhai ysgolion penodol er mwyn cynyddu eu defnydd a'u darpariaeth Gymraeg yn unol a Pholisi Iaith y Cyngor, fydd yn arwain at gynnydd yn y % o blant meithrin fydd yn trosglwyddo i addysg Gymraeg, a chynnydd yn y % o ddisgyblion uwchradd fydd yn astudio pynciau trwy gyfrwng y Gymraeg ac yn sefyll arholiadau diwedd Cyfnod Allweddol 4 a 5 yn y Gymraeg.

**CATEGORIAU IEITHYDDOL YSGOLION UWCHRADD GWYNEDD:**

Mae'r Awdurdod ar yn cyd-weithio gyda Llywodraeth Cymru i geisio sicrhau bod Categoreiddio Ieithyddol Ysgolion yn briodol ar gyfer ymateb i ddeilliannau'r CSGA. Nod Llywodraeth Cymru yw hwyluso pob ysgol i allu symud tuag at Gategori 3(Cymraeg/Dwyieithog) neu i dderbyn cefnogaeth ychwanegol gan yr Awdurdod neu gan Lywodraeth Cymru, i gryfhau eu darpariaeth Categori 3, erbyn 2032.

**Y CATEGORÏAU PRESENNOL:**
*Diffinio Ysgolion yn ôl y Ddarpariaeth Cyfrwng Cymraeg* **( Llywodraeth Cymru, 2007)**.

**YSGOL UWCHRADD DDWYIEITHOG:**

**Y cwricwlwm:** Rhennir y categori hwn wedi yn 4 is-adran, yn ôl canran y pynciau a addysgir drwy gyfrwng y Gymraeg a chan ddibynnu a yw'n cynnig yr un ddarpariaeth yn Saesneg. Nid yw'r categorïau a'r diffiniadau yn adlewyrchu nifer neu gyfran y disgyblion sy'n manteisio ar y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg mewn ysgol. Bydd disgwyl i'r cyrff llywodraethu roi gwybodaeth ym mhrosbectws yr ysgol ynghylch i ba raddau y ceir dewis y ddarpariaeth ac a yw cael manteisio ar y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn amodol ar gymhwysedd y disgybl yn y Gymraeg. Dylid nodi hefyd yn y prosbectws faint o ddisgyblion sy'n manteisio ar y dewisiadau sydd ar gael.

| | |
|---|---|
| **Categori 2A** | Addysgir o leiaf 80% o'r pynciau ac eithrio'r Gymraeg yn unig i bob disgybl. Mae un neu ddau o bynciau yn cael eu haddysgu i rai o'r disgyblion yn Saesneg neu yn y naill iaith a'r llall. |
| **Categori 2B** | Addysgir o leiaf 80% o'r pynciau (ac eithrio'r Gymraeg a'r Saesneg) drwy gyfrwng y Gymraeg ond fe'u haddysgir drwy gyfrwng y Saesneg hefyd. |
| **Categori 2C** | Addysgir 50 - 79% o bynciau (ac eithrio'r Gymraeg a Saesneg) drwy gyfrwng y Gymraeg ond fe'u haddysgir drwy gyfrwng y Saesneg hefyd. |
| **Categori 2CH** | Addysgir pob pwnc (ac eithrio'r Gymraeg a'r Saesneg) i bob disgybl gan ddefnyddio'r naill iaith a'r llall. |

**Iaith yr Ysgol**: Y cyd-destun ieithyddol fydd yn pennu iaith neu ieithoedd yr ysgol o ddydd i ddydd. Defnyddir y naill iaith a'r llall i gyfathrebu â'r disgyblion a hefyd yng ngweinyddiaeth yr ysgol. Rhoddir blaenoriaeth uchel i greu ethos Cymraeg. Mae'r ysgol yn cyfathrebu â'r rhieni yn y naill iaith a'r llall.
**Y canlyniadau** - Ar gyfer disgyblion yng nghategorïau 2A, 2B a 2C sy'n dilyn y nifer uchaf posibl o gyrsiau drwy gyfrwng y Gymraeg, disgwylir, fel rheol, y byddent yn cael eu hasesu drwy gyfrwng y Gymraeg yn y pynciau hynny yn CA3 a CA4 ac y byddent yn gallu symud ymlaen yn hawdd i ddarpariaeth ôl 16 drwy gyfrwng y Gymraeg yn y pynciau y maent wedi eu dewis. Ar gyfer disgyblion yng nghategori 2Ch, disgwylir, fel rheol, y byddent yn cael eu hasesu drwy gyfrwng y Gymraeg ym mhob pwnc heblaw am Saesneg yn CA3 a CA4 ac y byddent, fel rheol, yn gallu symud ymlaen yn hawdd i ddarpariaeth ôl 16 drwy gyfrwng y Gymraeg yn y pynciau y maent wedi eu dewis.

**SEFYLLFA BRESENNOL YSGOLION UWCHRADD GWYNEDD:**
(Medi 2022)

| CATEGORIAU PRESENNOL | | |
|---|---|---|
| **CATEGORI 2A** | **CATEGORI 2B** | **CATEGORI 2C** |
| Ysgol Ardudwy | Ysgol Bro Idris | Ysgol Friars |
| Ysgol Botwnnog | Ysgol Brynrefail | Ysgol Tywyn |
| Ysgol Dyffryn Nantlle | Ysgol Godre'r Berwyn | |
| Ysgol Dyffryn Ogwen | Ysgol Syr Hugh Owen | |
| Ysgol Eifionydd | Ysgol Y Moelwyn | |
| Ysgol Glan y Môr | Ysgol Bro Idris | |
| Ysgol Tryfan | | |
| 50% | 35.7% | 14.3% |

# Deilliant 1

## Mwy o blant meithrin/ tair oed yn cael eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg

### Ble rydym ni nawr?

Nod Polisi Iaith Gwynedd yw sicrhau bod holl ddisgyblion y sir yn meddu ar sgiliau ieithyddol priodol yn y Gymraeg a'r Saesneg. Sicrheir bod pob lleoliad Blynyddoedd Cynnar yn gosod sylfaen gadarn ar gyfer y Gymraeg, a sicrhau fod pob plentyn yn cael asesiad sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu yn y Gymraeg ar fynediad ac ar derfyn addysg feithrin rhan amser ac ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen. Ceir 58 o leoliadau addysg nad sy'n cynnal y Blynyddoedd Cynnar yng Ngwynedd.

Gweler isod ein sefyllfa bresennol mewn perthynas â nifer y plant meithrin/tair oed sy'n cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.

Data Cylchoedd Meithrin Gwynedd 2018-19 (Dim data 2019-20 ar gael yn sgil COVID):

| Ardal | Nifer Cylchoedd Meithrin | Nifer / % plant meithrin 3 oed sydd yn trosglwyddo i addysg Gymraeg | |
|---|---|---|---|
| Arfon | 28 | 834 | 99.3% |
| Dwyfor | 18 | 301 | 100% |
| Meirionnydd | 19 | 346 | 100% |

Data dynodiad ieithyddol y darpariaethau gofal plant eraill yn y Sir:

| Darpariaeth | Cymraeg | Dwyieithog | Saesneg |
|---|---|---|---|
| Meithrinfeydd | 13 | 5 | 1 |
| Cylchoedd Meithrin/*Playgroup* – sydd ddim yn darparu AF | 7 | 1 | |
| Gwarchodwyr | 39 | 7 | 12 |
| Clybiau ar ôl Ysgol/Gwyliau | 10 | 4 | |

### Ble rydym yn ceisio bod o fewn 5 mlynedd cyntaf y Cynllun hwn a sut rydym yn bwriadu cyrraedd yno?

#### Ble?:

Byddwn yn anelu i barhau i gynnal y safonau uchel o gyrraedd y targed o 100% o blant 3 oed yn derbyn eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg. Byddwn yn manteisio ar bob cyfle i gyfathrebu a chyd-gynllunio gyda chyrff allanol ym maes y Blynyddoedd Cynnar, gan gynnwys Mudiad Meithrin, i gryfhau ac ehangu'r ddarpariaeth gofal plant cyfrwng Cymraeg, er mwyn sicrhau llwybr di-dor at addysg ddwyieithog, yn unol â Pholisi Iaith y Sir. Byddwn yn parhau i gyd-weithio gyda chyrff cyhoeddus megis Cymraeg i Blant, Consortia Rhanbarthol, RhAG, Urdd Gobaith Cymru a Mentrau Iaith.

## Sut?:

Byddwn yn parhau i:

- wneud defnydd o ddata darpariaeth gofal plant er mwyn cynllunio addysg cyfrwng Cymraeg o fewn y Sir.
- gynllunio i sicrhau bod yr Awdurdod yn cyflawni'r gofyn statudol o sicrhau lle meithrin i bob plentyn o'r tymor yn dilyn ei ben-blwydd yn 3 oed.
- ddarparu gwybodaeth i rieni o ran argaeledd addysg cyfrwng Cymraeg a'r math o addysg cyfrwng Cymraeg gaiff ei gynnig ar wefan y Cygor ac ar wefannau cymdeithasol perthnasol.
- Sicrhau bod Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd ar gyfer rhieni/gofalwyr a darpar rieni/gofalwyr yn darparu gwybodaeth am fanteision magu plant yn ddwyieithog.
- ddarparu gwybodaeth i rieni a gofalwyr am fanteision addysg cyfrwng Cymraeg.
- wneud y defnydd gorau o wybodaeth ynghylch y manteision a ddaw yn sgil dwyieithrwydd ac amlieithrwydd.
- fonitro'n rheolaidd yr holl leoliadau, i sicrhau'u cydymffurfiaeth â gofynion Polisi Iaith y Sir.

## Ble rydym yn disgwyl bod ar ddiwedd ein Cynllun deng mlynedd?

Ar ddiwedd ein cynllun deng mlynedd bydd Gwasanaethau Addysg y Blynyddoedd Cynnar yn cynnal yr un safonau uchel, ac yn sicrhau darpariaeth addas i ganiatáu i bob disgybl ddatblygu'n hyfedr ddwyieithog ymhob un o'r darpariaethau.

## Data Allweddol

Nid oes unrhyw ddata niferoedd genedigaethau ar gael.  Gellir nodi fod y genedigaethau yn gyffredinol is – gyda 1300 genedigaeth wedi'u cofnodi yn 2022. Mae'r targedau isod yn seiliedig ar wybodaeth bresennol CYBLD(2019/20/21) ac yn ystyried niferoedd dosbarth meithrin un ysgol cyfrwng Saesneg penodol sy'n cael ei thargedu gan yr Awdurdod i fedru cyrraedd disgwyliadau Polisi Iaith Gwynedd.

| % y plant meithrin/ tair oed yn cael eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 2022 - 2023 | 2023 - 2024 | 2024 - 2025 | 2025 - 2026 | 2026 - 2027 |
| 100% | 100% | 100% | 100% | 100% |
| 2027 - 2028 | 2028 - 2029 | 2029 - 2030 | 2030 - 2031 | 2031 - 2032 |
| 100% | 100% | 100% | 100% | 100% |

# Deilliant 2

## Mwy o blant dosbarth derbyn/ pump oed yn cael eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg

### Ble rydym ni nawr?

Mae Polisi Iaith yr Awdurdod yn rhoi pwyslais ar drochi dysgwyr 0-7 oed yn y Gymraeg, gan sicrhau mai asesiad Cymraeg yn unig a gânt ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen. Nod y Polisi Iaith yw sicrhau bod holl ddisgyblion y sir, ym mhob un o'n hysgolion, yn meddu ar sgiliau ieithyddol priodol yn y Gymraeg a'r Saesneg. Nid yw'r Sir yn diffinio ysgolion yn ôl categorïau ieithyddol gan fod yr un Polisi Iaith ar waith ymhob ysgol. Rhaid sicrhau darpariaeth addas i ganiatáu i bob disgybl ddatblygu'n hyfedr ddwyieithog. Ceir 80 Ysgol Gynradd, 2 Ysgol Ddilynol a 2 Ysgol Arbennig yng Ngwynedd.

### Ble rydym yn ceisio bod o fewn 5 mlynedd cyntaf y Cynllun hwn a sut rydym yn bwriadu cyrraedd yno?

**Ble?:**

Byddwn yn:

- anelu i sicrhau y bydd 100% o'n dysgwyr dosbarth derbyn/plant pump oed yn derbyn eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg, drwy sicrhau hyfforddiant priodol i gefnogi a chynnal staff fydd angen y gefnogaeth i'w galluogi i wneud hynny.
- sicrhau bob pob dysgwr dosbarth derbyn/5 oed yng Ngwynedd yn derbyn eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg.
- sicrhau bod gofynion y Dynodiadau Iaith yn cael eu gweithredu, a chynlluniau cadarn mewn lle i gefnogi ble bydd angen.
- sicrhau bod trefniadaeth o ran darpariaeth newydd-ddyfodiaid i addysg cyfrwng Cymraeg yn cael ei chyfathrebu mewn modd clir ac effeithiol gyda rhieni a gofalwyr.
- arfogi gweithlu'r Cyfnod Sylfaen yn egwyddorion addysg drochi i'w galluogi i ymateb i anghenion disgyblion sy'n newydd ddyfodiaid i'r ysgol, ac/neu i newydd ddyfodiaid sy'n trosglwyddo'n ôl i'r ysgolion yn dilyn cyfnod yn y Gyfundrefn Drochi.
- defnyddio'r Gymraeg fel iaith swyddogol yr asesu yn yr ysgol ar ddiwedd y cyfnod allweddol.

**Sut?:**

Byddwn yn:

- ystyried sut y bydd newidiadau arfaethedig i ddynodiadau ysgolion yn ôl eu darpariaeth yn effeithio ar ymrwymiad y Sir i gynyddu darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg mewn ysgolion cyfrwng Saesneg a dwyieithog/ffrwd ddeuol o fewn y Sir.
- sicrhau bod ysgolion yn adeiladu ar y sylfaen a osodwyd yn y cyfnod meithrin drwy barhau i ddatblygu gafael disgyblion pump oed ar y Gymraeg, a chychwyn ar y broses o ddatblygu eu sgiliau yn y Saesneg.
- darparu cefnogaeth ar gyfer newydd-ddyfodiaid y Sir drwy'r Gyfundrefn Addysg Drochi i feithrin sgiliau'r Gymraeg yn gynnar.
- darparu rhaglen o hyfforddiant priodol ar gyfer staff CS yn athrawon a chymorthyddion yn maes trochi ieithyddol.

## Ble rydym yn disgwyl bod ar ddiwedd ein Cynllun deng mlynedd?

Ar ddiwedd ein cynllun deng mlynedd bydd y Gwasanaeth yn arddangos twf yn y ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg, fydd yn caniatáu i bob disgybl ddatblygu'n hyfedr ddwyieithog. Bydd newydd-ddyfodiaid y Sir yn elwa o gyfundrefn addysg drochi aroloesol, sydd yn hyblyg ac yn darparu addysg drochi gyfoes o'r radd flaenaf, gan feithrin eu sgiliau yn y Gymraeg i'w galluogi i lwyddo a ffynnu yn ein hysgolion gan ddod yn siaradwyr hyfedr ddwyieithog.

## Data Allweddol

Nid oes unrhyw ddata niferoedd genedigaethau ar gael. Gellir nodi fod y genedigaethau yn gyffredinol is – gyda 1300 genedigaeth wedi'u cofnodi yn 2022. Mae'r targedau isod yn seiliedig ar wybodaeth bresennol CYBLD(2019/20/21) ac yn ystyried niferoedd dosbarth derbyn/ 5 oed un ysgol cyfrwng Saesneg penodol sy'n cael ei thargedu gan yr Awdurdod i fedru cyrraedd disgwyliadau Polisi Iaith Gwynedd.

| % y plant 5 oed sy'n derbyn eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 2022 - 2023 | 2023 - 2024 | 2024 - 2025 | 2025 - 2026 | 2026 - 2027 |
| 98.82% | 98.9% | 99% | 99.3% | 99.5% |
| 2027 - 2028 | 2028 - 2029 | 2029 - 2030 | 2030 - 2031 | 2031 - 2032 |
| 99.6% | 99.7% | 99.8% | 99.9% | 100% |

# Deilliant 3

## Mwy o blant yn parhau i wella eu sgiliau Cymraeg wrth drosglwyddo o un cyfnod o'u haddysg statudol i un arall

### Ble rydym ni nawr?

Mae Cydlynwyr Iaith pob Clwstwr o fewn y Sir yn atebol i Gydlynydd Siarter Iaith a Chydlynydd Strategaeth Iaith Uwchradd yr Awdurdod. Mae'r Cydlynwyr Clwstwr yn:

- annog a sbarduno trafodaeth sydd yn sicrhau cydweithio rhwng yr holl ysgolion.
- sicrhau llinellau clir o gyfathrebu wrth ddod i benderfyniadau.
- mynychu Cyfarfod Clwstwr tymhorol, a drefnir gan yr Awdurdod, ac sydd yn cael eu mynychu gan gynrychiolydd o GwE.
- adrodd yn ôl i berson cyswllt ym mhob ysgol gynradd, a'r ysgol Uwchradd o fewn y clwstwr, am gynnwys trafodaethau a phenderfyniadau.
- hybu cydweithio, yn unol â deilliannau Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg (CSGA) yr Awdurdod.

Disgwylir i holl sefydliadau addysg y sir adlewyrchu ac atgyfnerthu'r Polisi Iaith yn eu gweinyddiad, eu bywyd cymdeithasol a'u trefn fugeiliol yn ogystal ag yn eu darpariaeth gwricwlaidd. Rydym yn cefnogi ysgolion cynradd ac uwchradd i gydweithio mewn partneriaeth agos i dargedu rhieni/gofalwyr er mwyn hyrwyddo dilyniant ieithyddol, ac yn sicrhau bod yr holl staff sy'n debygol o ddod i gysylltiad gyda rhieni yn ymwybodol o'r negeseuon allweddol ynghylch addysg cyfrwng Cymraeg a dwyieithog a dilyniant ieithyddol i allu ateb cwestiynau all godi.

<u>Ein sefyllfa bresennol</u>:
O ganlyniad i bandemig Covid-19 nid oes data ar gael ar gyfer 2019/20 na 2020/21.

| | | |
|---|---|---|
| 2018-19 | Dysgwyr blwyddyn 9 yn cael eu hasesu yn Y Gymraeg (Iaith Gyntaf) | 84.5% |
| 2018-19 | Dysgwyr Cyfnod Sylfaen yn ennill Deilliant 5+ Y Gymraeg (asesiadau athro) | 78.8% |
| 2018-19 | Dysgwyr CA2 yn ennill Lefel 4+ Y Gymraeg Iaith Gyntaf (asesiadau athro) | 86.9% |
| 2018-19 | Dysgwyr CA3 yn ennill Lefel 5+ Y Gymraeg Iaith Gyntaf (asesiadau athro) | 91.9% |
| 2018-19 | Dysgwyr CA3 yn ennill Lefel 5+ Y Gymraeg Ail Iaith (asesiadau athro) | 77.1% |

### Ble rydym yn ceisio bod o fewn 5 mlynedd cyntaf y Cynllun hwn a sut rydym yn bwriadu cyrraedd yno?

### <u>Ble?</u>:

Byddwn yn:

- sicrhau cysondeb traws sirol drwy sicrhau fod pob disgybl sydd wedi ennill lefel 3+ yn y Gymraeg ar ddiwedd CA2 yn parhau gyda'r Gymraeg fel Iaith Gyntaf yn B7 ac yn cael asesiad Cymraeg Iaith Gyntaf ar ddiwedd CA3, a thrwy hynny, cynyddu'r % a asesir yn y Gymraeg fel Iaith Gyntaf ar ddiwedd CA3, gan ddylanwadu'n gadarnhaol ar y % sydd yn symud ymlaen i sefyll arholiad TGAU yn y Gymraeg Iaith Gyntaf.

- cynyddu nifer canran y disgyblion sy'n parhau i wella'u sgiliau Cymraeg wrth drosglwyddo o un cyfnod o'u haddysg statudol i un arall.
- monitro a sicrhau cysondeb ar draws yr ysgolion er mwyn sicrhau cynnydd yn y % a asesir yn y Gymraeg fel Iaith Gyntaf ar ddiwedd CA3.
- cydweithio gyda ysgolion penodol i sicrhau parhad ieithyddol o GA2 i GA3.
- sicrhau mynediad at Gyfundrefn Addysg Drochi Gwynedd, fydd yn cynnig addysg o'r safon uchaf o flwyddyn 2 ymlaen a chynnig cefnogaeth ddilynol briodol i unrhyw ddisgybl sy'n newydd ddyfodiad CA2/CA3 i'r sir.

## Sut?:

Byddwn yn:

- monitro'n fanwl ac yn gyson safonau yn ein hysgolion.
- rhannu arferion da ar gyfer addysgu, cyd addysgu, modelu, hyfforddi, monitro, paratoi a chynhyrchu adnoddau.
- cynllunio'n briodol i sicrhau bod disgyblion a addysgir yn ddwyieithog yn parhau i gael eu haddysgu felly wrth drosglwyddo o un grŵp blwyddyn i grŵp blwyddyn arall.
- cydweithio gyda'r ysgolion i sicrhau fod disgyblion yn dilyn trywydd ieithyddol sy'n ddatblygiad naturiol o un flwyddyn i'r llall ac o un cyfnod allweddol i'r llall, ac yn monitro hyn yn ofalus.
- trafod ac adnabod ar y cyd gyda'r ysgolion, gyfleoedd i gynyddu'r gyfran o ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg sy'n cael ei chynnig gan osod targedau sydd yn gyraeddadwy i'w cyflawni ac sy'n eu gallugoi i gyflawni gofynion Dynodiad Iaith yr ysgol.
- cryfhau pontio o'r cynradd i'r uwchradd i sicrhau dilyniant pwrpasol i waith y Siarter Iaith/Strategaeth Iaith.
- uwchsgilio'r gweithlu gan feithrin hyder disgyblion i ddefnyddio a datblygu'u sgiliau llafar ar draws yr ysgol.

## Ble rydym yn disgwyl bod ar ddiwedd ein Cynllun deng mlynedd?

Bydd cynnydd yn y nifer o blant sy'n parhau i wella'u sgiliau Cymraeg wrth drosglwyddo o un cyfnod o'u haddysg statudol i un arall. Bydd y cynnydd yn cael ei adolygu'n flynyddol fel sail i ymyrraethau a chamau gweithredu pellach. Bydd disgyblion y Sir yn elwa o gyfundrefn addysg drochi arloesol, fydd wedi gwreiddio, ac yn darparu addysg drochi gyfoes o'r radd flaenaf i'r dysgwyr, i'w galluogi i lwyddo a ffynnu yn ein hysgolion gan ddod yn siaradwyr hyfedr ddwyieithog.

## Data Allweddol

Mae'r targedau isod yn seiliedig ar gynyddu nifer y dosbarthiadau cyfrwng Cymraeg mewn tair ysgol benodol sy'n cael eu targedu gan yr Awdurdod i fedru cyrraedd disgwyliadau categoriau ieithyddol ysgolion e.e. cynyddu nifer o ddosbarthiadau cyfrwng Cymraeg ac felly hefyd nifer y disgyblion sy'n sefyll TGAU Cymraeg Iaith Gyntaf mewn un ysgol uwchradd fawr dros gyfnod o ddeg mlynedd o un dosbarth i bedwar dosbarth(oddeutu 120 o blant).

| % y dysgwyr sy'n parhau i wella eu sgiliau Cymraeg wrth drosglwyddo o un cyfnod o'u haddysg statudol i un arall | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 2022 - 2023 | | 2023 - 2024 | 2024 - 2025 | 2025 - 2026 | 2026 - 2027 |
| CS/CA2 | 98.3% | 98.9% | 99% | 99.3% | 99.5% |
| CA2/CA3 | 79.6% | 79.6% | 79.6% | 79.6% | 82.1% |
| CA3/CA4 Sefyll TGAU Cymraeg Iaith Gyntaf | 84.5% | 84.5% | 84.5% | 84.5% | 86.1% |
| 2027 - 2028 | | 2028 - 2029 | 2029 - 2030 | 2030 - 2031 | 2031 - 2032 |
| CS/CA2 | 99.6% | 99.7% | 99.8% | 99.9% | 100% |
| CA2/CA3 | 82.1% | 82.1% | 82.1% | 82.1% | 86.9% |
| CA3/CA4 Sefyll TGAU Cymraeg Iaith Gyntaf | 86.1% | 86.1% | 86.1% | 86.1% | 88.6% |

## Deilliant 4

## Mwy o ddysgwyr yn astudio ar gyfer cymwysterau Cymraeg (fel pwnc) a phynciau drwy gyfrwng y Gymraeg

### Ble rydym ni nawr?

Disgwylir gweld dilyniant a pharhad priodol yng nghyfrwng ieithyddol addysgu pob disgybl o un Cyfnod Allweddol i'r llall. Disgwylir i bob disgybl sydd wedi astudio Cymraeg (Iaith Gyntaf) fel pwnc yn yr ysgol gynradd barhau i wneud hynny yn yr uwchradd, a sefyll asesiad/arholiad yn y pwnc ar ddiwedd Blwyddyn 11. Disgwylir i bob disgybl sydd wedi cael eu haddysgu drwy gyfrwng Y Gymraeg yn yr ysgol gynradd barhau i wneud hynny yn yr uwchradd, a sefyll asesiadau/arholiadau allanol drwy gyfrwng Y Gymraeg. Trwy'r Gyfundrefn Drochi, rhoddir cefnogaeth i newydd-ddyfodiaid barhau i ddatblygu eu sgiliau iaith a'u hyfedredd yn y Gymraeg, gan gynnwys astudio cymwysterau Cymraeg (fel pwnc) a phynciau drwy gyfrwng y Gymraeg.

### Ble rydym yn ceisio bod o fewn 5 mlynedd cyntaf y Cynllun hwn a sut rydym yn bwriadu cyrraedd yno?

**Ble?:**

Bydd cynnydd yn y niferoedd o ddysgwyr sy'n :

- cael eu cofrestru i sefyll TGAU Cymraeg (Iaith Gyntaf) fel pwnc.
- ennill graddau A*-C mewn TGAU Cymraeg Iaith Gyntaf.
- cael eu cofrestru ar gyfer o leiaf tri chymhwyster pellach drwy gyfrwng y Gymraeg yng Nghyfnod Allweddol 4.
- cael eu cofrestru ar gyfer o leiaf pum cymhwyster pellach ar Lefel 1 neu Lefel 2 drwy gyfrwng y Gymraeg yng Nghyfnod Allweddol 4.
- cael eu cofrestru i sefyll Cymraeg (Iaith Gyntaf) fel pwnc Safon Uwch.
- astudio cymwysterau Lefel 3 drwy gyfrwng y Gymraeg.

Bydd dylanwad cadarnhaol y Gyfundrefn Drochi'n y Sir i'w weld ar gynnydd disgyblion.

**Sut?:**

Bydd pob ysgol yn ymateb i dargedau i gyrraedd y cynnydd, a bydd cynhaliaeth briodol yn cael ei chynnig a'i monitro'n gyson i'w galluogi i gyflawni'r cynnydd. Byddwn yn anelu i adfer a chynnal safonau trwy dargedu yr anghenion penodol sydd yn cael eu hamlygu, ac olrhain effaith y gweithredu i gydymffurfio gyda nod Polisi Iaith y Sir.

### Ble rydym yn disgwyl bod ar ddiwedd ein Cynllun deng mlynedd?

Byddwn yn parhau i gynnal y niferoedd uchel o ddysgwyr sy'n :

- cael eu cofrestru i sefyll TGAU Cymraeg (Iaith Gyntaf) fel pwnc.
- ennill graddau A*-C mewn TGAU Cymraeg Iaith Gyntaf.
- cael eu cofrestru ar gyfer o leiaf tri chymhwyster pellach drwy gyfrwng y Gymraeg yng Nghyfnod Allweddol 4.
- cael eu cofrestru ar gyfer o leiaf pum cymhwyster pellach ar Lefel 1 neu Lefel 2 drwy gyfrwng y Gymraeg yng Nghyfnod Allweddol 4.
- cael eu cofrestru i sefyll Cymraeg (Iaith Gyntaf) fel pwnc Safon Uwch.
- astudio cymwysterau Lefel 3 drwy gyfrwng y Gymraeg.

Bydd dylanwad cadarnhaol y Gyfundrefn Drochi'n y Sir ar gynnydd y disgyblion wedi gwreiddio.

## Data Allweddol

**Data presennol:**

| | | % | Nifer |
|---|---|---|---|
| 2020/21 | Dysgwyr gofrestrwyd i sefyll TGAU Cymraeg (Iaith Gyntaf) a chofrestru ar gyfer o leiaf tri chymhwyster pellach drwy gyfrwng y Gymraeg. | 71.3% | 876 |
| 2020/21 | Dysgwyr gofrestrwyd i sefyll TGAU Cymraeg (Iaith Gyntaf) a chofrestru ar gyfer o leiaf pum cymhwyster pellach ar lefel 1 neu lefel 2 drwy gyfrwng y Gymraeg. | 67.8% | 793 |
| 2020/21 | Dysgwyr gofrestrwyd i sefyll TGAU Cymraeg (Iaith Gyntaf). | 87% | 1068 |
| 2020/21 | Dysgwyr ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 4 enillodd raddau A*-C mewn TGAU Cymraeg Iaith Gyntaf. | 75.3% | 755 |
| 2020/21 | Dysgwyr ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 4 enillodd raddau A*-C mewn TGAU Cymraeg Ail Iaith. | 91.3% | 240 |
| 2020/21 | Dysgwyr a gofrestrwyd i sefyll Cymraeg (Iaith Gyntaf) fel pwnc Safon Uwch. | 12.3% | 44 |

## Niferoedd a % y dysgwyr sy'n astudio ar gyfer cymwysterau Cymraeg (fel pwnc) a phynciau drwy gyfrwng y Gymraeg:

**Niferoedd a % y dysgwyr gofrestrwyd i sefyll TGAU Cymraeg (Iaith Gyntaf) a chofrestru ar gyfer o leiaf tri chymhwyster pellach drwy gyfrwng y Gymraeg**

| 2022 - 2023 | | 2023 - 2024 | | 2024 - 2025 | | 2025 - 2026 | | 2026 - 2027 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 876 | 71.3% | 884 | 72% | 896 | 73% | 908 | 74% | 936 | 76.2% |
| **2027 - 2028** | | **2028 - 2029** | | **2029 - 2030** | | **2030 - 2031** | | **2031 - 2032** | |
| 946 | 77% | 956 | 78% | 970 | 79% | 982 | 80% | 996 | 81.1% |

**Niferoedd a % y dysgwyr gofrestrwyd i sefyll TGAU Cymraeg (Iaith Gyntaf) a chofrestru ar gyfer o leiaf pum cymhwyster pellach drwy gyfrwng y Gymraeg**

| 2022 - 2023 | | 2023 - 2024 | | 2024 - 2025 | | 2025 - 2026 | | 2026 - 2027 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 793 | 67.8% | 795 | 68% | 806 | 69% | 829 | 71% | 853 | 73% |
| **2027 - 2028** | | **2028 - 2029** | | **2029 - 2030** | | **2030 - 2031** | | **2031 - 2032** | |
| 865 | 74% | 876 | 75% | 888 | 76% | 900 | 77% | 913 | 78.1% |

| Dysgwyr a gofrestrwyd i sefyll Cymraeg (Iaith Gyntaf) fel pwnc TGAU. | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 2022 - 2023 | | 2023 - 2024 | | 2024 - 2025 | | 2025 - 2026 | | 2026 - 2027 | |
| 1068 | 87% | 1080 | 88% | 1092 | 89% | 1105 | 90% | 1117 | 91.2% |
| 2027 - 2028 | | 2028 - 2029 | | 2029 - 2030 | | 2030 - 2031 | | 2031 - 2032 | |
| 1129 | 92% | 1142 | 93% | 1154 | 94% | 1166 | 95% | 1188 | 96% |

| Dysgwyr a gofrestrwyd i sefyll Cymraeg (Iaith Gyntaf) fel pwnc Safon Uwch. | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 2022 - 2023 | | 2023 - 2024 | | 2024 - 2025 | | 2025 - 2026 | | 2026 - 2027 | |
| 44 | 12% | 47 | 13% | 51 | 14% | 55 | 15% | 58 | 16% |
| 2027 - 2028 | | 2028 - 2029 | | 2029 - 2030 | | 2030 - 2031 | | 2031 - 2032 | |
| 62 | 17% | 65 | 18% | 69 | 19% | 73 | 20% | 73 | 20% |

| Dysgwyr sy'n astudio cymwysterau Lefel 3 drwy gyfrwng y Gymraeg. | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 2022 - 2023 | | 2023 - 2024 | | 2024 - 2025 | | 2025 - 2026 | | 2026 - 2027 | |
| 182 | 50% | 193 | 53% | 200 | 55% | 207 | 57% | 218 | 60% |
| 2027 - 2028 | | 2028 - 2029 | | 2029 - 2030 | | 2030 - 2031 | | 2031 - 2032 | |
| 226 | 62% | 233 | 64% | 240 | 66% | 248 | 68% | 259 | 70% |

# Deilliant 5

## Mwy o gyfleoedd i ddysgwyr ddefnyddio'r Gymraeg mewn cyd-destunau gwahanol yn yr ysgol

### 6Ble rydym ni nawr?

Cyflawnir prif amcanion y Siarter Iaith a'r Strategaeth Iaith Uwchradd trwy:

- gefnogi datblygiad sgiliau iaith disgyblion i allu defnyddio'r Gymraeg
- drwytho'r dysgwyr mewn agweddau cadarnhaol o safbwynt Y Gymraeg
- cynnig cyfleoedd i ddenyddio'r Gymraeg mewn ystod o sefyllfaoedd
- greu awydd i fod eisiau defnyddio'r Gymraeg

Mae ymroddiad a pherchnogaeth y tîm arweinyddiaeth ym mhob ysgol yn gadarn o'i phlaid ac â disgwyliadau uchel o safbwynt ei gweithredu.  Mae strwythur staffio'r ysgolion yn nodi cyfrifoldebau ac atebolrwydd clir am weithrediad gwahanol agweddau o fywyd ysgol sy'n ymwneud â'r Gymraeg ac mewn partneriaeth â'r gymuned ehangach er mwyn sicrhau perchnogaeth lawn ohoni. Mae rôl y Cydlynwyr Iaith yn glir ac yn cael ei gweithredu'n gyson ar draws pob clwstwr o fewn y Sir.

Cynllunia pob ysgol yn fwriadus i gynnig cyfleoedd a phrofiadau ffurfiol ac anffurfiol i'r disgyblion ddefnyddio'r Gymraeg. Cefnogir pob cyfle i'r disgyblion ddefnyddio neu ymarfer yr iaith a'u cynorthwyo i sylweddoli bod byd cymdeithasol a diwylliannol cyfoethog yn gysylltiedig â'r Gymraeg.

- Defnyddir data o Hunanasesiad Iaith Gymraeg y gweithlu i sicrhau fod unrhyw anghenion hyfforddi yn cael eu diwallu er mwyn cefnogi sgiliau llafar y disgyblion.
- Caiff y Gwe Iaith ei gwblhau ddwy waith yn ystod blwyddyn addysgol.  Gwneir defnydd o'r data i ganfod gwaelodlin o batrymau ac arferion ieithyddol dysgwyr oddi fewn a thu allan i furiau'r ysgol.  Gwneir defnydd o'r data ynglŷn a'u hagweddau a'u hyder i ddefnyddio'r Gymraeg ar gyfer camau gweithredu pellach.
- Ceir cytundeb ar drefn atebolrwydd rhwng y Swyddogion Addysg, Consortia Rhanbarthol GwE a Chydlynwyr Iaith pob dalgylch.
- Mae dealltwriaeth o'r mesuryddion a dulliau amrywiol o fesur effaith a ddefnyddir wrth weithredu pob Cynllun Clwstwr Y Gymraeg.

### Ble rydym yn ceisio bod o fewn 5 mlynedd cyntaf y Cynllun hwn a sut rydym yn bwriadu cyrraedd yno?

### Ble?:

Bydd ysgolion yn sicrhau bod:

- bri a gwerth i'r Gymraeg wrth annog mwy o ddefnydd o'r Gymraeg fel cyfrwng dysgu a chymdeithasu ac yn parhau i weithredu'r Siarter Iaith a Strategaeth Iaith Uwchradd.
- ymagweddau cadarnhaol tuag at ddefnyddio'r Gymraeg yn cael ei hybu ymysg disgyblion a rhieni.
- Cyngor Iaith yn gweithredu'n effeithiol ym mhob ysgol.
- cydweithio agos gyda phartneriaethau allanol megis Yr Urdd, Hunaniaith, er mwyn meithrin agweddau iach a chynyddu defnydd o'r Gymraeg mewn cyd-destunau gwahanol yn yr ysgol.

- Llais y Disgybl yn ganolog yn y cynlluniau i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg yn gymdeithasol a thrwy gyfryngau digidol a chyfryngau cymdeithasol.
- data'r Gwe Iaith yn cael ei ddefnyddio fel gwaelodlin wrth gytuno ar gamau gweithredu.

## Sut?:

Byddwn yn:

- parhau i hybu egwyddorion y Siarter Iaith a'r Strategaeth Iaith i arwain at gynnydd pellach yn nefnydd cymdeithasol a chwricwlaidd disgyblion o'r Gymraeg.
- parhau i gefnogi ysgolion i hybu ymagweddau cadarnhaol tuag at ddefnyddio'r Gymraeg ymysg disgyblion a rhieni.
- sicrhau bod Cyngor Iaith yn gweithredu mhob ysgol ac yn glir o'u rôl a'u dyletswyddau.
- parhau i hwyluso cydweithio effeithiol rhwng ysgolion a phartneriaethau allanol megis Yr Urdd, Hunaniaith, er mwyn meithrin agweddau iach a chynyddu defnydd o'r Gymraeg mewn cyd-destunau gwahanol yn yr ysgol.
- cefnogi ysgolion i sicrhau bod Llais y Disgybl yn ganolog yn y cynlluniau i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg yn gymdeithasol a thrwy gyfryngau digidol a chyfryngau cymdeithasol.
- annog cydweithio rhwng ysgolion o fewn y Sir i sicrhau rhannu arferion da a chreu cysylltiadau fydd yn hybu defnydd o'r iaith.
- creu cysylltiadau a chyfleoedd i ymestyn rhannu arferion da y tu hwnt i ffiniau'r Sir.
- cefnogi ysgolion i allu defnyddio data'r Gwe Iaith fel gwaelodlin wrth gytuno ar gamau gweithredu.
- parhau i gynnal trafodaethau gyda'r Cyd-gysylltwyr Iaith ar y dulliau mwyaf hylaw ac effeithiol o rannu arferion da a'u rhannu ymysg clystyrau o fewn yr Awdurdod.

## Ble rydym yn disgwyl bod ar ddiwedd ein Cynllun deng mlynedd?

Bydd prif amcanion y Siarter Iaith a'r Strategaeth Iaith Uwchradd yn rhan ganolog o Gynlluniau Datblygu pob ysgol. Bydd ymroddiad a pherchnogaeth gadarn ohonynt, a bydd disgwyliadau uchel o safbwynt ei gweithredu. Gwelir effaith i'r gweithredu drwy gyfrwng y data a gesglir.

## Data Allweddol

### Cynyddu cyfleoedd i ddysgwyr ddefnyddio'r Gymraeg mewn cyd-destunau gwahanol yn yr ysgol:

**Canran o blant cynradd/uwchradd sydd wedi llenwi'r Gwe Iaith sy'n hyderus i wneud defnydd o'r Gymraeg yn eu bywydau bob dydd.**

| 2022 - 2023 | | 2023 - 2024 | | 2024 - 2025 | | 2025 - 2026 | | 2026 - 2027 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cynradd 75% | Uwchradd 75% | Cynradd 78.5% | Uwchradd 78.5% | Cynradd 79% | Uwchradd 85% | Cynradd 80% | Uwchradd 87% | Cynradd 82% | Uwchradd 90% |
| **2027 - 2028** | | **2028 - 2029** | | **2029 - 2030** | | **2030 - 2031** | | **2031 - 2032** | |
| Cynradd 83% | Uwchradd 91% | Cynradd 84% | Uwchradd 92% | Cynradd 85% | Uwchradd 93% | Cynradd 86% | Uwchradd 94% | Cynradd 87% | Uwchradd 95% |

| Nifer o blant cynradd/uwchradd sydd yn aelodau o'r Urdd yn yr ysgolion. | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 2022 - 2023 | | 2023 - 2024 | | 2024 - 2025 | | 2025 - 2026 | | 2026 - 2027 | |
| Cynradd 3973 | Uwchradd 1855 | Cynradd 3980 | Uwchradd 1860 | Cynradd 3985 | Uwchradd 1865 | Cynradd 3990 | Uwchradd 1870 | Cynradd 3995 | Uwchradd 1875 |
| 2027 - 2028 | | 2028 - 2029 | | 2029 - 2030 | | 2030 - 2031 | | 2031 - 2032 | |
| Cynradd 4000 | Uwchradd 1880 | Cynradd 1005 | Uwchradd 1885 | Cynradd 1010 | Uwchradd 1890 | Cynradd 1015 | Uwchradd 1895 | Cynradd 1020 | Uwchradd 1990 |

| Nifer o ysgolion cynradd/uwchradd sy'n llwyddo i gyrraedd disgwyliadau uchaf y Siarter Iaith/Strategaeth Iaith Uwchradd. | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 2022 - 2023 | | 2023 - 2024 | | 2024 - 2025 | | 2025 - 2026 | | 2026 - 2027 | |
| Cynradd 75% | Uwchradd 75% | Cynradd 78.5% | Uwchradd 78.5% | Cynradd 79% | Uwchradd 85% | Cynradd 80% | Uwchradd 87% | Cynradd 82% | Uwchradd 90% |
| 2027 - 2028 | | 2028 - 2029 | | 2029 - 2030 | | 2030 - 2031 | | 2031 - 2032 | |
| Cynradd 83% | Uwchradd 91% | Cynradd 84% | Uwchradd 92% | Cynradd 85% | Uwchradd 93% | Cynradd 86% | Uwchradd 94% | Cynradd 87% | Uwchradd 95% |

## Deilliant 6

## Cynnydd yn y ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (“ADY”) (yn unol â'r dyletswyddau a bennir gan y Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018)

### Ble rydym ni nawr?

Mae gofyn statudol o fewn Deddfwriaeth ADY (2018), ddaeth i rym ym Medi 2021, i sicrhau fod dysgwyr yn gallu cael darpariaeth dysgu ychwanegol drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae pob disgybl sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn cael mynediad at wasanaethau cyfrwng Cymraeg yng Ngwynedd. Mae darpariaethau a gwasanaethau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog ar gael ar gyfer yr holl ystod ac amrywiaeth o Anghenion Dysgu Ychwanegol. Mae pob aelod o staff o fewn y Gwasanaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiant yn rhugl yn y Gymraeg ac yn gallu darparu yn ddwyieithog. Mae cyfrwng iaith y mewnbwn yn ddibynnol ar anghenion dysgu unigolion.

Mae heriau yn bodoli ar gyfer rhai swyddi arbenigol o ran cynnal y lefel o ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn benodol ym Maes Seicoleg Addysgol, ac mae'n debygol o fod yn her yn y maes mewnbwn Namau Synhwyraidd o fewn y 10 mlynedd nesaf.

### Ble rydym yn ceisio bod o fewn 5 mlynedd cyntaf y Cynllun hwn a sut rydym yn bwriadu cyrraedd yno?

#### Ble?:

Bydd y Gwasanaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiant yn:

- parhau i ddarparu addysg ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol trwy gyfrwng y Gymraeg, ac yn ddwyieithog, ar hyd pob cam o'r daith addysgol.
- parhau i gynllunio darpariaeth o gwmpas anghenion plant a phobl ifanc a'u teuluoedd.
- parhau i weithredu gofynion Strategaeth ADY a Chynhwysiad Gwynedd ac Ynys Môn.
- parhau asesu maint a gallu'r Gweithlu ADY cyfrwng Cymraeg gan ddefnyddio'r canlyniadau i gynllunio'r gweithlu'n briodol.

#### Sut?:

Byddwn yn:

- ymgysylltu gyda rhieni/gofalwyr er mwyn sicrhau eu bod yn deall y ddarpariaeth a'r cymorth sydd ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg.
- defnyddio canfyddiadau arolygiadau o dan adran 63 o Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 er mwyn gwella darpariaeth ar gyfer personau ag anghenion dysgu ychwanegol ac ar gyfer cynllunio gweithlu o fewn y sector ADY.
- cynnal archwiliad blynyddol o wasanaethau ADY a Chynhwysiad os bydd bylchau'n ymddangos yn y ddarpariaeth Gymraeg.
- monitro, asesu'r galw a chynllunio o gwmpas anghenion plant a phobl ifanc a'u teuluoedd, a pharhau i sicrhau mynediad i wasanaethau sy'n gwbl ddwyieithog.

- ystyried unrhyw geisiadau rhesymol am gymorth a chefnogaeth gan siroedd eraill y rhanbarth sydd yn wynebu anawsterau o ran eu darpariaeth cyfrwng Cymraeg.

## Ble rydym yn disgwyl bod ar ddiwedd ein Cynllun deng mlynedd?

Bydd lefel staffio arbenigol (h.y. swyddi sydd yn Statudol o fewn Deddfwriaeth ADY a Tribiwnlys Cymru (2018) yng Ngwynedd yn ddigonol ar gyfer ymateb i’r gofyn fydd yn bodoli. Bydd gennym gynllun recriwtio addas ar gyfer cynllunio’r gweithlu dros yr hir dymor, ac fe fydd pob darpariaeth ac ymyrraeth sydd yn angenrheidiol ar gyfer hybu cynhwysiad dysgwyr gyda ADY ar gael yn ddwyieithog.

# Deilliant 7

## Cynnydd yn nifer y staff addysgu sy'n gallu addysgu Cymraeg (fel pwnc) a thrwy gyfrwng y Gymraeg

### Ble rydym ni nawr?

Yn sgil cwblhau Holiadur Sgiliau Iaith y Gweithlu Addysg, mae gwaith manwl wedi'i gyflawni i edrych ar y canfyddiadau, ac ystyried pa hyfforddiant a chefnogaeth ieithyddol sydd ei hangen ar weithlu'n hysgolion. Trefnwyd cyrsiau a hyfforddiant i ymateb i'r anghenion a amlygwyd yn sgil cynnal yr holiadur.  Rydym yn cydweithio'n agos gyda Chanolfan Bedwyr, Prifysgol Bangor a Chonsortia Rhanbarthol GwE er mwyn sicrhau bod cyrsiau Dysgu Cymraeg priodol ar gael i'r gweithlu addysg ar lefel Sylfaenol, Canolradd, Uwch neu er mwyn Gloywi Iaith a Chodi Hyder. Disgwylir i'r gweithlu addysg (athrawon, cymorthyddion, cymorthyddion cegin) ddiweddaru Holiadur Sgiliau Iaith yn flynyddol ar ddechrau'r flwyddyn addysgol er mwyn sicrhau data sydd yn gyfredol, i alluogi cynllunio hyfforddiant a chefnogaeth briodol ar eu cyfer, fydd yn eu galluogi i addysgu Cymraeg (fel pwnc) a thrwy gyfrwng y Gymraeg.  Bydd gofynion y Dynodiadau Iaith yn cael eu gweithredu yn y broses recriwtio, a thargedau yn cael eu monitro i sicrhau cynnydd yn y nifer.

### Ble rydym yn ceisio bod o fewn 5 mlynedd cyntaf y Cynllun hwn a sut rydym yn bwriadu cyrraedd yno?

**Ble?:**

- Bydd cynnydd yn y canran o athrawon sy'n hyderus i addysgu Cymraeg (fel pwnc) a thrwy gyfrwng Y Gymraeg yn ein hysgolion.
- Bydd cynnydd yn y canran o bynciau Cyfnod Allweddol 4 a 5 sy'n cael eu haddysgu drwy gyfrwng Y Gymraeg.
- Bydd pob swydd addysgu a hysbysebir yn cynnwys cyfeiriad at Ddynodiad Iaith y swydd.
- Bydd Llywodraethwyr pob ysgol yn meddu ar ddealltwriaeth o ofynion ieithyddol swyddi a hysbysebir ac o oblygiadau methu llwyddo i benodi yn unol â gofynion ieithyddol y swydd.

**Sut?:**

- Byddwn yn gwneud defnydd o ddata Cyfrifiad Blynyddol y Gweithlu i lywio gwaith cynllunio'r gweithlu a rhagdybio faint o athrawon fydd eu hangen ar gyfer y dyfodol yn seiliedig ar ragdybiaethau.
- Byddwn yn cydweithio gyda chonsortia rhanbarthol GwE a'r Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol er mwyn sicrhau cyflenwad digonol o benaethiaid ar gyfer y sector cyfrwng Cymraeg.
- Byddwn yn cydweithio gyda chonsortia rhanbarthol a darparwyr addysg gychwynnol i athrawon er mwyn sicrhau cyflenwad digonol o athrawon cyfrwng Cymraeg.
- Mewn cydweithrediad gyda chonsortia rhanbarthol GwE, byddwn yn cynorthwyo athrawon a gweithwyr cymorth i wella'u sgiliau Cymraeg a'u sgiliau addysgu cyfrwng Cymraeg drwy ddefnyddio cyrsiau fel Cynllun Sabothol a chynllunio ôl-ofal i unigolion ar ddiwedd cwrs.
- Byddwn yn cefnogi gweithlu'r ysgolion i ddatblygu eu sgiliau yn y Gymraeg, i loywi iaith, yn ogystal â'u gallu i ddysgu ac addysgu yn Gymraeg.

- Byddwn yn darparu a hyrwyddo Dysgu Proffesiynol Parhaus sy'n cefnogi hyfforddiant i athrawon ym methodoleg addysgu cyfrwng Cymraeg a dwyieithog, gan fanteisio ar enghreifftiau o arfer dda sydd eisoes ar waith yn nifer yr ysgolion ac ymchwil ddiweddar wrth wneud hynny.
- Byddwn yn datblygu hyfforddiant i gymorthyddion ac athrawon gan gynnal gweithdai cydweithredol ar ddatblygu cyfleoedd Llafaredd cyfoethog ac estynedig mewn dosbarthiadau Cyfnod Sylfaen.

## Ble rydym yn disgwyl bod ar ddiwedd ein Cynllun deng mlynedd?

Byddwn yn parhau i gynnal y ganran uchel o athrawon sy'n hyderus i addysgu Cymraeg (fel pwnc) a thrwy gyfrwng Y Gymraeg yn ein hysgolion. Byddwn yn parhau i:

- sicrhau canrannau uchel o bynciau Cyfnod Allweddol 4 a 5 sy'n cael eu haddysgu drwy gyfrwng Y Gymraeg.
- sicrhau bod pob swydd addysgu a hysbysebir yn cynnwys cyfeiriad at Ddynodiad Iaith y swydd.
- gydweithio gyda Llywodraethwyr pob ysgol er mwyn sicrhau eu bod yn ymateb yn llawn i ddisgwyliadau ieithyddol Polisi Iaith Ysgolion Gwynedd a Pholisi Recriwtio a Dethol Diogel Ysgolion Gwynedd.

## Cynyddu nifer y staff addysgu sy'n gallu addysgu Cymraeg (fel pwnc) a thrwy gyfrwng y Gymraeg:

**Nifer a chanran yr athrawon sy'n hyderus i addysgu Cymraeg (fel pwnc) a thrwy gyfrwng Y Gymraeg yn ein hysgolion.**

| 2022 - 2023 | | 2023 - 2024 | | 2024 - 2025 | | 2025 - 2026 | | 2026 - 2027 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cynradd 99.2% | Uwchradd 86.3% | Cynradd 99.2% | Uwchradd 87% | Cynradd 99.5% | Uwchradd 89% | Cynradd 99.7% | Uwchradd 90% | Cynradd 100% | Uwchradd 93% |
| **2027 - 2028** | | **2028 - 2029** | | **2029 - 2030** | | **2030 - 2031** | | **2031 – 2032** | |
| Cynradd 100% | Uwchradd 94% | Cynradd 100% | Uwchradd 96% | Cynradd 100% | Uwchradd 97% | Cynradd 100% | Uwchradd 98% | Cynradd 100% | Uwchradd 100% |

**Nifer(Cyfanswm) a chanran y pynciau Cyfnod Allweddol 4 sy'n cael eu haddysgu drwy gyfrwng Y Gymraeg.**

| 2022 - 2023 | | 2023 - 2024 | | 2024 - 2025 | | 2025 - 2026 | | 2026 - 2027 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 296 | 69.5% | 302 | 71% | 306 | 72% | 311 | 73% | 315 | 74% |
| **2027 - 2028** | | **2028 - 2029** | | **2029 - 2030** | | **2030 - 2031** | | **2031 - 2032** | |
| 319 | 75% | 323 | 76% | 328 | 77% | 332 | 78% | 340 | 80% |

**Nifer (Cyfanswm)a chanran y pynciau Cyfnod Allweddol 5 sy'n cael eu haddysgu drwy gyfrwng Y Gymraeg.**

| 2022 - 2023 | | 2023 - 2024 | | 2024 - 2025 | | 2025 - 2026 | | 2026 - 2027 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 132 | 57.9% | 132 | 58% | 134 | 59% | 136 | 60% | 139 | 61% |
| **2027 - 2028** | | **2028 - 2029** | | **2029 - 2030** | | **2030 - 2031** | | **2031 - 2032** | |
| 141 | 62% | 143 | 63% | 145 | 64% | 148 | 65% | 150 | 66% |

## Sut y byddwn yn gweithio gydag eraill i gyflawni ein gweledigaeth

**CYLCH GORCHWYL FFORWM IAITH GWYNEDD**

**PWRPAS:**

I gymryd trosolwg o holl agweddau'r CSGA, gan sicrhau comisiynu addas, cynnydd ar gamau gweithredu a deilliannau, a chyd-lynedd y gweithredu i gyflawni'r deilliannau fel un cyfanwaith. Bydd hyn yn cynnwys:

- Trosolwg o'r holl ddeilliannau
- Darparu arweiniad a chyngor cyffredinol i bob deilliant
- Briffio a herio cynnydd ar gamau gweithredu
- Comisiynu gwaith gan Fyrddau Prosiect eraill a gwasanaethau eraill
- Awdurdodi unrhyw newidiadau o bwys i ddeilliant unigol neu CSGA fel cyfanwaith
- Ystyried unrhyw gyfyngiadau allanol ar y deilliannau neu'r CSGA fel cyfanwaith
- Adnabod a dileu unrhyw rwystrau mewnol neu allanol i ddeilliant unigol neu'r CSGA fel cyfanwaith.

**AMLDER CYFARFODYDD:**

Bydd y Bwrdd Rhaglen yn cyfarfod yn chwarterol. Pe cyfyd materion fydd angen eu dyrchafu o fyrddau prosiect unigol, yna bydd modd trefnu cyfarfodydd ychwanegol yn ôl yr angen.

**RÔL:**

Mae'r Bwrdd Rhaglen wedi ei awdurdodi i weithio o fewn i goddefiannau amser, cyllid ac ansawdd i sicrhau y cyflawnir deilliannau unigol a'r CSGA yn ei gyfanrwydd.
Disgwylir i'r Bwrdd Rhaglen liniaru unrhyw risgiau sydd yn codi, ynghyd â monitro perfformiad a chynnydd o safbwynt deilliannau unigol a'r CSGA yn ei gyfanrwydd.
Bydd y Bwrdd Rhaglen yn gweithredu fframwaith llywodraethu priodol i gefnogi'r CSA er mwyn cyrraedd y deilliannau disgwyliedig.

**DOGFENNAETH:**

Bydd dogfennau perthnasol ar gyfer sylw aelodau yn cael eu dosbarthu oddeutu ythnos o flaen llaw. Bydd dogfennaeth yn cael eu dosbarthu yn electroneg, a bydd copi cael ar gael yn ôl yr angen.


**TREFNIADAU ADRODD:**

Disgwylir i allbwn cyfarfodydd y Bwrdd gael eu cofnodi a'u cadw fel rhan o ddogfennaeth y CSGA. Bydd dogfennaeth cyfarfodydd y Bwrdd Rhaglen a'r allbynnau yn gyfrwng i lunio Adroddiad Blynyddol yr Adran Addysg ar weithrediad y CSGA. Caiff Adroddiad Blynyddol CSGA ei gyflwyno gerbron y Pwyllgor Iaith cyn cael ei anfon ymlaen at Lywodraeth Cymru.

**AMSERLEN:**

Bydd y Bwrdd Rhaglen yn para hyd y CSGA, sef 10 mlynedd. Caiff y Cylch Gorchwyl ei adolygu bob 2 flynedd, neu'n achlysurol yn ôl yr angen

## STRWYTHUR ARFAETHEDIG CSGA




## AELODAETH FFORWM IAITH GWYNEDD

**FFORWM IAITH GWYNEDD** (BWRDD RHAGLEN)

Aelodaeth:

| | |
|---|---|
| Garem Jackson(Cadeirydd) | Pennaeth Addysg, |
| Debbie Anne Jones (Is-Gadeirydd) | Rheolwr Gwasanaethau Corfforaethol Addysg |
| Cemlyn Rees Williams | Aelod Cabinet Addysg |
| Nia Jeffreys | Aelod Cabinet Cefnogaeth Gorfforaethol (Iaith) |
| Cai Larsen | Pwyllgor Iaith |
| Gwern ap Rhisiart | Arweinydd Deilliant 1 CSGA |
| Diane Jones | Arweinydd Deilliant 2 CSGA |
| Diane Jones | Arweinydd Deilliant 3 CSGA |
| Rhian Parry Jones | Arweinydd Deilliant 4 CSGA |
| Sian Eirug/Gwenan Ellis Jones | Arweinydd Deilliant 5 CSGA |
| Ffion Edwards Ellis | Arweinydd Deilliant 6 CSGA |
| Rhian Parry Jones | Arweinydd Deilliant 7 CSGA |

# Asesu'r Effaith ar Nodweddion Cydraddoldeb, y Gymraeg ac Anfantais Economaidd-Gymdeithasol

Gweler y daflen *Sut i Wneud Asesiad Effaith Cydraddoldeb* am gymorth i lenwi'r ffurflen yma. Mae croeso hefyd i chi gysylltu gyda Delyth Williams, Swyddog Polisi a Chydraddoldeb ar est 32708, neu DelythGadlysWilliams@gwynedd.llyw.cymru, am gymorth pellach.

Mae'n ofynnol i'r Cyngor (dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010) i ystyried yr effaith fydd newid mewn unrhyw bolisi neu weithdrefn (neu greu polisi neu weithdrefn o'r newydd), yn ei gael ar bobl hefo nodweddion cydraddoldeb gwarchodedig. Mae gan y Cyngor hefyd ddyletswyddau cyffredinol ychwanegol i sicrhau tegwch a meithrin perthnasau da. Rhaid felly gwneud asesiad amserol cyn gwneud penderfyniad ar unrhyw newid perthnasol (h.y. sy'n cael effaith ar bobl hefo nodwedd gwarchodedig).

Mae hefyd yn ofynnol i'r Cyngor, dan ofynion Safonau'r Gymraeg (Adran 44 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011) ystyried yr effaith fydd newid mewn unrhyw bolisi neu weithdrefn (neu greu polisi neu weithdrefn o'r newydd), yn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac i sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Mae'r ddogfen hon felly yn sicrhau bod y penderfyniadau yma'n diogelu ac yn hyrwyddo'r defnydd a wneir o'r Gymraeg.

O Ebrill 1af 2021 ymlaen mae gan y Cyngor ddyletswydd i roi sylw dyledus i ddod i'r afael ag anfantais economaidd-gymdeithasol mewn penderfyniadau strategol.

## 1) Manylion

### 1.1 Beth yw enw'r polisi / gwasanaeth dan sylw?

Cynllun Strategol Y Gymraeg mewn Addysg.

### 1.2 Beth ydi pwrpas y polisi/gwasanaeth sy'n cael ei greu neu ei newid? Pa newidiadau sy'n cael eu hystyried?

Pwrpas Cynllun Strategol Y Gymraeg mewn Addysg (CSGA) yw amlinellu gweledigaeth yr Awdurdod o gael cyfundrefn addysg Gymraeg a dwyieithog sydd yn rhoi anghenion ein holl ddysgwyr yn ganolog i'r ddarpariaeth. Daeth y cynlluniau cyntaf hyn yn weithredol ar 1 Ebrill 2014 am gyfnod o 3 blynedd hyd at fis Mawrth 2017, ac fe ddiweddarwyd y Cynllun am y tair blynedd ddilynol. Oherwydd amgylchiadau di-gynsail Covid-19, ymestynnwyd y cyfnod hwnnw am un flwyddyn ychwanegol. Fe fydd y Cynllun newydd hwn yn weithredol am gyfnod o ddeng mlynedd, o fis Medi 2022 hyd 31ain Awst 2032.

Lluniwyd y Strategaeth gan gyfarch amcanion a gofynion dyletswyddau'r sector gyhoeddus dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 (gan gynnwys dyletswyddau sector gyhoeddus Cymreig). Yn unol a'r dyletswyddau cyfreithiol yma wrth wneud penderfyniadau mae rhaid i'r Cynghorau dalu sylw dyledus i'r angen (1) i ddiddymu gwahaniaethu anghyfreithiol (2) hyrwyddo cyfle cyfartal a (3) meithrin perthnasau da ar sail y nodweddion gwarchodedig, a thalu sylw dyledus i'r dyletswydd cymdeithasol economaidd dan Adran 1 o'r Ddeddf.

Cyfeiria Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 at wella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'r ddeddf yn gosod dyletswydd llesiant ar gyrff cyhoeddus i gyflawni 7 o nodau llesiant lle mae'r Gymraeg yn ffynnu. Paratowyd y Strategaeth gan gyfarch amcanion a gofynion y Ddeddf.

Mae'r Cynllun yn gosod ymrwymiad a chyfeiriad clir ar gyfer sicrhau bod dysgwyr Gwynedd yn cyflawni'r safonau uchaf er mwyn cynnal yr iaith, diwylliant a'r economi yn lleol.

### 1.3 Pwy sy'n gyfrifol am yr asesiad yma?

Rhian Parry Jones

### 1.4 Pryd wnaethoch chi gychwyn yr asesiad? Pa fersiwn yw hwn?

Cychwynnwyd ar yr asesiad wrth i'r ddogfen gael ei llunio, gan ei gwblhau wedi llunio drafft terfynol y Cynllun.

## 2) Gweithredu

### 2.1 Pwy yw'r budd-ddeiliaid neu bartneriaid fydd yn rhaid gweithio hefo nhw i wneud yr asesiad yma?

Cynrychiolwyr o ysgolion y sir – athrawon, cydlynwyr iaith, Llywodraethwyr. Swyddogion Cyngor Gwynedd.

### 2.2 Pa gamau ydych chi wedi ei cymryd i ymgysylltu gyda pobl hefo nodweddion gwarchodedig, ynglŷn â'r iaith Gymraeg neu â chymunedau (un ai oherwydd lleoliad neu oherwydd angen) sy'n byw ag anfantais economaidd-gymdeithasol?

Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus ar y Cynllun drafft, am gyfnod o wyth wythnos, rhwng 15 Hydref i 17 Rhagfyr 2021. Yn unol â'r Rheoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg ac Asesu'r Galw am Addysg Cyfrwng Cymraeg (Cymru) 2013, fe ymgynghorwyd â rhan-

| |
|---|
| ddeiliaid allanol yn ogystal â Llywodraeth Cymru. Gwnaed addasiadau i'r CSGA yn dilyn rhai o'r prif sylwadau a dderbyniwyd er mwyn cryfhau'r ddogfen ddiwygiedig. |

### 2.3 Beth oedd canlyniad yr ymgysylltu?

| |
|---|
| Y prif newidiadau sydd wedi cael eu hychwanegu i'r ddogfen yw esboniad cryno am y dynodiadau iaith a'r Polisi Iaith, ac ychwanegu data i'r tablau targedau 10 mlynedd ar ddiwedd pob deilliant. |

### 2.4 Ar sail pa dystiolaeth arall ydych chi'n gweithredu?

| |
|---|
| Ymgorfforir yng Nghynllun Strategol Y Gymraeg mewn Addysg weledigaeth Cynllun Hybu'r Gymraeg yng Ngwynedd (2013-23), a rhoddir ystyriaeth yn ogystal, i ofynion y deddfau a'r strategaethau canlynol wrth lunio'r Cynllun:<br>• *Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol* (2015)<br>• *Ffyniant i Bawb: Y Strategaeth Genedlaethol: Symud Cymru Ymlaen* (2016-2021), *Cytundeb Blaengar* (2016)<br>• *Deddf ADY a Thribiwnlys Addysg (Cymru)* (2018) |

### 2.5 Oes yna unrhyw fylchau yn y dystiolaeth sydd angen ei gasglu?

| |
|---|
| Nac oes, nid oes bylchau yr ydym yn ymwybodol ohonynt. |

## 3) Adnabod yr Effaith

### 3.1 Mae'n rhaid i'r Cyngor roi sylw dyledus i'r effaith fydd unrhyw newidiadau'n ei gael ar bobl hefo nodweddion cydraddoldeb isod. Beth yw'r effaith fydd y polisi/gwasanaeth newydd neu'r newidiadau arfaethedig yn ei gael ar bobl hefo'r nodweddion hyn? Mae hefyd angen ystyried yr effaith ar anfantais economaidd-gymdeithasol ac ar y Gymraeg.

| **Nodweddion** | **Sut fath o effaith? *** | **Ym mha ffordd? Beth yw'r dystiolaeth?** |
|---|---|---|
| **Hil (gan gynnwys cenedligrwydd)** | Positif | Er nad yw'r Cynllun yn gwahaniaethu ar sail hil na chenedligrwydd, mae'n ofynnol i ddisgyblion o bob cefndir i ddysgu'r Gymraeg a chael eu haddysgu drwy gyfrwng Y Gymraeg yn unol â Pholisi Iaith yr Awdurdod. Rhoddir cymorth i ddisgyblion ymdopi gyda'r newid hwn drwy eu cefnogi yn y Gyfundrefn Addysg Drochi a chynnig cefnogaeth |

| | | |
|---|---|---|
| | | briodol iddynt yn yr ysgol. Mae gan ysgolion Gwynedd bolisïau perthnasol ar waith i amddiffyn unigolion rhag unrhyw wahaniaethu yn seiliedig ar hil, megis Polisïau Cydraddoldeb, Cynhwysiant a Gwrth-fwlio. Mae'r polisi Gwrth-fwlio a ddarperir gan Gyngor Gwynedd yn nodi canllawiau a gweithdrefnau gwrth-fwlio yn seiliedig ar ffactorau megis hil yn yr ysgol. Yn ogystal, fe nodir ym mholisi Cydraddoldeb sydd yn cael ei gweithredu gan ysgolion cynradd Gwynedd fod yr ysgolion yn<br>*"..gwrthwynebu pob math o ragfarn a gwahaniaethu ac yn cydnabod bod gan ddisgyblion wahanol anghenion, gofynion ac amcanion."* |
| **Anabledd** | Positif | Nid yw'r CSGA yn gwahaniaethu ar sail anabledd. |
| **Rhyw** | Dim | Nid yw'r CSGA yn gwahaniaethu ar sail rhyw. Gweithredir gofynion Polisi Cydraddoldeb sydd yn nodi'r angen i:<br>*"..wrthwynebu pob math o ragfarn a gwahaniaethu ac yn cydnabod bod gan ddisgyblion wahanol anghenion, gofynion ac amcanion."* |
| **Oedran** | Dim | Cynhwysir pob disgybl sy'n derbyn addysg yn y Sir yn neilliannau'r CSGA. Ni wahaniaethir ar sail oedran gan fod deilliannau penodol yn berthnasol i oedrannau penodol. |
| **Cyfeiriadedd rhywiol** | Positif | Nid yw'r CSGA yn gwahaniaethu ar sail cyfeiriadedd rhywiol. |
| **Crefydd neu gred (neu ddiffyg cred)** | Dim | Nid yw'r CSGA yn gwahaniaethu ar sail crefydd neu gred. Mae Polisi Cynhwysiad yn amlinellu'r camau i'w dilyn mewn achos o wahaniaethu ar sail crefydd neu gred. |
| **Ailbennu rhywedd** | Dim | Nid yw'r CSGA yn gwahaniaethu ar sail ailbennu rhywedd. |
| **Beichiogrwydd a mamolaeth** | Dim | Amherthnasol. |
| **Priodas a phartneriaeth sifil** | Dim | Amherthnasol. |
| **Yr iaith Gymraeg** | Positif | Mae'r iaith Gymraeg yn ganolog i Gynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg. Mae'r cynllun yn cyd-fynd â Pholisi Iaith Cyngor Gwynedd ac felly disgwylir gweld effaith bositif ar yr Iaith Gymraeg wrth gyflawni'r targedau a amlinellir ynddo. Gosodir yr un disgwyliadau i bob ysgol, ac felly o ran gweithredu'r CSGA, ni ragwelir y bydd effaith negyddol ar yr iaith. |

| | | |
|---|---|---|
| **Anfantais Economaidd-Gymdeithasol** | Positif | Paratoir disgyblion o bob cefndir i ddeall manteision dwyieithrwydd yn gymdeithasol ac yn economaidd. |

* I'w ddileu yn ôl yr angen

**3.2 Mae'n ddyletswydd ar y Cyngor dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 i gyfrannu'n bositif i gymdeithas decach trwy hybu cydraddoldeb a pherthynas dda yn ei weithgareddau ym meysydd oedran, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, crefydd, hil, trawsrywedd, anabledd a beichiogrwydd a mamolaeth. Mae'n rhaid i'r Cyngor roi sylw dyledus i'r ffordd mae unrhyw newid yn effeithio'r dyletswyddau yma.**

| **Dyletswyddau Cyffredinol y Ddeddf Cydraddoldeb** | **A yw'n cael effaith?*** | **Ym mha ffordd? Beth yw'r dystiolaeth?** |
|---|---|---|
| **Cael gwared â cham-wahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth** | Nac ydi | Dim effaith. Ni fyddai gweithredu'r CSGA yn newid dim ar ddyletswydd statudol ysgolion Gwynedd i amddiffyn disgyblion rhag unrhyw wahaniaethu, aflonyddu neu erledigaeth. |
| **Hyrwyddo cyfleoedd cyfartal** | Ydi | Nod y Strategaeth yw hyrwyddo cyfleoedd cyfartal o ran mynediad i'r iaith a'i defnydd ar draws holl sefydliadau addysgol y Sir. Bydd cefnogaeth gadarn i ddysgwyr o gefndiroedd di-Gymraeg drwy'r Gyfundrefn Drochi'n benodol, ac yn yr ysgolion unigol, a bydd cefnogaeth briodol yn cael ei chynnig i sicrhau dealltwriaeth ac ymrwymiad rhieni i gefnogi datblygiad addysgol eu plant. Amlinellir y camau hyn fel rhan o Gynlluniau gweithredu'r Deilliannau yn y CSGA. |
| **Meithrin perthnasau da** | Ydi | Mae'r Cynlluniau arfaethedig yn neilliannau'r CSGA yn annog perthnasau cadarnhaol rhwng dysgwyr o amrywiol gefndiroedd – yn Gymraeg neu'n ddysgwyr o gefndiroedd di-Gymraeg. |

* I'w ddileu yn ôl yr angen

**3.3 Sut mae eich cynnig yn sicrhau eich bod yn gweithio yn unol â gofynion Safonau'r Iaith Gymraeg (Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011), i sicrhau na**

**chaiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg, ac y manteisir ar bob cyfle i hyrwyddo'r Gymraeg (y tu hwnt i ddarparu gwasanaethau'n ddwyieithog) a chynyddu cyfleoedd i ddefnyddio a dysgu'r iaith yn y gymuned?**

| |
|---|
| Gweler 2.4 uchod. |

**3.4 Pa fesurau neu newidiadau eraill y gallech eu cynnwys i gryfhau neu newid y polisi / arfer er mwyn cael effaith gadarnhaol ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg, ac i leihau neu atal unrhyw effeithiau andwyol y gallai'r polisi/ymarfer ei gael ar yr iaith Gymraeg?**

| |
|---|
| Ddim yn berthnasol – gweler 1.2 uchod. |

**3.5 Sut mae'r cynnig yn dangos eich bod wedi rhoi sylw dyledus i'r angen i fynd i'r afael ag anghyfartaledd o achos anfantais economaidd-gymdeithasol? (Sylwch fod hyn yn ymwneud â chau bylchau anghydraddoldeb yn hytrach na gwella canlyniadau i bawb yn unig).**

| |
|---|
| Gweler yr ymatebion blaenorol sydd yn amlinellu sut y gwneir hyn o fewn y Cynllun Strategol. |

**3.6 Pa fesurau neu newidiadau eraill y gallech eu cynnwys i gryfhau neu newid y polisi / arfer i ddangos eich bod wedi rhoi sylw dyledus i'r angen i leihau canlyniadau anghyfartal o ganlyniad i anfantais economaidd-gymdeithasol, yn unol â'r Ddeddf Economaidd-Gymdeithasol?**

| |
|---|
| Amherthnasol |

## 4) Dadansoddi'r canlyniadau

**4.1 Ydi'r polisi felly'n debygol o gael effaith sylweddol, bositif ar unrhyw un o'r uchod? Beth yw'r rheswm am hyn?**

| |
|---|
| Bydd y CSGA yn effeithio'n bositif ar ffyniant yr iaith Gymraeg o fewn y Sir. |

**4.2 Ydi'r polisi felly'n debygol o gael effaith sylweddol, negyddol ar unrhyw un o'r uchod? Beth yw'r rheswm am hyn?**

| |
|---|
| Nac ydyw. |

### 4.3 Beth ddylid ei wneud?

Dewiswch un o'r canlynol:

| | |
|---|---|
| Parhau gyda'r polisi / gwasanaeth gan ei fod yn gadarn | ✓ |
| Addasu'r polisi i ddileu unrhyw rwystrau | |
| Atal a dileu'r polisi gan fod yr effeithiau niweidiol yn rhy fawr | |
| Parhau a'r polisi oherwydd gellir cyfiawnhau unrhyw effaith niweidiol | |
| Dim camau pellach ar hyn o bryd, mae'n gynamserol i benderfynu, neu does dim digon o dystiolaeth | |

### 4.4 Os yn parhau hefo'r cynllun, pa gamau fyddwch chi'n cymryd i leihau neu liniaru unrhyw effeithiau negyddol?

Risgiau wedi'u hadnabod o fewn y Cynllun ac wedi cael eu hystyried – gweler uchod.

### 4.5 Os nad ydych yn gweithredu ymhellach i ddileu neu leihau effeithiau negyddol, esboniwch pam yma.

Ni ragwelir y bydd mabwysiadau Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg yn cael effaith negyddol ar unrhyw un o'r nodweddion cydraddoldeb y cyfeirir atynt yn yr asesiad hwn.

## 5) Monitro

### 5.1 Pa gamau fyddwch chi'n gymryd i fonitro effaith ac effeithiolrwydd y polisi neu wasanaeth (cynllun gweithredu)?

Bydd gweithrediad a datblygiad y CSGA yn cael ei fonitro'n gyson. Bydd cyfleoedd i wrando ac ymateb i ran-ddeiliaid wrth asesu effeithiolrwydd y Cynllun.

Bydd cymeradwyo'r CSGA yn fodd i Lywodraeth Cymru fonitro'r ffordd y bydd yr awdurdod yn ymateb i ofynion y deilliannau a amlinellir ynddo, ac i:

- sicrhau bod pob cam o brosesau addysg yr awdurdod lleol yn rhoi ystyriaeth lawn i addysg cyfrwng Cymraeg;
- ehangu addysg cyfrwng Cymraeg, lle bo galw, ar sail cynllunio gwell;
- sicrhau fod gwasanaethau cefnogi addysg cyfrwng Cymraeg yn cael eu cyflwyno ar sail consortia;
- wella safonau ac ehangu defnydd o'r Gymraeg ymhlith plant a phobl ifanc; a
- ddangos cynnydd yn erbyn targedau penodol y Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg.

# CABINET CYNGOR GWYNEDD

**Adroddiad i gyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y cyfarfod:** | **8 Mawrth 2022** |
| **Aelod Cabinet:** | **Y Cynghorydd Craig ab Iago** |
| **Swyddog Cyswllt:** | **Carys Fôn Williams** |
| **Rhif Cyswllt:** | **01341 424368** |
| **Pwnc:** | **ADRODDIAD PERFFORMIAD AELOD CABINET TAI AC EIDDO** |

---

**Y PENDERFYNIAD A GEISIR**

Derbyn a nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad.

---

**Y RHESYMAU PAM FOD ANGEN PENDERFYNIAD**

Er mwyn sicrhau rheoli perfformiad yn effeithiol

---

**1. CYFLWYNIAD**

1.1 Pwrpas yr adroddiad hwn yw diweddaru fy nghyd aelodau ar yr hyn sydd wedi digwydd yn y meysydd yr wyf yn gyfrifol amdanynt fel yr Aelod Cabinet dros Dai ac Eiddo. Bydd hyn yn cynnwys amlinellu'r hyn sydd wedi digwydd yn erbyn addewidion Cynllun Cyngor Gwynedd 2018-2023; lle mae'r mesurau perfformiad arni; a'r diweddaraf o ran cynlluniau arbedion a thoriadau.

1.2 Hoffwn eich atgoffa bod yr holl faterion eisoes wedi bod yn destun trafodaeth ac wedi eu craffu gennyf mewn cyfarfod o Dîm Rheoli'r Adran Tai ac Eiddo, oedd hefyd yn cynnwys cynrychiolwyr o'r Pwyllgor Craffu perthnasol.

1.3 Yn gyffredinol rwy'n fodlon gyda chynnydd prosiectau yr mae'r adran yn eu harwain yn unol â Chynllun y Cyngor a'r mesurau perfformiad yr wyf yn gyfrifol amdanynt.

**2. PROSIECTAU CYNLLUN CYNGOR GWYNEDD 2018-2023 (Blaenoriaethau Gwella)**

2.1 **Diffyg cartrefi addas i bobl Gwynedd: Gweithredu a gwireddu prosiectau ein Cynllun Gweithredu Tai er mwyn cynyddu'r cyfleoedd i bobl leol gael cartref addas o fewn eu cymunedau**

Cymeradwywyd y Cynllun Gweithredu Tai gan y Cabinet ar y 15 Rhagfyr 2020. Ers hynny, mae swyddogion yn gweithio'n ddiwyd ar y 33 o brosiectau sydd yn y Cynllun Gweithredu, ac mae

nifer helaeth o'r prosiectau ar waith ar hyn o bryd, a rhai ohonynt ar fin cwblhau. Hoffwn dynnu sylw at ambell brosiect isod.

### 2.1.1 Cynlluniau digartrefedd

Mae'r cynnydd mewn niferoedd digartref yn parhau yn frawychus o uchel ac yn parhau i fod yn straen sylweddol ar staff. Ar y 14 Ionawr, 2022, roedd 712 o unigolion yn ddigartref yng Ngwynedd, sy'n gynnydd o 51% ar y nifer yn 2018/19. Gweler y data diweddaraf yn y tabl isod:

| Blwyddyn | Nifer o gyflwyniadau digartref |
|---|---|
| 2018/2019 | 576 |
| 2019/2020 | 593 |
| 2020/2021 | 812 |
| 2021/2022 | 868 (10 mis) |

Fel y gellid ei ddychmygu, mae hyn oll yn golygu bod y galw ar wasanaethau'r Unedau Digartrefedd yn parhau yn gyson uchel. Ar ddechrau'r pandemig, bu i Lywodraeth Cymru ddiddymu'r cymal o 'flaenoriaethu'r angen' wrth ystyried cyfeiriadau digartrefedd, gan ei wneud yn ofynnol i Awdurdodau Lleol gartrefu pawb oedd yn cyflwyno'n ddigartref a sicrhau nad oedd neb yn cysgu allan ar y stryd. Bellach, mae Llywodraeth Cymru bod wedi penderfynu gwneud hwn yn gam parhaol, sy'n golygu y bydd nifer cyflwyniadau digartref parhau ar y lefelau presennol, ac yn debygol o godi, gan olygu na fyddwn, mae'n debyg, yn gweld y niferoedd yn dychwelyd i'r hyn a welwyd cyn y pandemig eto.

Erbyn hyn, mae'r Adran wedi gallu cynyddu capasiti'r tîm sydd yn rhoi cefnogaeth i unigolion fedru sefydlu tenantiaethau er mwyn symud ymlaen i geisio ymdopi â'r cynnydd. Yn ddiweddar iawn, rydym hefyd wedi llwyddo i gynyddu capasiti y tîm ataliol i leihau'r cyflwyniadau sydd yn cyrraedd yr Adran yn y lle cyntaf. Ar hyn o bryd, rydym yn llwyddo i atal 19% o achosion o ddigartrefedd, sydd ymysg yr uchaf yng Nghymru.

Mae'n falch gen i adrodd hefyd bod gwaith yn mynd yn ei flaen yn dda iawn i gynyddu'r unedau i'r digartref yng Ngwynedd.

Agorodd Tŷ Adferiad (llety â chefnogaeth arbenigol i ferched) ym Mhorthmadog ym mis Hydref 2021, ac mae'r 6 uned bellach yn llawn ac yn rhoi'r gefnogaeth angenrheidiol i'r preswylwyr. Ym mis Rhagfyr, 2021, cwblhawyd 4 "pod" arloesol i gartrefu unigolion digartref yng Nghaernarfon, a bydd y tenantiaid cyntaf yn symud i mewn yn ystod yr wythnosau nesaf. Mae gwaith ar y gweill i greu 16 o unedau â chefnogaeth i'r digartref ym Mangor, a bwriedir cwblhau'r unedau cyntaf yn ystod y misoedd nesaf.

Dyma dabl sy'n crynhoi'r prosiectau sydd ar y gweill neu sydd wedi cwblhau yn y misoedd diwethaf:

| Prosiect | Nifer yr unedau | Amserlen |
|---|---|---|
| 35 Ffordd y Coleg, Bangor | 3 | Ar y safle, gwaith yn cwblhau Chwefror 2022 |
| Pods, Segontiwm, Caernarfon | 4 | Wedi cwblhau'r gwaith adeiladu. Tenantiaid cyntaf yn symud i mewn ym mis Chwefror 2022. |
| 137 Stryd Fawr, Bangor | 12 | Anelir i gwblhau erbyn Hydref 2022. |
| Llety arbenigol gyda chefnogaeth i ferched | 6 | Wedi cwblhau ac agor ers Hydref 2021, gyda phob uned yn llawn |

| | | |
|---|---|---|
| Llety i deulu ac unigolyn ym Mhwllheli | 2 | Ar y safle, cwblhau Mawrth 2022 |
| Glan Wnion, Dolgellau | 5 | Apêl wedi'i ganiatáu wedi i Barc Cenedlaethol Eryri wrthod y Cais Cynllunio gwreiddiol. Bydd y contract yn dechrau ddiwedd mis Ionawr, 2022. |
| Tŷ Adferiad, Porthmadog | 6 | Gwaith wedi cwblhau a 5 o denantiaid yn derbyn cefnogaeth ar hyn o bryd gyda bwriad i lenwi'r ystafell olaf yn fuan |
| **Cyfanswm:** | **38** | |

Er gwaethaf hyn, rydym yn rhag-weld, yn y tymor byr yn sicr, y bydd y galw yn fwy na allwn ni ei gyfarch ond rydw i'n ffyddiog bod yr Adran yn gwneud y gorau posibl gyda'r adnoddau sydd ar gael i roi to uwch ben y digartref yn y Sir ac yn lleihau ein dibyniaeth ar lety dros dro.

2.1.2 **Cynlluniau Prynu Tai a Phrynu Tir**

Mae'n fwriad gan y Cyngor i brynu tai i'w rhentu i drigolion Gwynedd, a hynny mewn dwy ffordd, naill ai trwy brynu tai preifat a'u gosod ar rent canolraddol, neu brynu cyn-dai cymdeithasol a'u gosod ar rent cymdeithasol. Amlinellir dan gynlluniau 2c (Prynu cyn-dai cymdeithasol a'u rhentu i drigolion Gwynedd) a 3b (Prynu Tai Preifat) y Cynllun Gweithredu Tai.

O weithredu'r cynlluniau hyn yn llwyddiannus, ar ddiwedd cyfnod 6 mlynedd ein Cynllun Gweithredu Tai bydd y Cyngor yn berchen ar oddeutu 100 o dai fydd ar gael i'w gosod i drigolion lleol.

Mae gwaith helaeth wedi digwydd y tu ôl i'r llenni ar y cynlluniau hyn eisoes, ac mae swyddogion wedi ymweld â nifer helaeth o eiddo ar draws Gwynedd dros y misoedd ers lansio'r Cynllun, ac ar hyn o bryd mae gennym 15 o dai mewn golwg i'w prynu dros y misoedd nesaf. Mae llythyrau wedi'u hanfon at gannoedd o berchnogion tai gweigion yng Ngwynedd i drafod y potensial i'w gwerthu i ni, ac mae swyddogion yn parhau i drafod a negodi i brynu tiroedd. Gwaetha'r modd, mae sefyllfa'r farchnad yn golygu bod nifer o'r eiddo/tiroedd hyn yn cael eu gwerthu o fewn ychydig ddyddiau iddynt gael eu rhoi ar y farchnad. Serch hynny, mae gennym diroedd yn Llanystumdwy, Llanberis a Rhoshirwaun yr ydym yn bwriadu eu datblygu, ac mae swyddogion wrthi'n trafod prynu tiroedd yn ardal Pen Llŷn a de Meirionnydd, ond oherwydd natur sensitif y farchnad a'r trafodaethau, ni allwn rannu rhagor o fanylion ar hyn o bryd.

Mae'r cynllun Cymorth Prynu wedi gweld buddsoddiad o £1m eleni, a hyd yma yn helpu 12 person/teulu/ymgeisydd i brynu tai. Rydym yn edrych i ymestyn y cynllun drwy arian y Cynllun Gweithredu Tai a thrwy gyllideb bellach gan Lywodraeth Cymru, gyda manylion i'w cadarnhau ym mis Mawrth.

2.1.3 **Datblygu ein tai ein hunain ar gyfer pobl leol**

Mae Cynllun 3a: *Datblygu ein tai ein hunain er mwyn cynyddu'r cyfleoedd i drigolion Gwynedd gystadlu yn y farchnad dai* yn gynllun cyffrous sy'n anelu i godi tai arloesol ar draws Gwynedd a fydd ar gael i'w prynu neu eu rhentu ar rent canolraddol. Bydd pob tŷ yn cael ei adeiladu yn seiliedig ar egwyddorion hanfodol dan faner 'Tŷ Gwynedd', gan sicrhau eu bod yn hyblyg, yn wyrdd, yn ynni-effeithiol, ac wedi'u hadeiladu yn gynaliadwy.

Mae deunydd hyrwyddo'r cynllun wedi'i ryddhau ar y cyfryngau cymdeithasol ac ar wefan y Cyngor, gan gynnwys fideo cysyniadol ac eglurhad o beth yw Tŷ Gwynedd er mwyn rhoi'r cyfle i'r unigolion allai fod yn gymwys i ymgeisio amdanynt wneud hynny pan fo'r amser yn briodol.


Bydd y datblygiad cyntaf, sef 10 o dai yn ardal Coed Mawr, Bangor, yn mynd i ymgynghoriad ganol Chwefror, 2022, ac yn agored am fis. Yna, yn ddibynnol ar ganfyddiadau'r ymgynghoriad, bwriedwn gyflwyno cais cynllunio llawn ddechrau'r gwanwyn.

Wedi i gynllun tai ar safle Coed Mawr, Bangor, gael ei sefydlu, bydd y cynllun yn symud ymlaen i ystyried safleoedd eraill ar draws y Sir, gan ddechrau gyda dau safle yn Nwyfor.

### 2.1.4 Grantiau

Mae grantiau a roddwn i bobl Gwynedd ar gyfer gwneud addasiadau i dai yn caniatáu i unigolion anabl y Sir allu parhau i fyw yn ddiogel yn eu cartref. Cwblhawyd 142 o addasiadau yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, megis 70 o addasiadau i risiau neu osod gadeiriau esgyn a gosod 12 o rampiau ynghyd a chodi estyniadau neu addasu ystafelloedd presennol i greu ystafelloedd gwlyb pwrpasol.

Yn ddiweddar, llwyddwyd i ddenu £3m tuag at gynlluniau Tai Gwag er mwyn prynu a dod â tai gweigion Gwynedd yn ôl i ddefnydd. Mae'r map isod yn dangos lle mae'r ceisiadau byw ar hyn o bryd ynghyd â'r ymholiadau y mae'r Uned wedi'u derbyn.




**Lleoliadau**

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Ceisiadau byw** | | | |
| Bangor (2) | Bethesda a Thregarth (4) | Blaenau Ffestiniog (3) | Bontnewydd (1) |
| Caernarfon (2) | Deiniolen (2) | Groeslon (1) | Llanuwchllyn (1) |
| Penisarwaun (1) | Penygroes (2) | Pwllheli (2) | Y Felinheli (1) |
| **Ymholiadau** | | | |
| Bangor (4) | Bethesda (3) | Blaenau Ffestiniog (1) | Caernarfon (4) |
| Deiniolen (1) | Dolgellau (2) | Penrhyndeudraeth (2) | Penygroes (1) |
| Pistyll (1) | Porthmadog (3) | Pwllheli (1) | Tywyn (1) |
| Y Bala (1) | | | |

Mae'r Grant Cymorth Tai wedi codi bellach i £6.8m y flwyddyn (cynnydd o £1.6m). Mae'r gyllideb hon wedi ei chadarnhau am y 3 blynedd nesaf (h.y. hyd at 2024/5). Yn yr un modd, mae'r Grant Tai Cymdeithasol wedi gweld cynnydd sylweddol, gyda'r gyllideb bellach yn £9.43m y flwyddyn. Rydym yn obeithiol am swm cyffelyb ar gael am y 3 blynedd nesaf ond nid oes cadarnhad o hynny eto. Yn olaf, mae'r Cyngor wedi llwyddo i ddenu oddeutu £650,000 dros 4 prosiect hyd yma o'r Gronfa Datblygu Tir ac Adeiladau newydd (yr hen Gronfa Ryddhau Tir). Bwriad y grant hwn yw ceisio datgloi asedau a goresgyn problemau sy'n ymwneud â thir er mwyn hwyluso datblygiadau tai.

2.1.5 **Ymgynghori gyda chymunedau i sefydlu'r gwir angen am dai**

Un o brosiectau'r Cynllun Gweithredu Tai yw i 'Ymgynghori gyda chymunedau er mwyn sefydlu eu hanghenion tai' sydd bellach yn rhan o waith ymgynghori ehangach dan arweiniad yr Adran Economi a Chymuned. Mae rhan gyntaf yr ymgynghoriad, sef cynnal sgyrsiau cychwynnol gyda Chynghorau Cymuned, Grwpiau Adfywio ac ati wedi dod i ben, a bydd yr ail ran, sef ymgynghoriad llawn a chyhoeddus, yn cael ei lansio ym mis Chwefror. Bydd y cwestiynau ynglŷn â'r maes tai yn sefydlu anghenion tai cymunedau gwahanol y Sir a galluogi i ni flaenoriaethu'r ardaloedd hyn gyda'n cynlluniau.

Mae'r dadansoddiad cychwynnol a wnaed o'r ymatebion yng ngham 1 yn dangos bod tai yn un o'r prif feysydd y bydd angen rhoi ystyriaeth iddo, a byddwn yn ystyried y sylwadau a roddwyd ar sail ardaloedd unigol fel bod modd dod o hyd i ddatrysiad sy'n gweithio ar lefelau lleol.

2.2 **Mynediad rhwydd a chlir at wasanaeth ymholiadau a chynghori ar faterion tai: Sefydlu ein drws ffrynt a desg gymorth ar gyfer y cyhoedd er mwyn eu helpu gyda phroblemau tai:**

Mae'r Adran yn bwriadu sefydlu drws ffrynt/desg gymorth ar gyfer gwasanaethau tai fydd yn hwyluso mynediad y cyhoedd at y gwasanaethau hynny ac yn eu helpu gyda phroblemau tai yn fwy effeithlon.

Penodwyd Arweinydd y Tîm Siop un Stop yn nechrau mis Chwefror 2022, a fydd yn cynnal sgyrsiau gyda nifer o fudd-ddeiliaid a phartneriaid ar draws yr Adran, y Cyngor ac yn allanol (gan gynnwys y Cymdeithasau Tai, asiantaethau yn y maes a phartneriaid o'r trydydd sector) er mwyn ymchwilio i'r ymholiadau sy'n ein cyrraedd ni ac asiantaethau allanol, a phlethu hynny i weithrediad y Siop un Stop maes o law. Bydd yr ymchwil yn arwain at baratoi a chyflwyno adroddiad ar yr opsiynau gwahanol yn cynnwys argymhelliad ar y ffordd ymlaen.

Bydd yr holl ymchwil a gesglir hefyd yn bwydo'r broses o ddatblygu fframwaith darparu a chomisiynu system rheoli gwybodaeth dros y misoedd nesaf. Yn ogystal â hynny, mae bwriad i osod trefniadau i sefydlu Llwybr Sengl (neu SPOA) ar gyfer gwasanaethau Grant Cymorth Tai.

Er bod gwahaniaethau yn y modd y mae pob Awdurdod wedi sefydlu'r gwasanaeth hwn, prif rôl y Llwybr fydd gwirio addasrwydd ceisiadau ar gyfer derbyn gwasanaethau Grant Cymorth Tai a chyfeirio'r unigolyn at y darparwr mwyaf priodol.

2.3 **Gosod tai cymdeithasol i bobl leol: Creu polisi gosod newydd ar gyfer y sir fydd yn rhoi mwy o flaenoriaeth i bobl leol**

Mae'r Polisi Gosod Lleol yn cyfarch anghenion tai trigolion sydd â chysylltiad Gwynedd ond mae rhaid iddo hefyd fod yn seiliedig ar feini prawf statudol i gydnabod anghenion tai. Bu i'r

Polisi Gosod Tai Cyffredin gael ei gyflwyno ym mis Hydref 2020, a hynny ar ôl cyfnod o ymgynghori a chraffu yn fewnol a gyda phartneriaid allanol.

Mae gwaith yn mynd rhagddo ar hyn o bryd i adolygu gweithrediad y polisi a'i weithredu am gyfnod o 12 mis er mwyn sicrhau ei fod yn gweithredu yn unol â'r amcanion gwreiddiol.

Mae'r galw am eiddo cymdeithasol yn sylweddol uwch na'r cyflenwad, ac er bod hyn wedi bodoli ers peth amser rydym wedi sylwi bod yna gynnydd sylweddol ar geisiadau gwasanaeth wedi bod dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Mae hyn, ynghyd â'r cynnydd yn y maes digartref, yn gosod heriau i'r gwasanaeth wrth i ni geisio cartrefu a chynorthwyo'r rhai mwyaf bregus ac anghenus.

Un o fesurau perfformiad yr Adran yw'r ganran o holl osodiadau tai cymdeithasol a osodwyd i berson gyda chysylltiad lleol. Yn ystod mis Rhagfyr 2021, roedd 97% o osodiadau wedi eu gosod i berson â chysylltiad lleol. Mae'r ffigwr wedi bod yn gyson dros 95% yn ystod y flwyddyn ddiwethaf ac eithrio mis Mehefin, a oedd yn 92%. Mae'r Polisi hefyd yn gosod haen o flaenoriaeth i ymgeiswyr o fewn band sydd â cysylltiad cymuned; mae hyn yn atgyfnerthu'r pwyslais ar gyfarch anghenion tai pobl leol.

Mae'r gwaith hwn bellach yn cael ei ymgorffori yn rhan o waith dydd-i-ddydd yr Adran, ac ni fyddwn yn adrodd arno fel rhan o'n blaenoriaethau gwella o hyn ymlaen.

2.4 **Risgiau eraill**

Mae ambell risg i'r Adran sydd angen i mi eu hamlygu ar hyn o bryd.

2.4.1 Fel y nodwyd yn flaenorol, mae'r galw am wasanaethau'r **Unedau Digartrefedd** yn parhau yn gyson uchel gyda'r niferoedd digartref yn parhau i dyfu. Nid yw hyn yn debygol o ddiflannu a bydd yr angen am lety dros dro yn parhau am flynyddoedd i ddod, fel y gwelir yn y tabl niferoedd o gyflwyniadau digartref uchod. Cyhoeddodd y Llywodraeth bod gofyn i awdurdodau lleol gartrefu pawb sy'n cyflwyno'n ddigartref o hyn ymlaen, felly gan ystyried y bydd y galw yn debygol iawn o barhau ar lefelau uchel, mae risg sylweddol na fydd y cyflenwad llety dros dro a thenantiaethau parhaol sy'n bodoli ar hyn o bryd yn ddigon i ateb y galw.

Yn sgil y gofyn ychwanegol hwn i gartrefu pawb sy'n cyflwyno'n ddigartref, dros y flwyddyn ariannol ddiwethaf, amcangyfrifir bydd ein costau llety dros dro yn agos at £2 miliwn. Mae'r cynnydd costau a welwyd yn sgil y pandemig wedi'i gyfarch hyd yma trwy Gronfa Caledi'r Llywodraeth. Yn sgil cyhoeddiad na fydd y Gronfa Caledi'n parhau y tu hwnt i'r flwyddyn ariannol nesaf, ac er mwyn cyfarch y costau uwch hyn, mae'r adran wedi cyflwyno bid yn unol â threfniadau bidio'r Cyngor (disgwylir penderfyniad terfynol ar y cais ym mis Mawrth), ynghyd â chadarnhad o gyllid ychwanegol gan Llywodraeth Cymru o tua £475k. Fodd bynnag, mae risg gwirioneddol na fydd y cyllid hwn yn ddigonol ac na fyddwn yn gallu ariannu'r math hwn o alw yn y dyfodol.

Mae'r risgiau'n ymwneud â Digartrefedd yn debygol o fod gyda ni nes bydd y cydbwysedd rhwng y galw am dai a'r cyflenwad yn gwella.

2.4.2 Mae'r Adran hefyd yn parhau i weld effaith Covid-19 a Brexit ar **brosiectau adeiladu a cynnal a chadw rhaglenedig**. Dros y flwyddyn ddiwethaf mae'r Adran wedi ei chael yn anodd denu contractwyr i dendro am waith, neu pan fo cwmnïau'n tendro, byddai hynny'n aml yn uwch o lawer na'r gyllideb. Er enghraifft, er i 19 contractwr fynegi diddordeb mewn un cais am dendr, dim ond 2 dendr a dderbyniwyd. Roedd un o fewn y gyllideb ac roedd y llall 32%

yn uwch. Amcangyfrifir y dylid ychwanegu 20-25% ar ben amcan-gostau er mwyn adlewyrchu'r farchnad yn realistig ar hyn o bryd.

Mae hyn yn peri 3 risg yn bennaf:

- Methu cyflawni ar amser
- Methu cyflawni o fewn y gyllideb
- Methu gwario arian grant – risg i'w dynnu yn ôl os na fydd yn cael ei wario o fewn yr amserlen a gytunwyd

Er mwyn ceisio ymateb i'r sefyllfa hon, mae'r Uned Datblygu Eiddo wedi arbrofi gyda maint rhai ceisiadau am dendr a disgwylir gweld canlyniadau hynny yn y misoedd nesaf pan fydd y cais am dendrau'n cau.

Er bod y farchnad wedi sefydlogi fymryn erbyn hyn, mae prisiau deunyddiau yn dal yn llawer uwch nag a fu ac mae nifer o brosiectau yn wynebu oediad yn sgil hynny, a diffyg argaeledd nwyddau neu offer arbenigol sy'n dod o dramor, megis grisiau esgyn neu sglodion ar gyfer dyfeisiau electronig.

Mae'r sefyllfa o brisiau ac argaeledd contractwyr wedi cael ei amlygu mewn nifer o sgyrsiau gyda Llywodraeth Cymru, boed hynny am brosiectau cyfalaf yn y maes Tai neu brosiectau Ysgolion 21ain Ganrif. Rwyf hefyd yn ymwybodol fod hyn yn cael effaith ar nifer o adrannau eraill y Cyngor ac Awdurdodau Lleol eraill.

2.4.3 Mae **sgil-effeithiau newid hinsawdd** hefyd yn parhau i fod yn risg. Mae'r Adran yn gwneud gwaith da yn y maes newid hinsawdd, yn benodol trwy leihau allyriadau carbon o adeiladau'r Cyngor. Ers cyflwyno'r Cynllun Rheoli Carbon cyntaf yn 2010, mae'r Adran wedi llwyddo i sicrhau bod ein hallyriadau carbon wedi lleihau 58.3% (2020). Fodd bynnag, yn sgil newid ym methodoleg adrodd ar garbon gan Lywodraeth Cymru, mae posibilrwydd y byddwn yn gweld dirywiad yn y ffigwr hwn yn y tymor byr nes byddwn wedi sefydlu patrwm dibynadwy yn defnyddio'r dull newydd. Mae'r fethodoleg newydd hon yn fwy cynhwysfawr ac yn cynnwys elfennau na chynhwyswyd yn flaenorol, megis dŵr a biomas ymysg eraill.

Hoffwn dynnu sylw at un elfen arloesol y mae'r Adran wedi'i gyflawni yn y maes ynni, sef sefydlu **Fframwaith Ynni** mewn partneriaeth â Beond rhwng Ebrill 2020-2024. Mae 16 cyflenwr ar ein Fframwaith, ac mae'r trefniadau sy'n rhan ohono, sef '*reverse auction technology*' yn unigryw yn y maes ynni.

Mae nifer o awdurdodau lleol a sefydliadau ar draws Prydain yn defnyddio'r Fframwaith, gan gynnwys: Cyngor Portsmouth; Cyngor Bwrdeistref Gosport; Cyngor Bwrdeistref Reigate a Banstead; Cyngor Wyre; Citizen's Housing; Peabody Trust; Heddlu Gogledd Cymru; Gwasanaeth Tân Gogledd Cymru a Chyngor Buckinghamshire.

Yn sgil y trefniant hwn, mae'r Cyngor yn ennill enw da yn y maes, ac yn amcangyfrif y gwireddir arbedion o £932k erbyn Mawrth 2024 ar ein costau nwy. Yn ogystal â hyn, mae'r Cyngor yn cynhyrchu incwm o'r trefniant, sef £24,926.15 yn 2020, a £18,800.13 yn 2021. Mae'r incwm hwn yn ei dro yn ein cynorthwyo i fuddsoddi ymhellach yn ein gwasanaethau, er enghraifft, yn ddiweddar bu'r cyllid yn help i ni gynnal astudiaeth dichonoldeb gwres Tanygrisiau.


2.4.4 Ar gais Llywodraeth Cymru, rydym wedi bod yn cydweithio gyda'r Adran Addysg ac ysgolion Gwynedd i **fonitro lefelau carbon deuocsid mewn ystafelloedd dosbarth ysgolion y Sir** er mwyn cael darlun o sefyllfa awyru ysgolion yn wyneb argyfwng Covid-19. Trefnwyd i rannu dyfeisiau monitro gyda holl ysgolion y Sir a gofynnwyd i'r ysgolion ddarllen a chofnodi'r canlyniadau mewn cyfnod o bythefnos cyn y Nadolig. Mae'r Adran wedi cynnal dadansoddiad manwl o'r data a gyflwynwyd ym mis Rhagfyr, sy'n dangos bod y sefyllfa ychydig yn fwy calonogol na'r hyn a dybiwyd i ddechrau – dengys mai nifer fechan o ystafelloedd mewn ambell ysgol sy'n peri pryder ac sydd angen ymchwil pellach.

Rhaid nodi fodd bynnag na dderbyniwyd data gan rai o ysgolion mwya'r Sir yn ystod y cyfnod monitro cyntaf (gyda nifer yn nodi'r sefyllfa anodd a oedd yn wynebu ysgolion cyn y Nadolig o safbwynt Covid fel rheswm dros hynny). Er mwyn ceisio cael darlun mor llawn â phosibl o'r sefyllfa ar draws y Sir a chynnig datrysiadau yn yr ysgolion sydd, mae'r Adran yn agor cyfnod monitro arall ar ôl yr hanner tymor i'r ysgolion hynny na lwyddodd i ymateb i'r cais cyntaf am ddata cyn y Nadolig. Mae posibilrwydd y gall y set data newydd hwn amlygu problemau yn yr ysgolion a all olygu y bydd angen i ni ddarparu systemau awyru mewn rhai lleoliadau, ac mae risg, yn sgil hynny, bod defnydd ynni ein hysgolion am gynyddu sydd, yn ei dro, yn golygu y bydd ein hallyriadau carbon yn codi hefyd.

## 3. PERFFORMIAD


Crynhoir y prif faterion sy'n deillio o'm cyfarfodydd ynglŷn â mesurau perfformiad yr Adran isod. Nid yw'r isod yn cyfeirio at bob un o Wasanaethau ac Unedau'r Adran, dim ond y rhai y teimlaf sydd angen eu hamlygu ar hyn o bryd. Mae'r holl fesurau yn cael eu herio gennyf unwaith y mis ac rwyf yn fodlon gyda'r perfformiad ar y cyfan.

3.1 Mae'r amser a gymerir i ymateb i gais am waith **cynnal a chadw** wedi parhau i gynyddu dros y misoedd diwethaf, ac ers dechrau'r pandemig. Roedd wedi sefydlogi ar oddeutu 7 diwrnod cyn-Covid, ond mae bellach dros **10 diwrnod**. Er bod hyn yn ymddangos yn frawychus, mae rhesymau teilwng dros y cynnydd ac felly nid wyf yn pryderu. Y prif rwystr ar hyn o bryd yw trafferthion wrth geisio cael mynediad i safleoedd megis cartrefi gofal ac ysgolion i gontractwyr a'r gweithlu mewnol yn sgil cyfyngiadau Covid. Mae'r Uned hefyd wedi gweld effaith y pandemig a Brexit ar argaeledd nwyddau sydd wedi arwain at gyfnodau hirach cyn bod modd i Gontractwyr gwblhau eu gwaith ar brydiau.





Yn yr un modd ac am yr un rhesymau, gwelir yr effaith hwn ar y nifer o ddyddiau a gymerir i ymateb i gais am waith **Teleofal**, gyda'r nifer o ddyddiau ar gyfartaledd dros **7 diwrnod** erbyn hyn, o gymharu â chyfartaledd o 4 diwrnod cyn Covid.


3.2 Mae bob amser yn bleser gweld a rhannu adborth positif gan gwsmeriaid ein gwahanol Unedau. Bydd yr Adran yn cynnal ymarferiad **boddhad cwsmer** yn gyson ar gyfer gwasanaeth a gynigir gan yr Unedau Difa Pla, Cynnal a Chadw, Swyddfeydd, Glanhau, Stadau a Gorfodaeth a thrwyddedu tai aml-breswyliaeth. Er enghraifft, ym mis Hydref y llynedd, diolchwyd i staff yr Uned Glanhau am eu cyfraniad at lwyddiant Parc Gwledig Padarn yn cynnal safon Gwobr y Faner Werdd (gwobr a roddir i barciau gorau Cymru). Credaf ei bod yn bwysig bod pob math o adborth yn cael ei rannu gyda'r staff er mwyn cynnal y safon neu edrych am gyfleoedd i ddatblygu y gwasanaeth a gynigiwn.




3.3 Mae'r **Uned Datblygu Eiddo** wedi wynebu anawsterau wrth ddenu contractwyr i ymgeisio am rai tendrau yn ogystal â'r prisiau uchel yr ydym yn eu derbyn pan fo Contractwyr yn cyflwyno prisiau. Fel y soniais eisoes, mae'r Uned wedi ceisio datrys y sefyllfa hon trwy dorri cytundebau yn rannau llai, gan obeithio denu rhagor i ymgeisio, ac rydym yn dechrau gweld ffrwyth ein llafur yn hyn o beth, er mae'n rhy fuan dweud a yw hwn yn batrwm a fydd yn parhau. Mae sawl prosiect i wella cyflwr ac addasrwydd ysgolion wedi eu hoedi hefyd, ond derbyniaf fod y materion hyn y tu hwnt i reolaeth yr Uned, ac mae'r prosiectau sy'n symud ymlaen yn unol â'r amserlen a nodwyd ac sydd o fewn rheolaeth yr Uned yn 89%.

3.4 Mae'r cynnydd mewn **digartrefedd** y soniais amdano eisoes yn cael ei adlewyrchu ym mesurau perfformiad yr Adran, gyda'r nifer o ddyddiau ar gyfartaledd mewn llety argyfwng anaddas (e.e. gwely a brecwast) ym mis Rhagfyr yn **132** o ddiwrnodau, a'r nifer o ddyddiau ar gyfartaledd mewn tŷ dros dro (tai preifat sy'n cael eu prydlesu gennym) yn **355** diwrnod. Y gobaith yw y bydd y cynnydd yng nghapasiti'r tîm i gefnogi unigolion i gynnal tenantiaeth eu hunain yn arwain at fwy o unigolion yn symud ymlaen yng nghynt, a lleihau'r ddibyniaeth ar lety argyfwng anaddas a llety dros dro.






3.5 **Mae'r nifer o ddyddiau ar gyfartaledd ar restr aros am dŷ cymdeithasol** wedi gostwng ychydig dros y misoedd diwethaf – **666 diwrnod.** Mae'r galw am dŷ cymdeithasol yn uchel, ond hefyd yn cyfrannu at y ffigwr uchel yma yw enghreifftiau o ymgeiswyr sydd wedi bod ar y gofrestr am amser hir o dan yr hen drefn pwyntiau sydd bellach yn cael mwy o flaenoriaeth yn y system fandio newydd.

## 4. SWYDDFEYDD

Mae'r Gwasanaeth Cyfleusterau, sy'n gyfrifol am ein swyddfeydd, yn parhau i chwarae rhan allweddol, ar y cyd ag adrannau eraill, i edrych ar drefniadau gweithio'r Cyngor i'r dyfodol. Fel rhan o'r gwaith hwn, byddwn yn cynnwys edrych ar opsiynau i leihau'r stad yn sgil newid mewn trefniadau gweithio. Mae'r gwaith hwn yn mynd yn ei flaen ac ni wyddwn ar hyn o bryd sut y bydd ein trefniadau gweithio i'r dyfodol yn effeithio'r galw am ofod swyddfa.

## 5. SEFYLLFA ARIANNOL/ARBEDION

5.1 Mae gan yr Adran ddau gynllun Arbedion i'w cyflawni yn ystod 2021/22. Mae ffioedd archwilio a thrwyddedu tai mewn amlddeiliadaeth wedi cynyddu o £140 i £180 yr ystafell ac mae'r adran ar drac i gyflawni'r arbedion hyn.

5.2 Mae'r Adran hefyd ar drac i gyflawni'r arbedion o leihau dibyniaeth ar lety dros dro trwy fuddsoddi mewn lletyai pwrpasol. O ganlyniad i Covid 19, bu llithriad yn y rhaglen, ond mae'r podiau yng Nghaernarfon bellach yn barod ac mi fydd unedau eraill ym Mangor yn barod erbyn mis Ebrill. Fodd bynnag, mae polisi Llywodraeth Cymru o 'gartrefu pawb' yn ystod y pandemig wedi cael effaith ar yr arbediad penodol yma, gan fod Gwynedd wedi gweld cyflwyniadau digartrefedd digynsail er dechrau'r pandemig. Nid oedd hyn wedi ei ffactora pan gyflwynwyd yr arbedion gwreiddiol.

---

**BARN Y SWYDDOGION STATUDOL**

**Y Swyddog Monitro:**

Dim sylwadau i'w hychwanegu o safbwynt priodoldeb.

**Pennaeth Cyllid:**

Mae cynnwys yr adroddiad yn gyson gyda'r hyn a adroddwyd i'r Cabinet ar 18 Ionawr o safbwynt cynlluniau arbedion 2021/22, sef fod gan yr Adran Tai ac Eiddo ddau gynllun yn weddill i'w cyflawni yn ystod y flwyddyn ariannol bresennol ond eu bod ar drac i'w gwireddu.  Gallaf gadarnhau fod y pwysau digynsail ychwanegol ar y Gwasanaeth Digartrefedd wedi cael ei ystyried wrth lunio cyllideb 2022/23, a bydd y sefyllfa’n cael ei adolygu’n barhaus.

---